# Hunanasesu Perfformiad: Mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein perfformiad yn erbyn themâu a meysydd llywodraethu ein Cynllun Corfforaethol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

**This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Rydym yn hapus i gynnig y ddogfen mewn print bras, fersiwn sain a braille, a gofynnwn i chi gysylltu â’r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

# Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Hoffem glywed gennych os ydych o'r farn bod ein blaenoriaethau'r rhai gorau ar gyfer eich cymuned a beth yw eich barn ar y ffordd yr ydym yn perfformio yn erbyn y blaenoriaethau hyn. Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**E-bost:** TGDC@conwy.gov.uk

**Ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnyn nhw.

**Iaith Arwyddion**

Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy Wasanaeth InterpretersLive! sy'n cael ei gynnig gan Sign Solutions.

**Drwy'r post:**

Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1, Conwy, LL30 9NG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen gwe 'Dweud eich dweud'

## Rydym eisiau clywed barn Pobl Ifanc!

Nid oedolion yn unig sy’n gallu dweud eu dweud. Pobl ifanc yw ein dyfodol a hoffem glywed eu barn nhw hefyd!

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi fel person ifanc allu dweud eich dweud yng Nghonwy. Mae pob un o’r gwasanaethau sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghonwy’n rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud. Yn benodol, mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi o ran penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae’r cynrychiolwyr yn eich cynrychioli chi ac yn gallu lleisio barn ar bethau sy’n gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghonwy.

Os hoffech gymryd rhan ewch i dudalen Facebook Cyngor Ieuenctid neu fynd i wefan Gwasanaeth Ieuenctid neu cysylltwch â ni:

**E-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar y clyw neu ar eu lleferydd gysylltu ag unrhyw wasanaeth y Cyngor trwy ddeialu **18001** cyn y rhif sydd ei angen arnyn nhw.

**Trwy Facebook, X (Twitter) ac Instagram:** @GIConwyYS

# Cynnwys

Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach ....................................................................2

Cynnwys ......................................................................................................................4

Mesur Perfformiad .......................................................................................................5

Crynodeb o'r sefyllfa ....................................................................................................7

1. Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd ..................8

2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi ..................................................................................................19

3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus .................................................29

4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd..................................................................................41

5. Mae pobl yng Nghonwy'n teimlo'n ddiogel ac yn saff....................................................48

6. Mae pobl yng Nghonwy yn iach ...............................................................................53

7. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg ..................................67

8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.......................................................................................................71

9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn ............................................................77

10. Swyddogaethau Llywodraethu...................................................................................78

11. Camau Gwella ......................................................................................................99

12. Cloi ………………………………………………………………………………..….100

## Mesur Perfformiad

Rydym yn defnyddio ymagwedd tri lliw - coch, oren, gwyrdd (COG) wrth fesur ein perfformiad a'n gweithgareddau. Ar gyfer diben yr adroddiad hwn mae ein hymagwedd i fesur prosiectau wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd, a hynny hefyd yn cyd-fynd ag adrodd ar ein system rheoli perfformiad (CAMMS). Pan fydd mesur yn cael ei nodi fel 'cyfrif yn unig' tydi statws COG a dangosyddion o dueddiadau ddim yn berthnasol.

### Mesuriadau

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu fod y targed wedi'i gyflawni.
- Mae statws **oren** yn golygu bod y perfformiad o fewn goddefiant i gwrdd â'i darged.
- Mae statws **coch** yn golygu bod perfformiad heb gyflawni ei darged a ddim o fewn goddefiant.

### Gweithgaredd (defnyddio methodoleg prosiect)

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu bod yr elfen hon ar y trywydd iawn.
- Mae statws **oren** yn golygu bod problem posib wedi cael ei nodi.
- Mae statws **coch** yn golygu bod problem amlwg wedi'i nodi ac angen sylw.

### Disgrifiadau o dueddiadau

Mae'r adroddiad hefyd yn cymharu pwynt data (canlyniad) gyda'r cyn-gyfnod ar gael. Mewn achos o fesurau bob chwe mis cronnus byddwn yn cymharu gyda'r un cyfnod (h.y. y mesurau canol blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau canol blwyddyn flaenorol, y mesurau diwedd blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau diwedd blwyddyn flaenorol). Nid yw'n disgrifio unrhyw symudiad neu newid yn y statws COG.

- Mae **'Gwell'** yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio sefyllfa lle mae newid yn gwella'r sefyllfa derfynol. Pan mae canrannau neu niferoedd uwch yn ddymunol bydd y ffigwr yn uwch na'r ffigwr blaenorol. Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.
- Mae **'yr un fath'** yn cael ei ddefnyddio pan na fydd newid yn y sefyllfa derfynol, gyda pherfformiad yn cyd-fynd â'r cyfnod blaenorol sydd ar gael.
- Mae **'gwaeth'** yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yn y sefyllfa derfynol yn dangos dirywiad. Pan y mae canrannau neu niferoedd is yn annymunol bydd y ffigwr yn is

na’r ffigwr blaenorol.  Pan y mae canrannau neu niferoedd uwch yn annymunol bydd y ffigwr yn uwch na’r ffigwr blaenorol.

# Crynodeb o’r sefyllfa

Mae’r penodau isod yn darparu crynodeb o weithgaredd sydd wedi cymryd lle yn ystod 2023 i 2024 sy’n cefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ac yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad yn erbyn swyddogaethau llywodraethu allweddol.  Mae pob pennod yn cael ei gefnogi gan grynodeb o straeon newyddion sy’n berthnasol i’n perfformiad, crynodeb o eitemau wedi’u craffu neu gymeradwyo gan ein prif bwyllgorau a diweddariadau ar ein perfformiad yn erbyn mesurau a phrosiectau allweddol.

## Crynodeb o themâu'r Cynllun Corfforaethol

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â’r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi’i sefydlu.  Mae gwerthuso camau gweithredu wedi cael ei bennu gan statws ein gweithgareddau trwy ddefnyddio ein methodoleg prosiect.

### Amgylchedd sy’n derbyn gofal ac yn cael ei werthfawrogi

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Addysg a Sgiliau

Mesurau: Ambr: O fewn goddefgarwch
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Llety fforddiadwy, priodol ac o safon dda

Mesurau: Ambr: O fewn goddefgarwch
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Teimlo’n ddiogel a diogelwch

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed
Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Yn iach**

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Y Gymraeg yn ffynnu**

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Yn y gymuned maen nhw’n teimlo’n wybodus, yn rhan ohono, gyda llais ac yn cymryd rhan**

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Cyngor cadarn**

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

# 1. Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 1.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Rydym yn parhau i fod yn arweinydd ac arloeswr cenedlaethol mewn ailgylchu gan gyflawni 70% o'r gyfradd ailgylchu (yr unig awdurdod yng Ngogledd Cymru i wneud hynny). Mae'n cynnwys casglu 1000 tunnell ychwanegol o wastraff i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ailgylchu yn gyfrifoldeb ar bawb ac mae'r gwelliant yn dangos fod preswylwyr yn cyflawni eu dyletswydd i gefnogi'r amgylchedd. Ym mis Awst 2023, lansiwyd ein hymgyrch newydd, "Cystadlu â'r Cymdogion" sy'n hyrwyddo'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghonwy yn ailgylchu ac yn darparu cyngor ac anogaeth i'r rheiny sydd ddim, gyda gorfodaeth fel yr ateb olaf. Mae Swyddogion y Cyngor hefyd wedi cyflwyno sesiynau mewn ysgolion i ymgysylltu cenhedlaeth nesaf o breswylwyr Conwy yn y buddion o ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff ag sy'n bosib. Yn 2023, Ysgol San Siôr yn Llandudno oedd yr Ysgol gyntaf yng Ngogledd Cymru i ymweld â Pharc Adfer, y ffatri Creu Ynni o Wastraff lle mae'r gwastraff na ellir ei ailgylchu sy'n cael ei gasglu yng Nghonwy yn cael ei brosesu.

Mae'r casgliad 'podback' ymyl palmant bob pythefnos sy'n casglu podiau coffi gwag wedi bod yn boblogaidd gyda dros 750,000 o bodiau coffi gwag wedi eu casglu i'w hailgylchu yn y flwyddyn gyntaf o'r cynllun gan ddargyfeirio 12 tunnell o wastraff rhag cael ei losgi.

Mae'r ganran o strydoedd sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol sy'n lân wedi cynyddu o 97% ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol i 99% ar ddiwedd 2023 i 2024. Roeddem yn falch i adrodd yn Hydref 2023 bod strydoedd Conwy yn parhau i wella o ran glendid, gan weld lleihad yn gyffredinol mewn sbwriel. Mae hynny'n unol ag Adroddiad Blynyddol System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleoli i Gymru Gyfan (LEAMS) 2023 i 2024 sydd wedi cael ei gyhoeddi gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gynnydd yn y dangosydd glendid o 75.3 i 78.5 a chynnydd mewn strydoedd gradd "A" - o 10.3% i 15.8%, y canran uchaf o strydoedd heb sbwriel neu wastraff yng Nghonwy ers i'r arolwg ddechrau yn 2007 i 2008. Mae 97.4% o'r strydoedd yn derbyn gradd B neu uwch sydd yn gynnydd ar ffigwr llynedd. Mae 2.6% o'r strydoedd wedi eu cofnodi fel gradd C sy'n golygu fod 4 o strydoedd yn is na'r safon dderbyniol. Yn gadarnhaol iawn, am y

bedwaredd flwyddyn, ni chofnodwyd unrhyw strydoedd gradd D yn y sir. Ysbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu yw'r sbwriel mwyaf cyffredin ar strydoedd Cymru o hyd. Dyma'r achos yng Nghonwy gyda sbwriel o'r fath yn cael ei ganfod ar 45.4% o'n strydoedd. Eleni am y tro cyntaf mae'r sbwriel cysylltiedig ag ysmygu wedi cynnwys e-sigaréts tafladwy. Canfuwyd y rhain ar 2.6% o strydoedd Conwy.

Rydym yn cymryd trosedd amgylcheddol o ddifri ac yn ystod y flwyddyn wedi bod yn llwyddiannus gydag erlyn unigolion sydd wedi cynnwys cyfnod yn y carchar a dirwyon. Mae'n bwysig i breswylwyr gofio fod ganddynt ddyletswydd i sicrhau eu bod yn defnyddio pobl sy'n gwaredu gwastraff â thrwydded. Gellir gwirio trwyddedau cludwyr gwastraff ar www.naturalresources.wales/CheckWasteLicence, neu drwy ffonio 0300 065 3000.

Rydym wedi cwblhau'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd pellach sy'n golygu fod 322 o eiddo ychwanegol bellach mewn llai o risg o lifogydd. Yn Hydref 2023 fe ddyfarnodd y Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru *Wobr Roy Edwards* i Gynllun Lliniaru Llifogydd Llansannan. Mae'r dyfarniad yn cydnabod yr enghraifft orau o ddyluniad ac adeiladwaith eithriadol ar gyfer prosiect sy'n costio llai na £5 miliwn. Cyflwynwyd adroddiad bob dwy flynedd i Bwyllgor Craffu Economi a Lle ar y cynlluniau lleihau perygl llifogydd arfordirol ac afonol ym mis Tachwedd 2023. Roedd yr adroddiad yn rhoi golwg cyffredinol ar gyllido prosiectau ynghyd â'r mesurau lliniaru llifogydd sy'n cael eu cyflawni yn y sir ar hyn o bryd. Ym mis Rhagfyr 2023, cytunodd Cabinet i gyfranogiad parhaus Conwy fel Aelod Bwrdd i Ganolfan Monitro Arfordirol Cymru sy'n ceisio darparu rhaglen monitro'r arfordir sy'n safonol, y gellir ei ailadrodd ac sy'n gost effeithiol ar ran Awdurdodau Rheoli Perygl Cymru, ac i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Dyfarnodd Cabinet y cytundeb ar gyfer adeiladu'r gwelliannau amddiffyn yr arfordir ym Mae Cinmel ym mis Ionawr 2024 a Llandudno ym mis Mawrth. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar welliannau amddiffyn yr arfordir hefyd wedi'i gynnal yn Llanfairfechan ym mis Mawrth 2024.

Dynodwyd 22km ychwanegol i fod yn addas ar gyfer teithiol llesol. Yn Awst 2023 ymgynghorwyd ar wneud mynediad at Bont Conwy yn haws. Dyma ni hefyd yn cyflawni ymgynghoriad ar lwybrau teithio llesol o Lan Conwy at Warchodfa Natur RSPB Conwy; a derbyniwyd cyllid Llywodraeth Cymru i wella'r llwybr i gerddwyr a beicwyr ar Marl Lane gan redeg ochr yn ochr â'r A470 a chysylltu â Narrow Lane, Cyffordd Llandudno. Rydym hefyd wedi gosod gorsafoedd beicio newydd mewn mannau allweddol ar hyd Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 gyda chyllid o gyllideb teithio llesol Llywodraeth Cymru. Mae'r gorsafoedd cyntaf ar gael i'w defnyddio ar bromenâd Llanfairfechan, promenâd Penmaenmawr a

phromenâd Llandrillo-yn-Rhos. Bydd chwe gorsaf a man gwefru arall yn cael eu gosod dros y misoedd nesaf yn Llandudno, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Pensarn a Bae Cinmel.

Mae Cynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol yn parhau i ennill gwobrau am barciau a mannau gwyrdd yng Nghonwy ond oherwydd pwysau ariannol rydym yn anffodus erbyn hyn methu â chymryd rhan ym mentrau Cymru yn ei Blodau, Prydain yn ei Blodau, a mentrau'r Faner Werdd, felly mae'r nifer o wobrau a adroddir arnynt ond yn cael eu cyflawni gan Gynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedau, a hynny gyda'n cefnogaeth ni. Ac er ein bod ni ddim yn cymryd rhan mewn unrhyw wobrau yn 2023 lleihad bychan sydd wedi bod yn y nifer o wobrau a dderbyniwyd sef 26 i 21.

Bydd data ar gyfer y newid canran mewn allyriadau carbon ar gael yn yr hydref. Mae Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn cael ei gymeradwyo yn ystod y flwyddyn a bydd mesurau cynnydd yn cael eu hadrodd arnynt yn yr adroddiad hwn yn y dyfodol wrth i'r gweithrediad fynd yn ei flaen.

### Mesurau Blynyddol

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Canran y gwastraff a gafodd ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 70%** | 69%<br>Oren<br>Yr un fath | 70%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Canran y strydoedd sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol sy'n lân – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 95%** | 97%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 99%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen (2019 i 2020) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 0 erbyn 2030** | -24%<br>Oren<br>Gwell | Dim Data<br>Disgwyl hynny yn ystod yr hydref |
| Nifer yr eiddo lle mae'r perygl o lifogydd wedi lleihau yn dilyn gweithredu mesurau amddiffyn rhag llifogydd - **Cyfrif yn Unig** | 282 | 604 |
| Hyd y llwybr mewn cilometrau (KM) sydd wedi'i ychwanegu at deithio llesol - **Cyfrif yn Unig** | 113 | 135 |
| Nifer y gwobrau a gyflawnwyd am ein parciau a'n mannau gwyrdd - **Cyfrif yn Unig** | 26 | 21 |

## 1.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae yna wyth o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. I gyd ar y  trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Trwy ein Rhaglen Her yr Hinsawdd, byddwn yn gweithio i fod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2030 | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Isadeiledd gwefru wedi'i osod mewn 3 safle i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cerbydau trydan yn fflyd o 6 cerbyd ailgylchu trydan sy'n rhan o'r gwasanaeth rheng flaen, gyda cherbydau pellach ar fin cyrraedd yn y 12 mis nesaf. |
| Defnyddio buddsoddiad cyfalaf mewn isadeiledd mewn ffordd sy'n cefnogi gwytnwch yr hinsawdd yn ogystal â gadael etifeddiaeth cymdeithasol ac economaidd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | 9 prosiectau datblygu llwybrau teithio llesol mewn camau amrywiol o'r ddarpariaeth. Mae gorsafoedd gwefru a thrwsio e-feiciau wedi cael eu gosod mewn gwahanol leoliadau ar hyd NCN5.<br>8 o gynlluniau amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd. |
| Darparu ein Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cymeradwyo Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthoedd Ecosystemau 2023 i 2026 wedi cael ei gyflawni ynghyd â phenodi Cefnogwr Bioamrywiaeth cyntaf Conwy. |
| Datblygu a gweithredu isadeiledd teithio llesol er mwyn annog cerdded a beicio a lleihau'r defnydd o geir. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | 9 llwybrau teithio llesol sydd ar waith: Glan Conwy; Pont Conwy; Dyffryn Conwy; Dolgarrog; Towyn a Bae Cinmel; Deganwy a Chyffordd Llandudno, Bae Penrhyn; Bae Colwyn; a Chraig y Don. |
| Cynyddu cyfleoedd i drigolion, ymwelwyr a busnesau i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn darparu gwasanaeth casglu sy'n cyd-fynd ag anghenion y rheoliadau newydd ar gyfer busnesau ac yn cynnig ystod eang o ddewisiadau ailgylchu.<br>Wrth gydweithio â Chyngor Sir Ddinbych mae'r broses o ailgylchu polystyren wedi cael ei gyflwyno ar draws yr holl safleoedd ac mae ardal 'dewis ailddefnyddio' i'w chael yn y safle ym Mochdre lle mae eitemau na ellir eu hailddefnyddio'n llwyr ar gael i unrhyw un sy'n gallu ailddefnyddio'r darnau sydd ar ôl fel pren, paent, farnais. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi ffordd o fyw iach drwy ddarparu amgylchedd glân a deniadol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Gwaith cefnogaeth gymunedol mewn ardaloedd trefol a thraethau ar draws yr holl leoliadau presennol ac yn tyfu mewn niferoedd.<br>Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 11 o ganolfannau benthyca gan alluogi grwpiau lleol i fenthyca offer casglu sbwriel ac rydym yn gweithio'n rheolaidd gyda 23 o grwpiau cymunedol. |
| Cefnogi datblygiad morlyn llanw yng Ngogledd Cymru a datblygu prosiectau gwyrdd er mwyn helpu i ddatblygu'r economi a helpu i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau neu broblemau sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adborth ar ganlyniad cyflwyno'r datganiad o ddiddordeb ar y morlyn llanw. |
| Datblygu ymagwedd rhaglen gadarn gan gynnwys Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn cyflawni targed cenedlaethol net sero erbyn 2050. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cynlluniau Ynni Ardal Leol a phrosiectau Sero Net ehangach yn symud ymlaen yn dda gan gynnwys:<br>• Polisi Adeiladu Tai Newydd a gofyniad datblygwr ar gyfer sero net wedi'i gytuno arno gan Gabinet.<br>• Meysydd cludiant cynaliadwy a pholisi teithio llesol a gytunwyd arnynt gan Gabinet.<br>• Cytuno ar ymagwedd gwrthbwyso h.y. lle mae datblygwyr yn methu cwrdd â'r gofynion sylfaenol ar y safle a bod modd cael cyfraniad ariannol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ôl-osod, cerbyd trydan ac ati (gwneir cais am lefelau is lle mae'n cael effaith ar dai fforddiadwy). |

## 1.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 1.3.1. Di-garbon Net

Yn Rhagfyr 2023, cafodd adroddiad perfformiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle a oedd yn dangos ein cynnydd mewn cyflawni sero net. Roedd yr adroddiad yn darparu sicrwydd i aelodau ein bod yn mynd i'r afael â'n perfformiad ac yn ei

fonitro'r cynllun lleihau carbon a datgarboneiddio. Mae Archwilio Cymru wedi adolygu ein cynlluniau lleihau carbon. Mae eu hadroddiad terfynol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Medi 2023, wedi dod i'r canlyniad fod gennym weledigaeth glir a chefnogaeth strategol i'n hymagwedd at ddatgarboneiddio a sero net erbyn 2030, ac rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethu yn eu lle i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gwrdd â'r her o gyflawni allyriadau carbon sero net. Er hynny cafodd ei argymell fod y cynllun gweithredu yn cael ei brisio'n llawn er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Cafodd y cynllun gweithredu ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'r gwasanaeth yn y broses o weithredu'r argymhelliad hwn.

### 1.3.2. Argyfwng Natur

Cyflwynwyd rhybudd o gynnig gyda'r Cyngor yn ei fabwysiadu yn Hydref 2023 i ddatgan Argyfwng Natur yn unol â'r datganiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru.  Mae'n dangos ein hymrwymiad yng Nghonwy i fynd i'r afael â'r argyfwng ar lefel leol ac rydym yn gweithio ar ymateb i hynny.  Cyflwynwyd rhybudd am gynnig arall i'w ystyried gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023 yn ymwneud  â phlannu coed mewn trefi yn y Cynllun Cyflawni Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau 3 blynedd newydd, a oedd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Medi 2023, a'i gymeradwyo gan Gabinet ym mis Hydref.

### 1.3.3. Parc Cenedlaethol Eryri

Ymunodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, Traffig Cymru a Heddlu Gogledd Cymru ynghyd i annog ymwelwyr i Eryri er mwyn cael profiad cyfrifol a chynaliadwy o'r Parc yn ystod 2023 i 2024. Mae'r parc yn ardal o harddwch naturiol eithriadol sy'n atynnu ymwelwyr o bell. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn poblogrwydd hefyd yn cyflwyno heriau i gydbwysedd cynnil yr amgylchedd a chymunedau lleol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gofalu am yr ardal eithriadol hon mae'n hanfodol fod ymwelwyr yn mabwysiadu arferion cynaliadwy ac yn cadw at y canllaw a ddarperir.  Mae Traffig Cymru a'r awdurdodau lleol wedi gweithredu mesurau i fynd i'r afael â thagfeydd ac i sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr ffyrdd. Mae ymwelwyr yn cael eu hannog i wirio gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth ar argaeledd parcio pwrpasol, dewisiadau eraill o ran trafnidiaeth (fel cyfleuster parcio a theithio), a diweddariadau traffig byw.   Gofynnir hefyd i ymwelwyr barchu cymuned Nant Gwynant drwy ddilyn canllawiau lleol, bod yn ystyriol o ran sŵn, a chario sbwriel adref gyda nhw. Mae'r Cod Cefn Gwlad yn amlinellu egwyddorion ymddygiad awyr agored cyfrifol, gan gynnwys parchu eraill, diogelu

bywyd gwyllt a da byw, a pheidio â gadael eu hôl ar y dirwedd. Anogir ymwelwyr i ymgyfarwyddo eu hunain gyda'r cod ac i ddilyn ei argymhellion i ddiogelu tirwedd a bioamrywiaeth unigryw'r Parc.

### 1.3.4. Cynnal Mannau Cyhoeddus

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ddeiseb yn galw arnom i ystyried gwaith clirio rheolaidd o dywod sy'n cael ei chwythu gan y gwynt i fannau cyhoeddus ym Mhenmorfa Llandudno er mwyn osgoi sbwriel a chwyn i hel a thyfu yn y tywod ac i wneud yn siŵr fod y llefydd hyn yn parhau i fod yn hygyrch. Awgrymwyd hefyd y dylid gofalu am y meinciau er cof am anwyliaid yn well. Roedd y pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa ariannol ac ni fyddai ateb perffaith ar gyfer y broblem hon. Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Penmorfa a'r Cyngor Tref. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod ymhellach gyda Gwasanaeth Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i benderfynu pa gamau y gellir eu cymryd gyda'r pwyllgor yn gofyn iddyn nhw a'r aelodau lleol i gael eu hysbysu o unrhyw ddatblygiadau.

### 1.3.5. Gardd Gofio

Mae Gardd Gofio wedi cael ei chreu ym Mharc Cae Derw, Cyffordd Llandudno, mewn partneriaeth rhyngom ni a Chyfeillion Parc Cae Derw. Wedi'i hadeiladu gyda chyllid adran 106 mae'r ardd wedi'i dylunio fel rhywle i breswylwyr eistedd a myfyrio. Mae pergola a meinciau i eistedd arnynt gyda goleuadau solar, gwlâu blodau o blastig wedi'i ailgylchu a pherllan ffrwythau Cymreig sy'n cynnwys nifer o goed afalau, eirin a cheirios lleol. Mae Cyfeillion Cae Derw yn grŵp gwirfoddol gweithgar sydd wedi cydweithio â ni ers blynyddoedd ar ddatblygu'r parc. Heb bŵer prif gyflenwad i oleuo'r goeden Nadolig, penderfynodd y trigolion ei haddurno gyda pheli â llawysgrifen arnynt yn coffáu anwyliaid wedi'u colli. O hynny y datblygodd syniad am le i gael ei defnyddio trwy gydol y flwyddyn lle gallai pobl eistedd a myfyrio mewn gardd fwy pwrpasol. Cynlluniodd y gymuned ardal yr Ardd Gofio gyda'r Cyngor yn darparu'r llafur a'r arbenigedd i greu'r ardd yn barod ar gyfer Nadolig 2023.

### 1.3.6. Mynwent Llanrhos

Yn ystod haf 2023, dechreuwyd ar y gwaith o ehangu Mynwent Llanrhos, oddi ar Conway Road. Bydd yr estyniad newydd yn golygu lle i blotiau bedd dwbl a phlotiau bedd sengl yn ogystal â phlotiau claddu llwch.  Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys lagŵn a draeniau newydd,

tirlunio a nodweddion bioamrywiaeth gan gynnwys blychau ystlumod a blychau adar. Bydd llwybrau newydd yn cysylltu'r tiroedd presennol gyda'r gofod newydd.

### 1.3.7. Rheoli Geifr

Ym mis Mai 2023, fe gytunodd Cabinet i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli Geifr Gwyllt. Mae'r cynllun hwn yn egluro sut y caiff y boblogaeth geifr ei monitro a'i rheoli er mwyn sicrhau fod y gyr o eifr yn goroesi yn y dyfodol ac yn eu galluogi nhw i gyd-fyw ochr yn ochr â'r gymuned leol.

### 1.3.8. Digwyddiadau Tywydd Eithafol

Cafodd y sir ei heffeithio gan Storm Babet a Storm Ciaran yn ystod misoedd y gaeaf yn 2023.  Mae achosion o dywydd eithafol yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar ein hadnoddau yn arbennig ar ein cyllideb lle rydym wedi gorfod talu costau mawr ar waith trwsio. Rydym yn parhau i weithio gyda'r gwasanaethau brys a phartneriaid Awdurdod Lleol ledled Gogledd Cymru i sicrhau ymagwedd gydlynol wrth ymateb i'r achosion hyn o dywydd eithafol. Mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar amddiffyn ein cymunedau, diogelu ein cartrefi a lleihau'r effaith ar ein preswylwyr.  Rydym yn ddiolchgar i'n holl staff a chriwiau brys am eu gwaith caled ac am ein cadw ni'n saff.

### 1.3.9. Polisi Cynllunio

Mae Polisi Cynllunio diwygiedig Llywodraeth Cymru yn disgwyl datblygiad newydd i atal yr achosion o newid hinsawdd, a bydd gofyniad ar ddatblygwyr tai newydd i arddangos sut y byddan nhw'n cyflawni'r polisïau sero net hyn.  Bydd gennym rôl bwysig i'w chwarae mewn sicrhau fod datblygiadau'r dyfodol yn cwrdd â'r gofynion hyn ac yn Ionawr 2024, fe drafododd a chytunodd Cabinet i gynnwys ymagwedd fframwaith ac argymhellion polisi yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd i'w ymgynghori arno nes ymlaen yn y flwyddyn.

Ym mis Ebrill 2023, mabwysiadodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle y "Nodiadau Canllawiau Rhwymedigaethau Cynllunio a Hyfywedd".  Mae'r nodiadau defnyddiol hyn yn crynhoi'r adrannau perthnasol o bolisi cynllunio lleol a chenedlaethol mewn fformat mwy eglur a hygyrch fel bod yr holl bartïon yn deall y goblygiadau cynllunio yn llwyr.

### 1.3.10. Strategaeth Ynni

Ym mis Gorffennaf 2023, cytunodd Cabinet i fabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Ynni Gogledd Cymru. Amcan cyffredinol y strategaeth hon yw datblygu llwybr strategol sy'n nodi ymyriadau allweddol i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth ar gyfer datgarboneiddio ei system ynni a sicrhau bod y rhanbarth yn elwa o'r cyfnod pontio.

### 1.3.11. Diweddaru'r Fflyd

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiadau carbon sero-net, cytunodd y Cyngor yn Ionawr 2024 fod elfen o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig yn cael ei defnyddio i brynu cerbydau ailgylchu trydan yn dilyn cynnig am grant o £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Cymeradwywyd fod £2.6 miliwn o'r rhaglen gyfalaf 2024 i 2025 yn cael ei ddefnyddio i brynu cerbydau newydd. Ar Fawrth 2024 roedd gan Gonwy bump o gerbydau ailgylchu trydan yn weithredol yn ddyddiol gyda deg arall wedi'u harchebu. Mae'r diweddariadau hyn yn ychwanegol i'r broses o ddiweddaru'r fflyd bresennol trwy'r Rhaglen Gyfalaf.

### 1.3.12. Goleuadau Stryd

Mae 22 o oleuadau stryd wedi cael eu newid ar yr Old Highway ym Mae Colwyn gan gwrdd â safonau diogelwch goleuadau stryd sy'n lleihau llygredd gan olau ac sydd o fudd i fywyd gwyllt yn y coetir lleol. Mae costau'r goleuadau newydd a chostau eu gosod yn cael eu talu'n llwyr gan gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru.  Bydd yr hen oleuadau yn cael eu hailddefnyddio yn rhywle arall.

### 1.3.13. Terfynau Cyflymder 20mya

Gweithredwyd cyfyngiad cyflymder 20mya diofyn newydd Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ym Medi 2023.  Ym mis Hydref fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n adolygu'r canllaw a'r meini prawf eithrio wedi'u darparu i gynghorau a gofynnwyd i breswylwyr Conwy i gysylltu â'r tîm traffig os oedden nhw'n teimlo y dylai'r terfyn cyflymder ar ffyrdd penodol gael ei newid o 20mya i 30mya.  Derbyniwyd dros 200 o e-byst ac roedd swyddogion yn ystyried yr holl geisiadau. Ym mis Chwefror 2024 cyflwynwyd e-ddeiseb i'r Cabinet ar ran preswylwyr yn gofyn i ni ymgynghori gyda, ac i wrando ar y cyhoedd ynglŷn â pha ffyrdd y dylid eu heithrio o'r cyfyngiad 20mya. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r arweiniad ar gyfer eithrio ffyrdd, a disgwylid iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn hydref 2024. Yn dilyn yr adolygiad

cenedlaethol hwn bydd Cabinet yn ystyried adroddiad sy’n berthnasol i ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

### 1.3.14. Bws Fflecsi

Mae gwasanaeth bws Fflecsi Dyffryn Conwy yn wasanaeth bws sy’n seiliedig ar alw ac wedi bod yn boblogaidd iawn ymysg preswylwyr yn ein hardaloedd gwledig.  Nid oes taith nac amserlen benodol, dim ond parth gweithredu sy’n galluogi teithwyr i gael eu codi a’u gollwng mewn unrhyw le o fewn y parth fflecsi hwnnw. Mae estyniad i wasanaeth bws Fflecsi Dyffryn Conwy yn Nolwyddelan a rŵan bydd y gwasanaeth yn gweithredu rhwng 6:30am a 7:00pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn lle bydd preswylwyr yn elwa o gysylltiadau cludiant gwell.  Gallwch lawrlwytho’r ap Fflecsi neu ffonio 0300 234 0300 i drefnu taith.

# 2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 2.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae'r nifer o fusnesau wedi'u cefnogi trwy gyngor a chefnogaeth (1,939) yn parhau i gyd-fynd â pherfformiad llynedd (1,978). Mae'r nifer o fusnesau wedi'u cefnogi gan y grant yn sefydlog hefyd (gostyngiad o 59 i 57). Defnyddiwyd Grant Cefnogi Busnes Conwy i gefnogi 29 o fusnesau yn y flwyddyn. Yn ystod yr ail ran o'r flwyddyn roedd y ffocws ar ddarparu Cronfa Allweddol Cefnogi Busnes y Gronfa Ffyniant a Rennir y DU, lle cafodd 25 o geisiadau eu cymeradwyo. Mae'r ganran o unedau diwydiannol wedi'u meddiannu wedi cynyddu hefyd yn ystod y flwyddyn o 91% i 96%.

Mae'r nifer o ymholiadau i'r tîm llyfrgelloedd a gwybodaeth wedi cynyddu o 96,820 yn ystod 2022 i 2023, i 110,280 yn 2023 i 2024.

Cwblhawyd un ar bymtheg o gamau gweithredu yn ystod 2023 i 2024 wrth gefnogi cynllun cyflenwi Creu Conwy. Cyflwynwyd adroddiad ar gynnydd blwyddyn gyntaf Strategaeth Diwylliant Conwy 'Creu Conwy - Tanio'r Fflam' i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn ei gyfarfod ym Mai 2023. Hyd yma mae gwaith wedi cael ei wneud ar greu model llywodraethu effeithiol ar gyfer y strategaeth sy'n cefnogi prosiectau ledled y sir ac ar lefel gymunedol; ymchwil, datblygu a chreu cynllun cyflenwi, peilota prosiectau ac ymagweddau newydd; a chodi arian. Yn ystod y drafodaeth cydnabuwyd fod diffyg cyllid ac adnoddau i gyflawni'r cynllun a sicrhawyd fod y Tîm Diwylliant yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau allanol, gyda'r ddealltwriaeth fod cyflawni'r prosiect yn ddibynnol ar gydweithio a chynghreiriau diwylliannol.

Mae'r cyfanswm o gyllid allanol i gefnogi'r gwaith o adfywio ac adfer wedi gostwng o £44 miliwn i £41.3 miliwn, er hynny mae'r cyfanswm ar gyfer cefnogi'r celfyddydau a threftadaeth wedi cynyddu o £48,930 i £1.38 miliwn. Mae'r cyfanswm a sicrhawyd wedi cael ei ddylanwadu'n gadarnhaol gan argaeledd y Cyllid Ffyniant a Rennir.

Mae'r nifer o bobl sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celf greadigol, treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, Venue Cymru, a Theatr Colwyn wedi cynyddu'n sylweddol gan arwain at newid yn sut y caiff y mesuriad ei gyfrifo ac mae bellach yn

cynnwys ffigyrau cynulleidfaoedd mewn theatrau. Adroddwyd 251,985 ar gyfer 2023 i 2024 (yn hytrach na 36,974 yn y flwyddyn flaenorol).

Rydym wedi ymgymryd ag asesiad ar sut y mae digwyddiadau yn effeithio ar ein heconomi, gyda Thriathlon Môr Llandudno fel enghraifft. Cafodd y ras hon ei hargymell am ei bod yn atynnu pobl i aros dros nos yn ogystal ag atynnu ymwelwyr sy'n gwario llawer o arian a chafodd ei ddewis fel cam olaf o Gyfres 'Super' Triathlon Cymru.Ar gyfer 2023, roedd tua 1000 o gystadleuwyr a 3000 o wylwyr wedi mynychu'r digwyddiad gyda dros 60% ohonynt yn deillio o du allan i ranbarth Gogledd Cymru ac yn aros o leiaf un noson yn yr ardal. Yn seiliedig ar ymchwil gwariant gan wylwyr a chystadleuwyr cafodd dros £405,000 ei wario yn y gymuned leol.  Gwariwyd £65,000 pellach gan y trefnwyr gan arwain at y digwyddiad yn ei gyfanrwydd i greu mwy na £470,000. Hefyd roedd gohebiaeth ar y teledu, ffrydio byw a sylw ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi codi'r proffil twristiaeth yn y sir.

Rydym hefyd wedi dadansoddi adborth o'r Economi Min Nos. Darganfuwyd fod yna natur dymhorol benodol a bod angen annog busnesau i agor yn ystod misoedd y gaeaf ac i helpu datblygu'r sir fel cyrchfan trwy gydol y flwyddyn. Mae'n ymddangos mai busnesau bwyd a diod yn nhref Conwy sy'n dioddef fwyaf oherwydd ei natur dymhorol gyda 60% o fusnesau lletygarwch wedi'u lleoli yng Nghonwy yn disgrifio eu hunain fel rhai tymhorol. Roedd yn ymddangos bod tafarndai hefyd yn wynebu mwy o her gyda'r natur dymhorol ar draws y sir o'i gymharu â chaffis a bwytai. Dim ond 18% o fanwerthwyr sy'n cynnig siopa hwyr y nos. Dim ond 37% o'r busnesau wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg sy'n cynnal digwyddiadau yn eu heiddo. Nododd y gyfran uchaf o ymatebwyr (37%) ddiffyg gweithgareddau gyda'r nos fel y prif fwlch yn yr economi gyda'r nos bresennol. Mae'r asesiad wedi nodi nifer o gamau gweithredu allweddol y gellir eu cymryd i helpu gyda'r economi yn ystod y nos, ac rydym yn gweithio ar gyflawni achrediad Baner Biws fel ein bod yn gallu mesur yr effaith.

Disgwylir data ym mis Hydref ar gyfer y nifer o ymwelwyr i Gyngor Conwy ym misoedd y gaeaf.

### Mesurau dwywaith y flwyddyn

| Teitl | Diwedd y flwyddyn 2022 i 2023 | Ganol y flwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd y flwyddyn 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd trwy gyngor a chymorth - **cyfrif yn unig** | 1,978 | 658 | 1,939 |

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd gyda grantiau - **cyfrif yn unig** | 59 | 57 |
| Canran o unedau yn ein portffolio unedau diwydiannol wedi'i meddiannu - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 85%** | 91%<br>Coch<br>Gwaeth | 96%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer o ymwelwyr i Gonwy yn ystod misoedd y gaeaf (Hydref i Chwefror) – **cyfrif yn unig** | 1,033,580 | Dim Data<br>Disgwyl derbyn y data yn yr hydref |
| Nifer yr ymholiadau i'r tîm gwybodaeth a llyfrgelloedd - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 100,000** | 96,820<br>Amherthnasol<br>Blwyddyn sylfaen | 110,280<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni Strategaeth Creu Conwy a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 15** | 9<br>Amherthnasol<br>Blwyddyn sylfaen | 16<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm y cyllid allanol a ddenwyd a rheolwyd gan ein timoedd i gefnogi adfywiad ac adferiad - **cyfrif yn unig** | £44 miliwn | £41.3 miliwn |
| Lefel y cyllid allanol ar gyfer y celfyddydau a threftadaeth wedi'i sicrhau gennym - **cyfrif yn unig** | £1.33 miliwn | £1.38 miliwn |
| Nifer y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn: Gweithgareddau celfyddydau creadigol, treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, Venue Cymru, Theatr Colwyn yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 36,974 | 251,985 |

## 2.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae yna saith o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae un wedi'i gwblhau a'r chwech arall ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Adolygu ein strategaeth gaffael er mwyn cadarnhau ein hymrwymiad parhaus i brynu'n lleol lle bo'n briodol. | Cwblhawyd | Mae'r Strategaeth Gaffael wedi'i chwblhau a chafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mehefin 2023. |
| Creu'r amgylchedd iawn i gefnogi twf a denu busnesau newydd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi cefnogi busnesau lleol trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gwerth hyd at £3 miliwn.<br>Yn 2023 i 2024 cafodd 25 o fusnesau ar draws ystod amrywiol o sectorau gymorth gyda phrosiectau yn amrywio o ddatblygu atyniadau ymwelwyr newydd, datgarboneiddio ac effeithiolrwydd gwyrdd a gweithgynhyrchu cynnyrch newydd.<br>Dyma ni'n parhau i gynnig Grant Cefnogaeth i Fusnesau Conwy a chafwyd tua 10 ymholiad yr wythnos ar gyfartaledd.<br>Mae gwaith y Fforwm Busnesau yn parhau mewn trefi allweddol. |
| Gweithio gyda'n partneriaid yn y sector gyhoeddus i adfywio canol ein trefi ar draws y sir er mwyn ysgogi twf a chreu trefi bywiog 'gwyrdd'. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Yn cael ei gyflawni trwy bartneriaethau i ehangu cyrhaeddiad a budd. Mae'n cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Bro, Cynlluniau Kickstarter a Chynlluniau Cymunedol. |
| Datblygu economi'r nos a chynnig twristiaeth dros fisoedd y gaeaf, gan wneud Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn a chefnogi adfywio cymunedol ar draws y sir. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ariannwyd y prosiect dichonolrwydd min nos gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Penodwyd Savills fel y cwmni ac mae gweithgaredd yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae ymweliadau safle wedi cael eu cynnal mewn trefi allweddol yn y sir (Towyn, Abergele, Llandudno, Conwy, Llanrwst a Betws-y-coed). |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cydweithio gyda chymunedau, rhoi Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy ar waith a datblygu canolfannau cymunedol ymhellach er mwyn gwella lles, cefnogi adfywio cymunedol a'r effaith economaidd, gan fanteisio i'r eithaf ar asedau diwylliannol ein sir. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Strategaeth wedi bod yn llwyddiannus gyda chyflawni prosiectau Pobl Ifanc Creadigol a Gigs y Gaeaf Ifanc a hefyd yn cefnogi Cymerwch Ran (Ionawr 2024). Mae dros 1500 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi cael cyfleoedd creadigol drwy gymryd rhan yn y gweithgaredd.<br>Mae prosiectau Ffyniant Gyffredin yn y broses gyflawni yn cynnwys Taith, Llenwi (Pethau Pwysig - Arwyddion Cyrchfannau). |
| Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn cael golwg hirdymor ar ein hymrwymiadau cyfalaf. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Dyma ni'n parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill allanol i wneud y mwyaf o gyfleoedd cyllid grant ac i wneud cais am gyllid grant pan yn briodol, er enghraifft Cyllid Ffyniant Gyffredin y DU a Thrawsnewid Trefi. |
| Archwilio cyfleoedd i arallgyfeirio ein heconomi o ganlyniad i'n profiadau o'r pandemig. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Bellach mae gennym Gynlluniau Adfywio a Chreu Lleoedd (gelwir hefyd yn Gynlluniau Bro) ar gyfer ein holl brif drefi ac rydym yn y broses o ddod â blaenoriaethau ynghyd ar gyfer pob un a'r synergedd rhyngddynt. |

## 2.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 2.3.1. Cefnogaeth gyda Chyflogaeth

Ym mis Rhagfyr 2023 roedd ein [Tîm Hwb](#) Cyflogaeth yn llwyddiannus mewn sicrhau £292,510 ar gyfer y prosiect Llwybrau i Waith wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae'r prosiect yn targedu diwydiannau sydd â diffyg gweithwyr yn ogystal â darparu hyfforddiant ar swyddi penodol a bydd pob cwrs yn canolbwyntio ar gynyddu hyder, gwytnwch, lles, sgiliau adeiladu tîm a chyflogadwyedd. Bydd y tîm hefyd yn cynnig cymorth i wneud CVs, llenwi ffurflenni cais, sgiliau cyfweliad, cymwysterau achrededig yn benodol i sector, a sgiliau TG sylfaenol. Yn gyffredinol mae'r mynychwyr yn bobl sy'n barod i weithio neu'n agos i fod yn barod i weithio a lle mae pob ymdrech wedi'i wneud i gynnwys pobl o gefndiroedd dan anfantais neu heriol.

Cynhaliwyd ein trydedd Ffair Swyddi blynyddol ym mis Chwefror 2023 gyda 1,110 o bobl yn mynychu'r digwyddiad gyda thua 90 o sefydliadau arweiniol gydag arddangosfeydd yn y ffair. Trefnwyd y digwyddiad gan Hwb Cyflogaeth Conwy mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru, Creu Menter a Chefnogaeth i Fusnesau Conwy. Tynnodd sylw at gyfleoedd gyrfaol a sicrhau swyddi parhaol a dros dro i lawer o ymgeiswyr. Gallwch ddarllen mwy am y digwyddiad yn y datganiad i'r wasg hwn.

### 2.3.2. Bargen Dwf Gogledd Cymru

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau wedi derbyn diweddariad ar Fargen Dwf Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023. Nododd yr adroddiad ar ôl i brosiectau Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Fferm Sero Net Llysfasi gael eu tynnu'n ôl o'r Fargen Dwf, gwnaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd benderfyniadau allweddol ynglŷn â sut i ailddyrannu cyllid o fewn y fargen. Mae Cronfa Cyflwyno Portffolio wedi'i sefydlu ar gyfer 2023-24 er mwyn cefnogi prosiectau aeddfed yn y portffolio sy'n wynebu cynnydd mewn costau neu broblemau hyfywedd er mwyn eu cyflawni. Hefyd cytunodd y Bwrdd ar y meini prawf ac ar ddyraniad o £13m ar gyfer y broses newid prosiectau. Mae'r pedwar prosiect canlynol yn adrodd yn goch oherwydd naill ai risgiau i gwmpas y prosiect neu oedi sylweddol yn amserlenni'r prosiect:

- Cysylltu'r % diwethaf
- Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni).
- Canolfan Economi Gwledig Glynllifon.
- Canolfan ar gyfer Biotechnoleg Amgylcheddol.

Codwyd pryderon gan aelodau ynglŷn â chadernid y strategaeth buddsoddiad preifat a nodwyd hefyd bod y broses o greu swyddi o dan y fargen wedi bod yn araf. Roedd aelodau hefyd yn bryderus nad oedd yn ymddangos bod llawer o fuddsoddiad uniongyrchol ar gyfer Sir Conwy a gofynnwyd am ddiweddariad mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

### 2.3.3. Adfywio

Ym mis Awst 2023 cytunodd Cabinet i'r broses o lansio Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol Conwy sef cyllid grant cystadleuol i brosiectau rhwng £10,000 a £249,999, sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Croesawyd ceisiadau gan sefydliadau cymunedol ar amryw o brosiectau sy'n cwrdd â'r angen cymunedol ac yn

cyfrannu at wneud gwahaniaeth amlwg mewn ardal leol. Yn ei gyfanrwydd roedd £3 miliwn i'w ddyrannu. Roedd 42 prosiect yn llwyddiannus gyda'r rhain yn amrywio o ychydig filoedd o bunnoedd ar gyfer ailwampio llefydd chwarae i chwarter miliwn o bunnoedd i ailwampio'r trac athletau yn Stadiwm CSM, Parc Eirias. Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiectau llwyddiannus ar ein gwefan: Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol

Ym mis Hydref lansiwyd ymgynghoriad ar welliant arfaethedig ar gyfer canol tref Bae Colwyn a oedd yn cynnwys gwell palmentydd, cynllunio, llwybrau beicio a cherdded, maes parcio a llai o effaith gan geir. Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle wedi derbyn diweddariad ar y cynnydd gyda'r Rhaglen Adfywio Bae Colwyn ehangach yn Ionawr 2024, lle mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith wedi'i wneud ar adnewyddu tai, Cam 2b o brosiect Glan y Môr, amddiffynfeydd arfordirol a'r buddsoddiad ehangach a chynllun adfer ar gyfer y dref. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu crynodeb o gostau ac wedi rhoi sicrwydd ynghylch llywodraethu gyda Bwrdd Rhaglen yn ei le a chylch gorchwyl wedi'i gytuno arno a chyd-ddibyniaethau gyda phrosiectau eraill wedi'u mapio'n glir a'u deall. Yn gynharach yn y flwyddyn fe gymeradwyodd Cabinet Orchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer y dref sy'n gysylltiedig yn benodol â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar Gam 2b o'r Prosiect Glan y Môr.

Yn dilyn mewnbwn Craffu ym Medi 2023 fe gymeradwyodd Cabinet Gynllun Adfywio 10 Mlynedd Llandudno ym mis Hydref sy'n edrych ar gynyddu cyfleoedd am gyllid gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i helpu adfywio a diogelu'r dref. Yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod na fydd ardaloedd heb strategaeth glir yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid yn y dyfodol. Nod y cynllun yw adfywio Llandudno a'i gwneud yn dref nodedig a dymunol i fyw, buddsoddi, gwneud busnes ac ymweld â hi. O ganlyniad, mae nifer o'r prosiectau a'r mentrau a restrir yn y cynllun yn rhai uchelgeisiol, a bydd angen gwneud cais am gyllid allanol i'w cyflawni nhw. Mae'r pwysigrwydd o gydweithio gyda busnesau preifat, Cynghorau Tref a Chymuned, partneriaid, budd-ddeiliaid a grwpiau cymunedol yn cael ei gydnabod ar gyfer llwyddiant y gwaith hwn. Ym mis Ionawr dyma ni'n sicrhau cyllid pellach i gael gwared ar bum lloches promenâd ar hyd Traeth y Gogledd trwy gyfuniad o Gynllun Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'r strwythurau newydd yn efelychu dyluniad Fictoraidd ac yn cynnig y cyfle i breswylwyr ac ymwelwyr i fwynhau golygfeydd Bae Llandudno.

Yn dilyn ymgynghoriad diweddar fe fabwysiadodd Cabinet ym mis Awst 2023 y Cynllun Lle Towyn a Bae Cinmel fel Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer yr ardal. Mae cynllun lle yn edrych i fynd i'r afael â'r holl broblemau hynny sy'n effeithio ffyniant ardal leol fel defnyddio

tir, datblygiad newydd, yr amgylchedd adeiledig, dyluniadau adeiladu a nodweddion lleol, iechyd a lles, mannau agored, cyflogaeth leol a chyfleusterau lleol.

### 2.3.4. Y Gronfa Ffyniant Bro

Yn ei gyfarfod ym mis Medi cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ei friffio ar y broses o wneud penderfyniad gyda'r cynigion Ffyniant Bro a nodwyd nad oeddem wedi bod yn llwyddiannus mewn dau allan o dri chynnig a gyflwynwyd i rownd 2 o'r gronfa (datblygiad Eirias a Dyfodol Aberconwy) ond roedd £18.6 miliwn wedi cael ei ddyfarnu i'r Cynllun Cludiant. Ym mis Mawrth 2024 roeddem yn llwyddiannus mewn sicrhau £10 miliwn pellach mewn cyllid Ffyniant Bro i Venue Cymru allu darparu gwell cyfleusterau.  Am fwy o wybodaeth ar Ffyniant Bro yng Nghonwy ewch i'n gwefan.

### 2.3.5. Cynllun Datblygu Lleol

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud yn ystod 2023 a 2024 i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn Ebrill 2023 ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle adolygiad o'r safleoedd cyflogaeth wedi'u diogelu a'u gwella'n amgylcheddol a lle mae pwysigrwydd diogelu tir cyflogaeth ar gyfer dibenion economaidd yn cael ei gydnabod yn ogystal â diogelu cyfleusterau hamdden. Cymeradwyodd Cabinet yr ymagwedd wedi'i argymell a'i amlinellu yn yr adroddiad ar gyfer y 31 safle a nodwyd.

Mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 yn ystyried Astudiaeth Llety Gwyliau Llandudno a oedd yn adolygu'r polisi o ran y lefel briodol o lety â gwasanaeth i dwristiaeth yn Llandudno. Nid oedd y polisi yn cynnig colli llety â gwasanaeth ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer llety â gwasanaeth newydd, wedi'u gwella neu drosi yn y dref. Nodwyd fod Tai Amlfeddiannaeth ddim yn cael eu caniatáu yn y Parth Llety Gwyliau.  Cymeradwyodd Cabinet y polisi yn ei gyfarfod ym mis Awst 2023.

Mae Adolygiad Tir Cyflogaeth Conwy'n argymell bod Sir Conwy angen oddeutu 14 i 20ha o dir cyflogaeth y gellir ei ddefnyddio hyd at 2033.  Mae rhywfaint o'r tir ar gael eisoes (unedau gwag, plotiau heb eu datblygu ar safleoedd cyflogaeth heb gyfyngiadau er enghraifft), ond mae angen dyrannu oddeutu 6 hectar o dir newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn dilyn Craffu ym mis Mehefin, cyflwynodd Cabinet ei gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2023 i'r cynigion ar gyfer defnydd cymysg o gyfleusterau cyflogaeth a rheoli gwastraff mewn tri safle yn Chwarel Llanddulas. Y cynnig yw llenwi'r gwacter yn y chwarel gyda deunydd anadweithiol i greu platfformau o fewn yr ardaloedd hynny a fydd yn creu hyd at 9.5 hectar o dir cyflogaeth y gellir ei ddefnyddio.

### 2.3.6. Cynllun Rheoli Cyrchfan

Mae Craffu wedi cyfrannu at y Cynllun Rheoli Cyrchfan diwygiedig ar gyfer 2023 i 2029 ym mis Medi a gafodd ei fabwysiadu gan Gabinet yn yr Hydref. Mae'r cynllun wedi'i greu gan Bartneriaeth Cyrchfan Conwy yn mynegi'r weledigaeth ddiweddaraf ar gyfer twristiaeth yn y sir gan gyd-fynd â strategaethau a ddaeth i'r amlwg oherwydd y pandemig gan gynnwys Strategaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Eryri a Gwynedd 2035. Mae cynaliadwyedd yn thema allweddol yn y cynllun sy'n cydnabod y pwysigrwydd o gydbwyso anghenion preswylwyr gydag anghenion ymwelwyr yn ogystal â gweithio gyda busnesau lleol a phartneriaid. Mae un ar ddeg o amcanion wedi'u hamlinellu yn y cynllun:

- Cynyddu gwerth twristiaeth ar draws y flwyddyn gyfan.
- Sicrhau bod ymwelwyr a phreswylwyr yn cael profiadau o ansawdd.
- Ymgysylltu ymwelwyr â'n treftadaeth: diwylliannol, llafar ac adeiledig.
- Cyflawni canlyniadau buddiol i breswylwyr ac ymwelwyr drwy ymgysylltu'n well â nhw.
- Darparu cefnogaeth i fynd i'r afael â materion sgiliau a gweithlu.
- Y sector yn cydweithio i wella'r hyn sydd gennym ni ac i ddenu buddsoddiadau newydd.
- Dylanwadu ar Fframwaith Cynllunio'r Sir i ddiwallu anghenion y diwydiant a bod yn ddigon hyblyg i weithio gyda thueddiadau twristiaeth bresennol a newydd.
- Cynyddu'r defnydd o deithio gwyrddach ac isadeiledd cludiant.
- Sicrhau bod data yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch twristiaeth.
- Sicrhau bod y cyrchfan yn bodloni disgwyliadau preswylwyr ac ymwelwyr o ran glanweithdra, cyfleusterau ac amwynderau.

### 2.3.7. Digwyddiadau Diwylliannol Lleol

Rydym yn chwarae rôl allweddol mewn cefnogi digwyddiadau lleol sy'n elwa o ffyniant mewn cymunedau a chefnogi diwylliant ein sir. Buddsoddwyd £700,000 mewn cae chwarae newydd sbon yn Stadiwm CSM yn ystod 2023 sy'n golygu bod y lleoliad bellach yn gallu cynnig defnydd mwy cyson o'r cae dros fisoedd y gaeaf pan fydd llawer o gaeau yn rhy wlyb i chwarae arnyn nhw. Bydd natur wydn arwyneb newydd y cae'n ddelfrydol ar gyfer cynnal gwyliau chwaraeon a defnydd dyddiol drwy gydol y flwyddyn. Mae safon y cynnig wedi galluogi'r Stadiwm i groesawu Timau Merched Cymru a'r UDA i chwarae yno yn ystod Twrnament Rygbi Rhyngwladol Merched yr hydref diwethaf. Cafodd cefndir y

broses o wneud penderfyniadau ar y stadiwm ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Medi 2023. Ar gyfer digwyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol yn Stadiwm CSM ewch i www.dewchigonwy.org.uk.

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy wedi prynu casgliad arbennig o arteffactau'r Oes Efydd yn ystod 2023 diolch i gyllid gan Gronfa Grant Prynu V&A/Cyngor Celfyddydau Lloegr ac Ymddiriedolaeth Headley. Cafodd y casgliad ei ddarganfod gan Colin Rivett yn Ebrill 2017 pan oedd yn defnyddio peiriant canfod metel yn Abergele ac mae'n cynnwys tri ar ddeg o arteffactau sy'n dyddio o ddiwedd yr Oes Efydd (1200-700CC) ac mae'n darparu tystiolaeth newydd o feddiannaeth Diwedd yr Oes Efydd yn Sir Conwy. Mae cysylltiadau i'w hymchwilio gyda mwynglawdd copr yr Oes Efydd ar y Gogarth hefyd sydd tua 12 milltir o le y darganfuwyd y casgliad. Pan fyddant wedi'u cadw bydd yr arteffactau'n cael eu harddangos yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy ac mae digwyddiadau estyn allan wedi'u cynllunio yn enwedig gydag ysgolion a grwpiau o ardal Abergele. I ddarganfod mwy o wybodaeth ewch i www.diwylliantconwy.com.

Cynhaliodd Tramffordd y Gogarth ei phedwerydd penwythnos cymunedol blynyddol ddydd Sadwrn 30 Medi a dydd Sul 1 Hydref gan gynnig tocynnau am hanner y pris i drigolion lleol. Mae'r digwyddiad yn gyfle i groesawu pobl leol yn eu holau sydd heb ymweld ers tro ac i annog pobl sydd heb gael y cyfle i ymweld i alw am y tro cyntaf.

### 2.3.8. Adroddiad ar Strategaeth Ymwelwyr Cartrefi Modur

Cyflwynwyd yr Adroddiad ar Strategaeth Ymwelwyr Cartrefi Modur i Gabinet yn Awst 2023. Codwyd pryderon mewn rhai cymunedau bod ymwelwyr cartrefi modur yn aros dros nos mewn mannau anawdurdodedig ac felly comisiynwyd astudiaeth er mwyn datblygu strategaeth. Canfuwyd bylchau mewn darpariaeth yn Llandudno, tref Conwy ac yn ardaloedd Betws-y-coed a Chapel Curig. Dylid nodi mai polisi cynllunio presennol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw peidio â chaniatáu unrhyw safleoedd gwersylla neu garafanio newydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad fod yr incwm sy'n cael ei gynhyrchu o safleoedd ddim yn debygol o fod yn ddigonol i dalu am gostau gweithredu'r ad-daliad cyfalaf. Nid oedd tystiolaeth ysgubol a oedd yn cyfiawnhau'r angen i'r Awdurdod Lleol i ddarparu cyfleusterau, cytunwyd bod cyfleusterau ymwelwyr y sector breifat yn ddigonol.  Bydd canlyniadau rhaglen beilota Gwynedd yn cael eu hystyried.

### 2.3.9. Symiau Gohiriedig Adran 106

Fel arfer gyda datblygiadau tai mae'n ofynnol i ddarparu nifer benodol o dai fforddiadwy sy'n gymesur â'r nifer o dai y bydden nhw'n ei adeiladu.  Fodd bynnag gyda rhai datblygiadau nid yw hynny'n bosib bob tro ac efallai y byddai'n dderbyniol cymryd 'swm gohiriedig' oddi ar y safle trwy'r cytundeb 106.  Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle wedi derbyn adroddiad monitro Adran 106 yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023 a wnaeth argymhelliad y dylid cyhoeddi cofrestr gyhoeddus o falansau sydd ar gael ac wedi'u hymrwymo bob chwarter.  Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd £530,000, gwariwyd £190,000 ac ymrwymwyd £490,000.  Roedd balans diwedd y flwyddyn ar gael o £2,500,000.  Cadarnhawyd yn y cyfarfod y byddai'n rhaid dychwelyd unrhyw arian na wariwyd i'r datblygwyr. Yn ei gyfarfod hwyrach ymlaen yn y mis hwnnw, fe fabwysiadodd y Cyngor Brotocol Gwario Adran 106 wedi'i ddiweddaru.

### 2.3.10. Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau

Dyma ni'n atgoffa busnesau lleol i beidio â cholli allan ar ryddhad ardrethi ar gyfer 2024 i 2025 ym mis Mawrth. Gall busnesau wneud cais am ryddhad ardrethi o 40% dan gynllun newydd Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y gallai dros 860 eiddo yn Sir Conwy elwa o'r cynllun sy'n dod i gyfanswm o fwy na £3.7 miliwn.  Anfonwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun at fusnesau gyda'u biliau blynyddol.  I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.conwy.gov.uk/trethibusnes.

# 3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

Mesurau: Ambr: O fewn goddefgarwch

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 3.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Roedd y ganran o ddisgyblion wnaeth adael ym Mlwyddyn 11 yn 2023 (diwedd y flwyddyn academaidd) ddim mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) wedi codi ryw fymryn o 1.3% i 2%. Mae hyn gyfwerth â 21 o ddisgyblion (i fyny o 14) ac yn unol â ffigwr Cymru (hefyd yn 2%). Bydd data 2024 ar gael ym mis Tachwedd. Mae cynnydd wedi bod mewn deialog gadarnhaol rhwng teuluoedd ac ysgolion sydd wedi arwain at nifer o ddysgwyr yn dychwelyd i addysg. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr 16 i 18 oed sy'n cymryd y cam nesaf o addysg ffurfiol i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae'r holl ysgolion yng Nghonwy yn ymgysylltu â'r dysgwyr i ddeall eu hanghenion o ran lles. Mae hynny'n cynnwys nifer o ffurfiau gwahanol, yn arolygon i sesiynau ymgysylltu gyda dysgwyr a phobl ifanc. Yna bydd ysgolion yn defnyddio'r adborth wrth ddatblygu'r cwricwlwm a buddsoddi mewn ymyraethau wedi'u targedu. Rydym yn falch o adrodd fod yr holl leoliadau addysgol yn cymryd rhan mewn Arolygon Lles. O ran dadansoddi'r adborth rydym yn canolbwyntio ar ymagwedd yr ysgol gyfan i iechyd a lles emosiynol ac yn helpu ysgolion i reoli'r offeryn archwilio i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau statudol. Mae ysgolion wedi nodi themâu penodol ac ymyraethau wedi'u targedu y bydden nhw'n canolbwyntio arnynt a bydd y dangosfwrdd cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru ym mis Medi 2025 i ddangos tueddiadau ledled yr Awdurdodau Lleol – Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant. Mae'n parhau i fod yn ardal o flaenoriaeth i ni ac rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i ddarparu ystod eang o gefnogaeth i blant a phobl ifanc.

Mae'r ganran o ddisgyblion sydd wedi mynychu ysgolion uwchradd wedi gostwng ryw fymryn o 87.3% i 86.6%. Mae'n parhau i fod yn bryder yn genedlaethol ac rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion a'n partner gwella ysgolion, GwE i sicrhau fod gweithdrefnau presenoldeb cadarn yn cael eu gweithredu.

O ran y ganran o ddisgyblion sy'n cael mynediad i Addysg Cyfrwng Cymraeg mae gostyngiad yn y ganran o 23% i 22% yn 2023 i 2024. Fodd bynnag mae'n debyg bod hyn o fewn amrywiad ystadegol derbyniol gan fod yr holl fesurau eraill ynghylch darpariaeth

Cymraeg (wedi'i nodi yn y tabl isod) yn yr Arolwg Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgyblion wedi aros yr un fath.

Mae'r holl ysgolion erbyn hyn wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Yn y sector uwchradd, roedd 4 ysgol yn 'fabwysiadwyr cynnar' ac wedi cyflwyno'r cwricwlwm newydd i ddysgwyr Blwyddyn 7 ym Medi 2022. Erbyn Medi 2023, roedd y cwricwlwm newydd wedi cael ei weithredu ar gyfer dysgwyr presennol blynyddoedd 7 ac 8 ar draws yr holl ysgolion uwchradd. Cafodd y cwricwlwm newydd ei weithredu a'i gyflwyno gan bob ysgol gynradd ym mis Medi 2022. Mae cefnogaeth benodol yn parhau i fodoli ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddylunio, cynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm.

Gyda chefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol rydym wedi datblygu templed o grwpiau penodol o ddysgwyr; fodd bynnag mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni ffordd effeithiol o gasglu a chrynhoi gwybodaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws poblogaeth yr ysgol gyfan. Mae adroddiad adolygu ADY eleni yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol wedi'i ariannu gan Gonwy ac mae'r mesurau yn cynnwys presenoldeb, gwaharddiadau, llythrennedd, rhifedd ac asesiad athrawon o'r cynnydd tuag at ganlyniadau a chynnydd ar draws y cwricwlwm. Mae'r mesur hwn yn cael ei ddisodli gydag adroddiad blynyddol ar gynnydd grwpiau wedi'u targedu o ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gwybodaeth ar ôl-troed Carbon ysgolion Conwy i'w gael o fis Medi 2024 ymlaen. Fel arall disgwylir data'r Platfform Dysgu Cymru gyfan; effaith y Gwasanaeth Ieuenctid ar ffordd o fyw iach; a phresenoldeb mewn ysgol gynradd ym mis Medi.

## Mesurau Blynyddol

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Canran ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant - **cyfrif yn unig** | 1.3% | 2.0% |
| Cyfanswm ymweliadau i 'HwB' - y Platfform Dysgu Cymru Gyfan - **cyfrif yn unig** | 940,334 | Dim data<br>Disgwylir ym mis Medi |
| Canran y lleoliadau addysgol sy'n cymryd rhan mewn arolygon lles - **meincnodi yn lleol**<br>**Targed 100%** | 47%<br>Amherthnasol<br>Newydd | 100%<br>Gwyrdd<br>Gwell |

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Canran y bobl ifanc sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hannog i fyw bywyd mwy iach ar ôl cymryd rhan yn ein gweithgareddau ieuenctid - **cyfrif yn unig** | 89% | Dim data<br>Disgwylir ym mis Medi |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 95%** | 91.5%<br>Amherthnasol<br>Covid-19 | Dim data<br>Disgwylir ym mis Medi |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 94.5%** | 87.3%<br>Amherthnasol<br>Covid-19 | 86.6%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar gyfrifiad ysgol) - **cyfrif yn unig** | 23% | 22% |
| Canran y disgyblion meithrin a derbyn sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 29% | 29% |
| Canran y disgyblion oedran cynradd sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 25% | 25% |
| Canran y disgyblion oedran uwchradd sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 20% | 20% |
| Canran o athrawon mewn ysgolion yng Nghonwy sydd â gallu Cymraeg lefel uwch neu fwy (fel y casglwyd fel rhan o gasgliad gweithlu'r ysgol) - **cyfrif yn unig** | 50% | 50% |

## 3.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae yna wyth o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Pob un ar y trywydd iawn.

**Camau Gweithredu**

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Cefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm i Gymru. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ysgolion wedi gwneud cynnydd da gyda gweithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae'r holl ysgolion ar y trywydd iawn i wireddu'r camau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen 'Siwrnai i 2022'. Mae proffil Estyn yn awgrymu fod sgiliau wedi'u mewnosod yn dda ond mae datblygiad parhaus o sgiliau ledled pob un o'r 4 maes sgiliau wedi'u hadnabod yn yr adroddiadau. Mae gwaith wedi cael ei gynllunio neu ei fewnosod er mwyn gwneud y gwelliant hwn. |
| Gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r holl ddysgwyr ag ADY i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial yn llawn. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ar y trywydd iawn i fod wedi trosglwyddo'r rhan fwyaf o ddisgyblion oedran Cynradd i'r system newydd erbyn Rhagfyr 2024 (8 mis cyn y dyddiad cau) a'r gweddill o fewn y cyfnod trosglwyddo (31 Awst 2025).<br>Rydym yn parhau i weithio mewn ysgol unigol, clwstwr a'r lefel Fforwm Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol i gefnogi ysgolion a lleoliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau newydd. |
| Gweithredu'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel bod amgylcheddau dysgu yn addas i'r diben yn cynnwys canolbwyntio ar leihau carbon ac ynni adnewyddadwy. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r cynllun strategol amlinellol newydd wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ac wedi'i gyflwyno i Gabinet ym mis Gorffennaf 2024 am gymeradwyaeth ffurfiol. Bydd yn darparu arweiniad amlwg ar isadeiledd a datblygiad Conwy o ran asedau ar gyfer y 9 mlynedd nesaf. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth dda o gyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau priodol i gael mynediad at y byd gwaith. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae nifer o brosiectau wedi cael eu darparu o dan yr ambarél o Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n annog pobl ifanc i ailgysylltu gydag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy yn cynnwys:<br>• Arddangosfa Swyddi Conwy Chwefror 2024.<br>• Sesiynau gwybodaeth galw heibio ar ddiwrnodau canlyniadau TGAU a Lefel A mewn partneriaeth â Chymru'n Gweithio.<br>• Mae Prosiect Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cefnogaeth, mentora a hyfforddiant cyflogadwyedd dwys.<br>• Mae Prosiect Llwybrau i Gyflogaeth yn darparu ystod o gyrsiau hyfforddi llwybrau sy'n cynnwys cymwysterau achrededig penodol i sector, sgiliau cyflogadwyedd a lleoliadau gwaith mewn sectorau o flaenoriaeth a thwf yng Nghonwy.<br>• Mae Pecyn Gwaith Person Ifanc, "Grymuso Gogledd Cymru - Llwybrau i'ch Dyfodol" wedi'i ddatblygu gyda phartneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru. |
| Gweithio gydag ysgolion i ddarparu rhaglen sy'n gwella sgiliau digidol dysgwyr. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Strategaeth Ddigidol Conwy wedi cael ei diwygio o 2024 i 2025 gan gymryd i ystyriaeth sut mae ysgolion yn defnyddio dyfeisiau.<br>Mae'r dyraniad diweddaraf o grantiau HwB wedi cael eu derbyn.<br>Yn unol â'r Cynllun Strategol Addysg TG rydym yn aros i weld sut y bydd gwaith yn y dyfodol, ochr yn ochr â chonsortia rhanbarthol yn sicrhau bod ysgolion yn gwella sgiliau eu hathrawon a safonau cymhwysedd TG ymhlith staff a disgyblion. |
| Cefnogi plant a phobl ifanc i wella neu reoli eu Hiechyd Meddwl a'u Lles. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gwella a pharhau cyfranogiad gydag arolygon lles mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd. Maen nhw'n adnabod y camau gweithredu y dylai ysgolion eu cymryd sy'n berthnasol i'r dysgwyr ar y safle. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad at addysg a gweithgareddau yn y gymuned. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae 30 o ddarpariaethau ieuenctid mynediad agored cymunedol yn cael eu darparu bob wythnos ynghyd â 3 darpariaeth gymunedol wedi'u targedu a 3 darpariaeth llety a rennir.<br>Rydym yn darparu cefnogaeth ymgysylltu teuluoedd ysgolion bro yn seiliedig mewn 5 ysgol uwchradd i hyrwyddo teulu a chymuned, adeiladu perthnasau mwy cadarn rhwng ysgolion, y gymuned a gwasanaethau eraill perthnasol. Ar hyn o bryd mae 111 o achosion teulu ar agor a rhestr aros o 26 achos.<br>Mae 9 gweithiwr lles yn gweithio ledled ysgolion uwchradd ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i ymgysylltu â'r dysgwyr hynny sy'n fwy anodd eu cyrraedd ac sy'n debygol o fod yn unigolion sydd 'ddim mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant' (NEET). Ar hyn o bryd mae 240 o ddysgwyr yn cael eu cefnogi a 67 ar y rhestr aros. |
| Hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach gan annog plant a phobl ifanc i fod yn falch o'r Gymraeg, ei threftadaeth a diwylliant | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae pob clwstwr ysgol wedi derbyn hyfforddiant Cwricwlwm i Gymru i gefnogi addysgu Cymraeg, yn ogystal â darpariaeth bwrpasol arall. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid corfforaethol allweddol ar hyn o bryd sy'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Rydym yn gweithio gyda budd-ddeiliaid i gefnogi ysgolion trwy'r Siarter Iaith (cefnogi defnydd achlysurol o'r Gymraeg).<br>Rydym wedi llunio'r polisi Cymraeg mewn Addysg sy'n cefnogi'r angen am y Gymraeg yn y broses recriwtio.<br>Byddwn yn cynllunio'n briodol gyda'n Grant y Gymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr fod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'r angen i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn holl ysgolion Conwy. |

## 3.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 3.3.1. Arolwg Estyn o'r Awdurdod Lleol

Yn dilyn arolwg ym mis Tachwedd 2023 roeddem wedi gwirioni mewn derbyn adroddiad cadarnhaol gan Arolygwyr Estyn. Darganfyddiadau'r adroddiad oedd: ein bod yn cynnig cefnogaeth gadarn i wella safon addysgu ac arweinyddiaeth yn ein hysgolion a lleoliadau; ein bod yn gweithio'n dda gyda gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i ddarparu ystod briodol o gefnogaeth unigryw ac wedi'i dargedu i arweinwyr a staff; bod gan arweinwyr ysgol ddealltwriaeth dda o sut i gael mynediad at gefnogaeth arbenigol awdurdod lleol a chroesawu cyngor ac arweiniad amserol gan swyddogion; mae diwylliant effeithiol sydd wedi'i sefydlu'n dda o weithio ar draws gwasanaethau ac mae'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghanolfannau Teuluoedd Conwy yn dystiolaeth o hynny; a bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu ystod eang o weithgareddau sydd o fudd i bobl ifanc. Cododd dau argymhelliad o'r arolwg:

1. Gwella prosesau i wella presenoldeb yn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yr awdurdod.
2. Gwella dulliau sy'n mynd i'r afael â gwella cynllunio a sicrhau bod monitro a gwerthuso parhaus yn canolbwyntio ar effaith gwaith yr awdurdod lleol ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

Trafodwyd yr adroddiad mewn mwy o fanylder yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Mawrth 2024. Mae'n bosib darllen yr adroddiad terfynol ar wefan Estyn.

### 3.3.2. GwE - Gwelliannau Ysgolion

Yn Ionawr 2024 derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau yr adroddiad blynyddol gan GwE sef y consortia gwella ysgolion rhanbarthol. Nodwyd bod llawer o gynnydd wedi cael ei wneud yng Ngwasanaeth Addysg Conwy dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac yr oedd cynlluniau gwella ar waith ar gyfer yr ysgolion hynny a oedd angen cefnogaeth ychwanegol. Yn sicr mae gennym un o'r proffiliau arolwg gorau yng Nghymru. Trwy ein partneriaeth â GwE rydym yn adnabod ein hysgolion a'n lleoliadau yn dda ac yn darparu her gadarn a phriodol yn ogystal â chefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol. Nodwyd ymhellach fod pedair ysgol uwchradd wedi bod yn llwyddiannus mewn mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru newydd yn 2022 a bod gweddill yr ysgolion uwchradd wedi mabwysiadu'r cwricwlwm newydd ar gyfer Blynyddoedd 7 a 8 o Fedi 2023. Mae'r meysydd canlynol wedi cael eu hadnabod fel blaenoriaethau allweddol sydd angen mewnbwn pellach gan GwE:

- Cefnogaeth i fynd i'r afael ag effaith tlodi ac i leihau anghyfartaledd.
- Parhau i gefnogi ysgolion uwchradd yn defnyddio'r ymagwedd chwe cham i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd yn sylweddol.
- Cefnogi penaethiaid newydd, amhrofiadol a dros dro.

### 3.3.3. Uno Ysgolion

Rhwng Mehefin ac Awst 2023 ymgynghorodd Conwy ar y cynigion i uno Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin. Roedd y ddwy ysgol wedi eu ffederaleiddio ers 2017 o dan arweinyddiaeth y Pennaeth presennol. Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Medi 2023 lle derbyniwyd 26 o ymatebion yn cynnwys ymatebion gan ddisgyblion ac Estyn ac roedd pob un yn gadarnhaol ar wahân i wyth ohonyn nhw. Cymeradwywyd yr uno yn ffurfiol gan Gabinet yn Ionawr 2024 a gweithredwyd methodoleg cyllido ddiwygiedig ar gyfer pontio a chefnogi sefydlogrwydd yr uno.

### 3.3.4. Cludiant Ysgol

Ym mis Awst 2023 ysgrifennwyd at ysgolion a rhieni a chyflwynwyd datganiad i'r wasg i'w hatgoffa nhw am y gofyniad i ddangos eu tocyn ar bob siwrnai ar fws ysgol. Byddai'r 'polisi dim tocyn, dim teithio' yn cael ei orfodi o Fedi 2023. Mae hyn yn sicrhau fod gan bob plentyn cymwys wregys diogelwch a'u bod nhw'n gallu teithio'n ddiogel yn sedd eu hunain gan osgoi gorlwytho neu orlenwi pan yn bosib. Gall tîm Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Conwy ateb unrhyw gwestiynau am drefniadau cludiant ysgol trwy anfon e-bost at home2school@conwy.gov.uk neu ffonio 01492 57 7899.

Mae £6.8 miliwn yn cael ei wario ar gludiant ysgol ac yn un o'r costau cynyddol gyflymaf yn ein cyllideb flynyddol. Mae hanner o'r cyfanswm yn berthnasol i ddarpariaeth ddewisol ac o ganlyniad roedd yn hanfodol i lansio adolygiad o wasanaethau gydag ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio ym mis Chwefror 2024. Gofynnwyd i bobl am eu barn ar drefniadau dewisol (anstatudol), gan gynnwys: cludiant i ysgolion enwadol; cludiant ysgol i blant Teithwyr Sipsiwn Roma o fewn y pellter statudol; parhad cwrs yn dilyn newid cyfeiriad; preswyliad deuol; a chludiant ôl-16. Mae canlyniad yr ymgynghoriad a'r adolygiad yn cael ei gyflwyno i bwyllgorau nes ymlaen yn 2024.

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 fe roddodd Cabinet ystyriaeth i adroddiad gan yr Aelod Arweiniol dros Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a chymeradwyo'r dyfarniad o gytundebau yn ymwneud â chludiant ysgol ar unwaith.

### 3.3.5. Ceisiadau Benthyciadau Ysgolion

Ym mis Mehefin 2023, fe gymeradwyodd Cabinet fenthyciad o £67,344 i Ysgol Cynfran er mwyn helpu'r ysgol i fynd i'r afael â phwysau ariannol. Cafodd y cais ei ystyried yn y lle cyntaf gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Yn ychwanegol i hyn cafwyd cymeradwyaeth gan Gabinet ar gyfer adolygiad o'n proses benthyciadau ysgolion gyda mewnbwn gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion a Chraffu ym mis Rhagfyr 2023. Cymeradwywyd proses benthyciad pontio ysgolion diwygiedig ar gyfer 2024 i 2025 gan Gabinet ym mis Ionawr 2024 gan sefydlu Panel Ceisiadau Benthyciadau Ysgolion.

### 3.3.6. Arlwyo Ysgolion

Ym mis Tachwedd 2023 dyfarnwyd 'Tystysgrif Cydymffurfiaeth Cymeradwyaeth Aur' gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer ein bwydlen ysgol. Mae'n rhaid i'r bwyd a'r ddiod a ddarperir ym mhob ysgol a gynhelir fodloni Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r rheoliadau'n nodi safonau maeth a gwerthoedd egni a maetholion ar gyfer gofynion bwyd a diod yn ystod y diwrnod ysgol. Ewch i Bwyd mewn Ysgolion am fwy o wybodaeth.

Mae ein tîm arlwyo hefyd wedi derbyn y wobr adnabyddus 'Cydnabyddiaeth am Ragoriaeth' LACA (Cymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol) ym mis Chwefror 2024 sydd wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r wobr hon ar gyfer cyflwyno menter Bwyd mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru. Ers mis Medi 2023, a saith mis o flaen y dyddiad targed, mae'r holl blant yn ysgolion cynradd Sir Conwy wedi cael cynnig prydau ysgol am ddim o dan Fenter Prydau Ysgol Am Ddim Ysgolion Cynradd Llywodraeth Cymru gan weini oddeutu 1,500 o brydau yn ychwanegol bob dydd. Er mwyn cyflawni hyn bu'n rhaid uwchraddio holl geginau'r ysgol yn cynnwys gosod poptai cyfun mwy, oergelloedd a rhewgelloedd mwy, trosi o nwy i drydan, neu mewn rhai achosion bu'n rhaid gosod ceginau newydd sbon. Roedd cyfanswm y buddsoddiad mewn ceginau ysgol bron yn £2 filiwn. Yn ogystal, mae pob cegin ysgol bellach yn ddi-bapur.

### 3.3.7. Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref ystyriodd a chymeradwyodd Cabinet adroddiad gan yr Aelod Arweiniol dros Addysg ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Dyma fenter gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn isadeiledd ffisegol cyfleusterau addysg i leihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael. Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau'r adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Medi. Gofynnwyd i aelodau ystyried ein blaenoriaethau strategol yn erbyn matrics sgorio yn ogystal ag argaeledd cyllideb ar gyfer y rhaglen.

### 3.3.8. Cyllid Llywodraeth y DU

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflenwi nifer o fentrau allweddol i gefnogi preswylwyr ac i ddechrau Rhaglen Sgiliau a Chyflogadwyedd Conwy a ddaw o dan y Gronfa Adfywio Gymunedol (gweler y diweddariad wedi'i roi i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau yn Ebrill 2023), ac yna'r prosiectau wedi'u hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (wedi'u trafod yn Craffu ac yna eu cymeradwyo gan Gabinet yn Ebrill 2023) sy'n hyrwyddo rhifedd oedolion, gwella cyflogadwyedd pobl gyda nam ar y synhwyrau, cefnogi gwirfoddoli, lles corfforol a gwella cyfleusterau cymunedol. Yn ei gyfanrwydd mae 31 o brosiectau ar fin elwa yng Nghonwy ar ôl derbyn dyfarniad o dros £20m i'w fuddsoddi a'i wario erbyn Mawrth 2025.

### 3.3.9. Cymorth i Bobl Ifanc

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Conwy wedi ei gydnabod am ansawdd ei ddarpariaeth ym Medi 2023 wrth ennill Y Marc Ansawdd aur am Waith Ieuenctid yng Nghymru. Cyflwynwyd y dyfarniad cenedlaethol i'r tîm mewn digwyddiad arbennig yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Mae'r dyfarniad yn arddangos cryfder gweithio mewn partneriaeth, defnydd effeithiol o reoli gwybodaeth a defnydd creadigol o adnoddau i gwrdd ag anghenion bobl ifanc. Mae hefyd yn cydnabod ac yn dathlu cyflawniadau pobl ifanc yn ogystal â'r effaith y mae gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid wedi'i gael ar eu siwrnai bersonol.

Ym mis Medi fe gymeradwyodd Cabinet i ddymchwel Canolfan Ieuenctid a Chymunedol bresennol Cyffordd Llandudno ac adeiladu Canolfan Ieuenctid a Theuluoedd pwrpasol. Byddai cynnig i adennill y costau dymchwel ac adeiladu yn llawn yn cael ei gyflwyno i Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Llywodraeth Cymru. Roedd y cynnig yn cael ei gefnogi gan Graffu.

### 3.3.10. eDdeiseb Yn Erbyn Toriadau Ysgol

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024 fe dderbyniodd y Cyngor eDdeiseb mewn perthynas â rhoi diwedd ar doriadau i ysgolion Conwy ar gyfer blwyddyn ariannol 2024 i 2025. Cafwyd 1,400 o lofnodion ar y ddeiseb. Darparwyd ymateb ysgrifenedig i'r Prif Ddeisebydd.

### 3.3.11. Gwasanaeth Cerddoriaeth

Derbyniodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau adroddiad ar gynaliadwyedd Gwasanaeth Cerddoriaeth Conwy yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Mae'r diweddariad yn darparu ychydig o hanes y newidiadau i'r gyllideb ers 2019 ac wedi tynnu sylw at ddibyniaeth bresennol y gwasanaeth ar Gynllun Cerddoriaeth Genedlaethol a'r grant o £142,275 a oedd wedi galluogi'r cynnig i ddatblygu'n sylweddol. Byddai angen adolygiad o'r gwasanaeth pe bai'r grant presennol yn dod i ben ond yn y cyfamser y bwriad yw parhau i ddatblygu a thyfu'r gwasanaeth. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at waith rhagorol y gwasanaeth yn y blynyddoedd a fu a oedd yn cynnwys mwy o ddewisiadau amrywiol a gwerthfawr i bobl ifanc ymgysylltu â cherddoriaeth.

## 4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd

Mesurau: Ambr: O fewn goddefgarwch

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 4.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Rydym wedi gwneud cynnydd da gydag ailddefnyddio eiddo gwag. Mae cyfanswm o 78 eiddo gwag sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis wedi cael eu hailfeddiannu oherwydd ein hymyrraeth (hyd at 35). Cafodd 15 o unedau tai fforddiadwy eu creu drwy ailddefnyddio anheddau gwag ac eiddo di-breswyl sy'n golygu cynnydd o 10 ers y flwyddyn flaenorol. Bydd y mesur hwn yn cael ei adrodd arno yn flynyddol wrth symud ymlaen gan nodi'r amser y mae'n ei gymryd i ailfeddiannu'r tai.

Mae'r nifer o ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin cymdeithasol yn cyd-fynd â'r flwyddyn flaenorol sydd ar hyn o bryd yn 1,951.

Bu cynnydd cadarnhaol yn y ganran o achosion lle'r oedd digartrefedd yn cael ei atal o 68% yn 2022 i 77% yn ystod 2023 i 2024. Hefyd mae cynnydd wedi bod yn nifer y dyddiadau y mae aelwydydd digartref yn ei dreulio mewn llety arall (lawr i 616 o 703). Fodd bynnag mae'r nifer o ddyddiau sy'n cael eu treulio mewn llety gwely a brecwast yn parhau i fod yn eithaf statig ar 146 diwrnod (i fyny fymryn o 142).

Y nifer o unedau tai fforddiadwy newydd sydd wedi'u hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro ar gyfer tai canolradd a chymdeithasol yw 10 (i lawr o 35) a 37 (i lawr o 57) yn y drefn honno. Mae canran yr unedau fforddiadwy canolradd a chymdeithasol wedi'u sicrhau drwy bolisïau Cynllun Datblygu Lleol wedi gostwng ychydig o 43% i 38% a'r canran cyffredinol o unedau fforddiadwy wedi'u cyflenwi (o'r holl unedau tai) wedi gostwng o 38% i 33%. Er bod nifer uwch o gymeradwyaethau tai wedi derbyn caniatâd cynllunio nid oedden nhw i gyd wedi cael eu cwblhau o fewn y cyfnod hwn. Yn ogystal mae problemau wedi bod gyda chontractwyr yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr gan arwain at oedi gyda darparu cynlluniau. Mae oedi wedi bod hefyd gyda chaffael gan fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig heb ragweld y cyfanswm o waith sydd angen ei wneud i eiddo. Mae'r cyfnod adrodd nesaf yn debygol o weld cynnydd mewn cyflenwi.

Disgwylir am ddata ar gyfer y nifer o dai fforddiadwy canolradd a chymdeithasol sydd wedi cael eu sicrhau trwy bolisïau Cynllun Datblygu Lleol; ac ar gyfer y nifer o unedau tai

fforddiadwy newydd sydd wedi cael eu darparu yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd.

### Mesurau dwywaith y flwyddyn

| Teitl | Diwedd y flwyddyn 2022 i 2023 | Canol y flwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd y flwyddyn 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cyffredin cymdeithasol - **cyfrif yn unig** | 1,964 | 1,922 | 1,951 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast - **cyfrif yn unig** | 141.9 | 152.6 | 145.6 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a dreuliodd pob aelwyd ddigartref mewn mathau eraill o lety - **cyfrif yn unig** | 703.4 | 669.4 | 616.5 |
| Canran yr achosion lle mae digartrefedd wedi cael ei atal - **cyfrif yn unig** | 68% | 82.43 | 77% |

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 38% | 33% |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP)) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Cymdeithasol (yn cynnwys tai â chymorth ar gyfer pobl ddiamddiffyn) - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 75** | 57<br>Coch<br>Gwaeth | 37<br>Coch<br>Gwaeth |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP)) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Canolradd (rhent neu berchnogaeth gartref ar gost isel) - **wedi'i feincnodi'n lleol** **Targed 40** | 35 Coch Gwaeth | 10 Coch Gwaeth |
| Canran o unedau tai fforddiadwy newydd (ariannwyd drwy bolisïau Cynllun Datblygu Lleol) - Canolradd a Chymdeithasol - **cyfrif yn unig** | 43% | 38% |
| Nifer o eiddo gwag yn y sector breifat sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ac sydd wedi dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **wedi'i feincnodi'n lleol** **Targed 20** | 37 Gwyrdd Gwaeth | 78 Gwyrdd Gwell |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy a grëwyd gan ddod ag anheddau gwag ac eiddo gwag di-breswyl yn ôl i ddefnydd - **wedi'i feincnodi'n lleol** **Targed 10** | 10 Gwyrdd Gwell | 15 Gwyrdd Gwell |

## 4.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pump o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Pob un ar y trywydd iawn.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithio i gynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy a hygyrch | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | £20,122,835 o'r swm cyllido a hawliwyd wedi'i dderbyn gan y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.<br>£832,312.00 wedi'i sicrhau mewn cyllid grant Llywodraeth Cymru i gaffael 3 eiddo ar y farchnad agored ac i ailwampio 2 ased y cyngor yn stoc dai.<br>Tir wedi'i drosglwyddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Nwygyfylchi a Llandudno.<br>Rydym wedi sefydlu Gweithgor Tai Fforddiadwy. |
| Wrth weithio mewn partneriaeth byddwn yn adolygu ein gwasanaethau er mwyn cryfhau ein dull atal digartrefedd ymhellach wrth geisio cynllunio ar gyfer newid tuag at ailgartrefu cyflym i'r rhai sy'n profi digartrefedd fel ei fod yn brin, cryno a ddim yn ailadrodd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Sefydlwyd Bwrdd Tai a Digartrefedd yn Ebrill 2023 i gefnogi a monitro'r gwaith o weithredu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym. Cytunwyd ar y cynllun gweithredu a rhannwyd arweiniad ar brosiectau ar draws partneriaethau yn cynnwys llety amgen ar gyfer aelwydydd sengl a chreu cyflenwad o fewn stoc dai cymdeithasol presennol trwy gynlluniau rheoli asedau wedi'u halinio. Dechreuodd y Pennaeth Tai Strategol yn y rôl ym mis Chwefror 2024. |
| Gan weithio mewn partneriaeth i gefnogi sefydlogrwydd ac ansawdd y sector cartrefi gofal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gwneud cynnydd da trwy weithredu tâl atodol y farchnad yn 2023 a'r gwaith o osod ffioedd ar gyfer 2024 i 2025. Mae llawer o dai wedi derbyn ein ffioedd ac mae'r defnydd o ychwanegu at ffioedd wedi lleihau yn sylweddol.<br>Y pryder fwyaf ar hyn o bryd yw'r sector Henoed Bregus eu Meddwl (EMI) sydd heb y cymhwysedd i gwrdd â'r galw presennol. Rydym yn gweithio gyda sawl darparwr lleol i gynyddu'r cymhwysedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithio i annog a chefnogi twristiaeth barchus sy'n diogelu ein lleoliadau mwyaf poblogaidd a hyrwyddo holl ardaloedd yn ein sir hardd er mwyn ehangu'r effeithiau cadarnhaol i ymwelwyr â'r ardal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn gwneud camau cadarnhaol gyda'r canlynol yn barod trwy gael ein cymeradwyo neu ddod ymlaen i helpu gyda'r gwaith o lunio CDLIN i'w Archwilio ddiwedd 2024:<br>1. Polisi Hyrwyddo Llety Gwyliau ac Atyniadau.<br>2. Asesiad o'r Dirwedd a Goblygiadau Twristiaeth.<br>3. Asesiad Lletem Las a Goblygiadau Twristiaeth.<br>4. Asesiad Llain Arfordirol a Goblygiadau Twristiaeth.<br>5. Ymagwedd aneddiadau ar y cyd gydag Eryri o ran diogelu a hyrwyddo twristiaeth.<br>6. Diogelu a hyrwyddo Ardal Llety Gwyliau. |
| Gweithio gyda pherchnogion eiddo a landlordiaid preifat i gael eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Erbyn hyn mae gennym dîm Cartrefi Gwag Llawn Adnoddau sydd wedi gweithredu ymagweddau gwell. Mae 78 o anheddau gwag hirdymor wedi cael eu hailfeddiannu yn ystod y flwyddyn oherwydd camau gweithredu uniongyrchol gan y tîm. |

## 4.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Mae'r wybodaeth ac eitemau pwyllgor ychwanegol wedi cymryd lle yn y cyfnod diwethaf hwn wrth gefnogi'r flaenoriaeth.

### 4.3.1. Y Strategaeth Tai

Yn Ebrill 2023 cymeradwyodd Cabinet y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Conwy sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer ein gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae Rhaglen y Grant Cymorth Tai (GCT) yn bolisi a fframwaith ariannu ar gyfer darparu cymorth tai i bobl ddiamddiffyn mewn gwahanol fathau o lety a thenantiaethau.

I ddilyn hynny, cafwyd cymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2023 i ymgynghori ar y Strategaeth Tai Lleol drafft 2024 i 2029 sy'n cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu Asesiad o Farchnad Dai Leol Conwy.  Cymeradwywyd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Tai Lleol

gan Gabinet ym mis Ionawr 2024 a'i lansio trwy ddatganiad i'r wasg ym mis Medi 2023. Dyma ni hefyd yn gwahodd adborth gan y cyhoedd ar Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ym mis Ionawr 2024.

### 4.3.2. Ail Gartrefi

Rhwng Mehefin a Gorffennaf 2023 gofynnwyd i'r cyhoedd am eu safbwyntiau am bremiwm treth y cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Derbyniwyd 373 o ymatebion. Mae'r rhain ynghyd â dealltwriaeth o brofiadau awdurdodau eraill wedi ffurfio rhan o'r ystyriaeth ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac yna yng nghyfarfod Cabinet yn Hydref 2023 cyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor a gytunodd ar:

a) Godi Premiwm Treth y Cyngor o 100% ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gweigion hirdymor o fis Ebrill 2024; a

b) Bod lefel dangosol o bremiwm o 200% ar y ddau gategori o 1 Ebrill 2025 yn ogystal â chyflwyno'r premiwm cynyddol o 300% ar gyfer eiddo gwag hirdymor sydd wedi bod yn wag am 5 mlynedd neu fwy, yn amodol ar adolygiad yn ystod 2024 i 2025.

Bydd y newidiadau hyn yn helpu gyda'r gwaith o ailddefnyddio cartrefi gweigion hirdymor; cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy; gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol; a helpu i gwrdd ag anghenion tai lleol.

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2024 o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle fe gyflwynodd yr Arweinydd a'r Deiliad Portffolio dros Gyllid a'r Strategaeth Cyllid adroddiad oedd yn berthnasol i bwerau cynllunio newydd i helpu rheoli'r lefel o ail gartrefi a llety gwyliau.  Diben yr adroddiad oedd ystyried y pum dewis oedd ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol ynghylch y pwerau cynllunio newydd hyn ac os dylid eu datblygu nhw ymhellach. Yr argymhelliad i Gabinet oedd cynnwys ymagwedd polisi newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gyda chyfarwyddiadau Erthygl 4 o bosib yn y dyfodol. Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn cyfyngu'r gwaith y gellir ei gyflawni heb ganiatâd cynllunio gan y Cyngor.

### 4.3.3. Cael gwared ar dir a Thai Fforddiadwy

Fel rhan o'r ymagwedd i gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy cafodd tir ym Maes y Llan, Dwygyfylchi ei drosglwyddo i Gartrefi Conwy (gweler Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a Cabinet ym Mehefin 2023), ac yn Ffordd Cwm i bartner Landlord

Cymdeithasol Cofrestredig (gweler Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac yna Cabinet yn Chwefror 2024).

Hefyd, fel rhan o Raglen Tai a Digartrefedd un o'r amcanion yw canolbwyntio ar gaffael eiddo o bwysigrwydd strategol sydd yn ei dro yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghonwy. Yn Hydref 2023 penderfynodd Cabinet i roi awdurdod dirprwyedig i'r Deiliad Portffolio dros Gyllid mewn cydweithrediad â Swyddog Adran 151 i gymeradwyo pryniannau neu weithrediadau ariannol eraill sydd wedi'u nodi fel rhan o'r Bwrdd Rhaglen Tai a Digartrefedd hyd at £500,000.

### 4.3.4. Addasiadau

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 fe gytunodd Cabinet bod y Polisi Addasiadau Drafft yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r polisi yn nodi'r mecanweithiau amrywiol a'r ffrydiau cyllido i ddarparu addasiadau i gartrefi pobl gydag anabledd. Amlygwyd yr ymgynghoriad mewn datganiad i'r wasg ym mis Rhagfyr 2023 ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Ystyriwyd a chefnogwyd y drafft gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024 a'i fabwysiadu gan Gabinet yn Chwefror 2024.

### 4.3.5. Tai Amlfeddiannaeth

Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol mae nifer o newidiadau polisi a deddfwriaeth yn berthnasol â thai Amlfeddiannaeth a phwysau cynyddol ar gyflenwad tai fforddiadwy. Yn Ebrill 2023 derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle adroddiad yn cynnig ymagwedd polisi newydd ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth ac i ystyried y papur briffio ymchwil fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cefnogodd y Pwyllgor yr argymhellion a chymeradwywyd y rhain gan Gabinet ym mis Awst 2023.

# 5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 5.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae'r ganran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol wedi gwella'n sylweddol i fyny o 56% y llynedd i 70% yn 2023 i 2024. Byddwn yn parhau i hyrwyddo a monitro hynny gyda staff i wella ar y ffigwr hwn ymhellach yn 2024 i 2025. Mae'r ganran o staff sy'n dechrau yn eu swydd gyda dau eirda yn parhau i fod yn 100%.

Mae'r ganran o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant hanfodion seiber hefyd wedi cynyddu i 76% (i fyny o 65% yn 2022 i 2023). Mae'r statws yn parhau i fod yn oren ac felly'n brawf o bwysigrwydd yr hyfforddiant hwn i leihau risgiau sylweddol ynghylch diogelwch seiber a defnydd diogel ar-lein a'r angen i'w wella ymhellach.

Mae'r ganran o bobl sydd wedi osgoi canlyniadau niweidiol ar ôl cael codwm trwy wasanaethau Teleofal wedi cynyddu o 391 i 424. Mae dros 2000 o bobl yn defnyddio gwasanaethau Teleofal. Er mwyn cwrdd â heriau'r gyllideb mae'r Cyngor wedi cytuno yn ystod 2023 i 2024 i gynnydd bychan yng nghost y gwasanaeth o 18c y dydd gan roi cyfanswm cost wythnosol o £7.21. Cafodd hynny ei drafod yng nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mawrth 2024. Nid yw'n bosib ar y cyfnod hwn i adrodd ar y nifer o bobl sydd (trwy dderbyn gwasanaethau teleofal) wedi osgoi canlyniadau niweidiol o godymau heb oruchwyliaeth yn 2023 i 2024.

Rydym yn gweithio ar wasanaeth Ymateb Ffurfiol cydweithredol ar draws Gogledd Cymru er mwyn diogelu pobl rydym yn eu cefnogi yn well ac i ddarparu ymateb priodol pan fo angen. Mae cyfarfodydd amlasiantaeth wedi'u cynnal i dynnu sylw at y problemau a'r buddion o gael gwasanaeth ymateb i godymau. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi cael eu cynnal hefyd rhwng tîm rheoli Galw Gofal (gwasanaeth monitro galwadau dwyieithog rhanbarthol Gogledd Cymru) a thimau rheoli Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i drafod gofynion presennol, y pwysau sydd ar Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Ambiwlans ac ysbytai, a sut y bydd y tîm ymateb i godymau yn cael ei ariannu.

Mae 10 o adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn parhau i gael eu dynodi fel 'llefydd diogel'.

Yn y 12 mis diwethaf rydym wedi derbyn adborth gan breswylwyr mewn 11 lleoliad gofal gwahanol sydd wedi adlewyrchu ar eu profiadau yn y lleoliadau a'r ffordd y mae'r

gwasanaeth wedi'u cefnogi nhw i gyflawni eu nodau o ran lles. Roedd yr adborth ar y cyfan yn gadarnhaol a bob tro yn cael ei rannu gyda'r Darparwr Gofal. Mae'r holl adborth sydd wedi'i dderbyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ein proses monitro gofal cymdeithasol blynyddol lle mae wedi cael ei gasglu ar y cyd â gwybodaeth arall, ac os oes angen yn cael ei ddefnyddio i baratoi cynllun gwella manwl ar gyfer y Darparwr Gofal.

### Mesurau dwywaith y flwyddyn

| Teitl | Diwedd y flwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd y flwyddyn 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|
| Canran staff newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 100%** | 56%<br>Coch<br>Newydd | 56%<br>Oren<br>Yr un fath | 70%<br>Oren<br>Gwell |
| Canran o staff yn dechrau mewn swydd gyda 2 eirda - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 100%** | 100%<br>Gwyrdd<br>Da | 100%<br>Oren<br>Da | 100%<br>Gwyrdd<br>Da |

### Mesurau blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl sydd wedi osgoi canlyniadau niweidiol o gwympiadau heb oruchwyliaeth am fod ganddyn nhw fynediad i wasanaethau teleofal - **cyfrif yn unig** | 391 | 424 |
| Nifer o adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac wedi'u dynodi fel 'llefydd diogel' - **cyfrif yn unig** | 10 | 10 |
| Canran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant hanfodion Seiber (staff sydd â gofyniad arnyn nhw i'w gwblhau) - **Wedi'i feincnodi'n Lleol**<br>**Targed 100%** | 65%<br>Oren<br>Gwell | 76%<br>Oren<br>Gwell |

## 5.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae yna bedwar cam gweithredu wedi'u rhestru yn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae tri ar y trywydd iawn ac un o fewn goddefiant.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Parhau i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth fod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r holl wasanaethau. Er mwyn sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth a'r gallu i adnabod camdriniaeth, niwed neu esgeulustod gofynnwn i'r holl staff gwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol sy'n hyrwyddo diogelu fel cyfrifoldeb pawb. Bob blwyddyn rydym yn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gydag wythnos ddiogelu ac yn cefnogi'r ymgyrch Rhuban Gwyn i gael gwared ar drais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. |
| Gweithio i sicrhau diogelwch a darpariaeth ansawdd gofal ac i weithio gyda darparwyr i gael gwared ar yr angen am ofal heb ei reoleiddio. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi cyflawni cynnydd yn nifer y gwlâu preswyl sydd ar gael yng Nghonwy trwy drafod ffioedd rhesymol. Rydym wedi parhau i ddatblygu cartref preswyl pwrpasol sy'n cynnig llety i 3 o bobl ifanc ag anableddau (Sylva Gardens) ac rydym hefyd yn parhau i ailfodelu Glan yr Afon. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu lleoliad arbenigol llai fel llety i blant ag anghenion anhwylder emosiynol difrifol. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â BIPBC i ddatblygu Canolfan Asesu Bwthyn y Ddol ar gyfer gwasanaethau plant i'n galluogi ni i weithio gyda phlant i geisio osgoi'r derbyniad hirdymor i ofal. |
| Gweithio tuag at wneud holl adeiladau cyhoeddus yn 'Llefydd Diogel'. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi cwrdd â chydlynydd y Cynllun Cenedlaethol i symud ymlaen gyda gweithredu'r cynllun sydd bellach yn ddibynnol ar sicrhau cyllid ar gyfer y ffioedd cofrestru i ganiatáu mynediad at ddeunyddiau hyfforddiant a chofnodi safleoedd ar yr ap a'r map ar-lein Lleoedd Diogel rhyngweithiol cenedlaethol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau fod mesurau mewn lle i ddiogelu data personol a sensitif ar ein systemau. Codi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch a'i hyrwyddo ymysg defnyddwyr TG ledled y Cyngor. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gennym nifer dda o fesurau diogelwch yn eu lle. Rydym yn cyflawni prawf blynyddol o brosesau TG ac Adfer ar ôl Trychineb Digidol ac ymarferion profion hacio i adolygu mesurau gwarchod diogelwch. Mae gennym sicrwydd annibynnol trwy achrediadau ac ardystiadau blynyddol yn cynnwys gan y Rhwydwaith Gwasanaeth Cyhoeddus, Diwydiant Cardiau Talu a Hanfodion Seiber. Mae hyfforddiant diogelwch seiber a diogelu data gorfodol i holl ddefnyddwyr TG; a chyfnod cynefino mewn person i ddefnyddwyr newydd o TG sy'n ymdrin â'r holl bolisïau TG a materion ffurfweddu hanfodol. Cynhaliwyd hyfforddiant gweithdy mewn achos Seiber i uwch reolwyr hefyd. |

## 5.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 5.3.1. Ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Rydym yn codi ymwybyddiaeth yn aml am achosion penodol ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd. Ym mis Gorffennaf 2023 atgoffodd Tîm Treth y Cyngor Conwy breswylwyr i fod yn wyliadwrus ac yn ymwybodol o gynlluniau twyll dros y ffôn ac i gofio diogelu eu gwybodaeth bersonol. Yn Awst 2023 fe gyflwynodd Safonau Masnach ddatganiad i'r wasg yn hysbysu pobl o ddirwyon newydd o £10,000 sydd wedi eu cyflwyno i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon. Yn ystod y flwyddyn dyma ni hefyd yn gweithredu ar gwynion a gafodd eu derbyn a chyflawnwyd cyrchoedd ar eiddo yn targedu gwerthwyr tybaco ac e-sigaréts anghyfreithlon.

### 5.3.2. Diogelu

Mae diogelu yn flaenoriaeth bwysig i ni ac ym mis Tachwedd 2023 cyflwynodd Conwy ddatganiad i'r wasg yn tynnu sylw at ei gefnogaeth ar gyfer Wythnos Diogelu Cenedlaethol yn ystod Tachwedd 2023. Penderfynwyd ymestyn ein digwyddiadau am gyfnod o bythefnos yn llawn seminarau a hyfforddiant i ledaenu gwybodaeth rhwng staff a chynghorwyr ledled yr holl wasanaethau. Cymerodd ein Gwasanaeth Ieuenctid ran yn yr

wythnos hon gan gynnig y cyfle i greu darn o gelf a oedd yn canolbwyntio ar y thema ‘Beth sy’n gwneud i mi deimlo’n saff’. Cafodd y darn o gelf buddugol ei ail-greu mewn fformat digidol a’i arddangos mewn nifer o adeiladau’r cyngor sydd ar agor i’r cyhoedd.

Hefyd ym mis Tachwedd 2023 fe dderbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar gyfer 2022 i 2023. Mae’r adroddiad yn crynhoi’r gwaith wedi’i gwblhau ar y cyd â’r Cynllun Gwaith Diogelu ar gyfer 2022 i 2023 ac yn amlinellu gweithgareddau, cyflawniadau a blaenoriaethau diogelu.

### 5.3.3. Gwarchod Lleoedd Cyhoeddus

Yn Awst 2023 ac ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru cyhoeddwyd ein bod wedi ymestyn y cyfnod ar gyfer dau Orchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (PSPOs) am dair blynedd arall. Mae’r Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus ar gyfer The Dingle, Lawnt Fowlio Parc Eirias a’r ardal sy’n adnabyddus fel ‘The Donkey Path’ ym Mae Colwyn. Teimlwyd fod yna angen parhaus am y gorchmynion i atal trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn. Mae yna bedwar Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Presennol yn eu lle ledled y sir.

### 5.3.4. Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn

Mae safon yr amgylchedd lleol a’n mannau agored ynghyd â pherchnogaeth gyfrifol o gŵn yn bwysig iawn i breswylwyr ac ymwelwyr. Mae gosod gofynion cyfreithiol yn eu lle yn helpu i sicrhau perchnogaeth gyfrifol o gŵn sy’n cyfrannu at leihad mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol ac yn creu mannau awyr agored mwy diogel a chroesawgar i berchnogion cŵn a phobl sydd ddim yn berchen ar gŵn. Yn ystod 2023 i 2024 cafwyd y cyfle i adolygu’r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer Rheoli Cŵn, ac ym mis Awst 2023 fe awdurdododd Cabinet i swyddogion ymgynghori ar y Gorchymyn arfaethedig gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, y corff plismona lleol, a chynrychiolwyr cymunedol priodol.  Lansiwyd yr ymgynghoriad ym mis Medi 2023 a diwygiwyd y cynnig yn dilyn adborth. Mae’r cynigion hyn a oedd yn cynnwys y dewis o ymgynghori ymhellach ar Orchymyn Rheoli Cŵn ar Draeth Bae Colwyn wedi cael eu craffu gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ac yna eu cymeradwyo gan Gabinet ym mis Hydref 2023.

### 5.3.5. Perfformiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

Ym mis Hydref 2023 fe dderbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ddiweddariad ar Berfformiad ac Ystadegau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2022 i 2023. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gweithgaredd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd gan Fwrdd Mwy Diogel Gogledd Cymru Ranbarthol. Mae aelodau hefyd wedi nodi fod pobl ifanc sy'n ail-droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd ac felly byddai adolygiad ymhen 6 mis o'r data yn cael ei groesawu. Cyfeiriodd aelodau hefyd at bwysigrwydd y gweithgareddau dargyfeirio ieuenctid i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a diflastod.

# 6. Mae pobl yng Nghonwy yn iach

Mesurau: Gwyrdd: Cyflawnwyd y targed

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 6.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Mesurau

Rydym wedi gweld cynnydd o 32% mewn ymweliadau i'n canolfannau chwaraeon a hamdden (i fyny o 6,475 fesul 1,000 o'r boblogaeth yn ystod 2022 i 2023 i 8,525 yn ystod 2023 i 2024). Mae cynnydd hefyd o 27% wedi bod yn y nifer cyffredinol o aelodau Ffit (o 6.047 i 7,708 yn ystod 2023 i 2024); ond yn arbennig cynnydd o 50% yn y nifer sydd wedi ymaelodi ag aelodaeth iau Ffit Conwy (i fyny o 488 i 732).

Mae cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc newydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2023 i 2024 o 121 i 38. Y rheswm dros hynny oedd oherwydd problemau cymhwysedd yn y gwasanaeth yn gynharach yn y flwyddyn. Ers hynny mae'r gwasanaeth wedi recriwtio staff a dylai fod yna welliant yn nifer yr asesiadau wedi'u cwblhau wrth symud ymlaen.

Mae'r diffiniad o'n mesur ynghylch y nifer o wasanaethau a ddarperir ar gyfer oedolion mewn gofal preswyl wedi newid i adlewyrchu cyfanswm y nifer o wasanaethau a ddarparwyd gan y categori yn hytrach na dim ond gwasanaethau a barhawyd yn ystod y flwyddyn ac felly ni ellir eu cymharu gyda data'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2023 i 2024 roedd 983 o wasanaethau wedi eu darparu i oedolion mewn lleoliad cartref gofal i oedolion; 1,674 o'r rheiny mewn gofal cartref; a 219 mewn gofal seibiant.

O ran ail-alluogi darparwyd 311 pecynnau o gymorth a oedd yn helpu gyda'r angen am gefnogaeth yn ystod 2023 a 2024 (i fyny o 213 ers y flwyddyn flaenorol) a 75 o becynnau

wedi lleihau'r angen am gymorth (i fyny o 57). Roedd 164 wedi cynnal yr angen am yr un lefel o gefnogaeth (i fyny o 136) a 198 heb leihau, cynnal neu liniaru'r angen am gefnogaeth (i lawr ryw fymryn o 203).

Disgwylir data ar gyfer mesurau sy'n ymwneud â Gwasanaeth Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff ym mis Tachwedd 2024.

### Mesurau dwywaith y flwyddyn

| Teitl | Diwedd y flwyddyn 2022 i 2023 | Canol y flwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd y flwyddyn 2023 i 2024 |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc (11-16 oed) sydd ag Aelodaeth Iau Ffit Conwy - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 750** | 488<br>Gwyrdd<br>Gwell | 550<br>Oren<br>Gwell | 732<br>Oren<br>Gwell |
| Canran y cleientiaid sydd wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Atgyfeirio Cleientiaid i wneud Ymarfer Corff - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 60%** | 64%<br>Gwyrdd<br>Gwell | Dim data<br>Disgwylir ym mis Tachwedd | Dim data<br>Disgwylir ym mis Tachwedd |
| Canran y cleientiaid Gwasanaeth Atgyfeirio Cleientiaid i wneud Ymarfer Corff lle mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen - **wedi'i feincnodi'n lleol**.<br>**Targed 75%** | 68%<br>Gwyrdd<br>Gwell | Dim data<br>Disgwylir ym mis Tachwedd | Dim data<br>Disgwylir ym mis Tachwedd |
| Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc newydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 121 | 7 | 38 |
| Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 7,343.74** | 6,475<br>Gwyrdd<br>Gwell | 3,815<br>Gwyrdd<br>Gwell | 8,525<br>Gwyrdd<br>Gwell |

**Mesurau blynyddol**

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Nifer y bobl gydag Aelodaeth Ffit Conwy - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 6,600** | 6,047<br>Gwyrdd<br>Gwell | 7,708<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm o wasanaethau i oedolion wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn - Cartref Gofal i Oedolion - **cyfrif yn unig** | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 983 |
| Cyfanswm y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i oedolion yn ystod y flwyddyn - Gofal Cartref - **cyfrif yn unig** | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 1,674 |
| Y cyfanswm o wasanaethau i oedolion sy'n cael eu darparu yn ystod y flwyddyn - Gofal Seibiant - **cyfrif yn unig** | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 219 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth wedi lleihau - **cyfrif yn unig** | 57 | 75 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth yr un fath - **cyfrif yn unig** | 136 | 164 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth wedi'i liniaru - **cyfrif yn unig** | 213 | 311 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth heb leihau, heb ei gynnal na'i liniaru - **cyfrif yn unig** | 203 | 198 |

## 6.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae wyth cam gweithredu wedi'u rhestru yn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Pob un ar y trywydd iawn.

**Camau Gweithredu**

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Cydweithio trwy ein gwasanaethau cymunedol a chynhwysol er mwyn lleihau tlodi a chefnogi pobl mewn tlodi. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae strategaeth lleihau tlodi drafft wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cael ei ymgynghori arno ar hyn o bryd. Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gymryd rhan yn y cynllun Banc Data Cenedlaethol i helpu unigolion sydd methu â fforddio mynediad at ddata digidol. Mae Partneriaeth Bwyd Conwy wedi deillio o'r Bartneriaeth Bwyd Cynaliadwy. Rydym hefyd wedi darparu sesiwn Bwyta'n Ddoeth, Arbed yn Well. Mae'r galw ar fanciau bwyd yn parhau gydag atgyfeiriadau am gymorth yn cael ei wneud trwy amryw o dimau yn cynnwys budd-daliadau, hawliau lles, canolfannau i deuluoedd a thimau gwaith cymdeithasol. Mae gwaith cynllunio wedi dechrau ar gyflwyno newidiadau yn lleol ar gyfer y system credyd cynhwysol i'r rheiny sy'n derbyn credyd treth plant neu gredyd treth gwaith. |
| Sicrhau fod holl wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn canfod cefnogwr ar gyfer tlodi a chynhwysiant cymdeithasol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Grŵp Arweinwyr Trechi Tlodi wedi cael ei sefydlu. Mae'r grŵp yn adnabod y bylchau ac yn datblygu gweledigaeth a strategaeth i Gonwy. |

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Dod yn sefydliad sy'n Ymwybodol o Gyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth a chynnal ein statws deall dementia. | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae tudalen gwe newydd yn benodol ar awtistiaeth wedi cael ei ddatblygu gan ddarparu gwybodaeth am awtistiaeth a gwasanaethau a gweithgareddau lleol ar gyfer bobl ag awtistiaeth. Mae rhaglen newydd ar ddatblygu a hyfforddi staff ar awtistiaeth hefyd. Mae cyrsiau ar-lein (eDdysgu) wedi cael eu hychwanegu i'r platfform dysgu a'r wefan ac yn cael eu hyrwyddo ymysg staff a'r cyhoedd.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu niwrowahaniaeth ac i rannu gwybodaeth yn swyddfeydd Coed Pella ar gyfer staff a'r cyhoedd gyda 200 o bobl yn mynychu.<br><br>Mae'r bws profiad realiti awtistiaeth wedi ymweld â safleoedd ledled y sir gan gynnig hyfforddiant ar awtistiaeth a phrofiadau synhwyraidd. Mae dros 300 o bobl wedi cael mynediad i'r bws yn ystod 2023 i 2024.<br><br>Rydym wedi ariannu nifer o brosiectau awtistiaeth benodol gan gefnogi sefydliadau lleol yn y 3ydd sector. Mae'r rhain yn cynnwys cerddoriaeth, celf, nofio a digwyddiadau cymdeithasol i blant awtistig a'u teuluoedd.<br><br>Mae Canolfannau i Deuluoedd Conwy hefyd wedi gwneud cynnydd da ar fod yn fwy ymwybodol o awtistiaeth gyda hyfforddiant a digwyddiadau dysgu. Mae sesiynau chwarae synhwyraidd a chyfleoedd rhwydweithio i ofalwyr plant awtistig yn cael eu cynnal yn wythnosol.<br><br>Ym mis Rhagfyr 2023 daeth y Gymdeithas Alzheimer â'r cynllun cydnabod Cymunedau sy'n Deall Dementia i ben. Fodd bynnag yng Ngogledd Cymru mae 6 awdurdod lleol yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a sefydlu Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Gogledd Cymru. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi lles meddyliol gofalwyr di-dâl fel eu bod yn gallu cyflawni eu rôl bwysig a'u bod yn gallu cael cymorth pan fo argyfwng ac osgoi methiannau o ran gofal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae yna dros 1200 o unigolion yng Nghonwy sy'n ofalwyr di-dâl . Mae cytundebau yn eu lle gydag amryw o ddarparwyr i gefnogi gofalwyr di-dâl i gael mynediad at gefnogaeth a seibiant priodol. Mae cytundeb gydag un darparwr wedi galluogi dros 8000 awr o gefnogaeth ar gyfer seibiant byr yn ystod 2023 i 2024. Mae ein sefydliadau gofal trydydd sector hefyd yn darparu gwybodaeth reolaidd i ofalwyr godi ymwybyddiaeth o adnoddau lles yn eu cymunedau ac ar-lein. Mae gan wefan yr awdurdod adran i ofalwyr di-dâl gyda gwybodaeth a chyngor yn lleol ac amryw o lefydd eraill i gael mynediad at gefnogaeth.<br><br>Roedd 59 o becynnau Taliadau Uniongyrchol i ofalwyr di-dâl yn weithredol yn ystod 2023 i 2024. Cost pecyn gofalwr ar gyfartaledd yn 2023 i 2024 oedd £7,663 y flwyddyn. Mae hynny'n galluogi gofalwyr i gymryd seibiant. Yn ein hardal wledig mae grŵp bychan o ofalwyr di-dâl wedi cyfuno eu cyllid fel bod eu hanwyliaid sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi gartref gan wasanaeth gwarchod wrth iddyn nhw gwrdd i gyflawni gweithgareddau fel tacluso rhandiroedd, gwersi coginio ac mewn rhai achosion yn dysgu sgil newydd. Mae'r grŵp wedi cefnogi mynychwyr i wneud ffrindiau newydd a chreu rhwydwaith o gefnogaeth gan gyfoedion mewn cyfnod anodd o'u bywydau. |
| Datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau am dlodi a chynhwysiant cymdeithasol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae sesiwn datblygu aelodau wedi cael ei gynnal i godi ymwybyddiaeth o waith gwrth-dlodi sy'n cael ei wneud ledled yr Awdurdod Lleol. Cafodd ei arwain gan y Cefnogwr Gwrth-Dlodi.<br><br>Unwaith y cytunir ar y Strategaeth Tlodi bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ac yn cynnwys codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gofyn i'r holl wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd i adolygu eu cynnig ac i wirio yn erbyn adborth o gwynion neu ymgynghoriad ynglŷn â chynhwysiant (prisiau, mynediad a chynnig). | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r adroddiad blynyddol ar ganmoliaethau a chwynion wedi'i gyhoeddi. Mae themâu, meysydd i'w gwella a chynlluniau ar gyfer 2024 i 2025 wedi cael eu nodi. Dyma ni hefyd yn adolygu'r adborth ar brisio gwasanaethau wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol, er enghraifft cynnydd ym mhris teleofal a chodi ffi am wasanaethau dydd. |
| Datblygu strategaeth i gefnogi cynaliadwyedd plant ac oedolion yn y sector gofal. Bydd hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chyllido, parch cydradd gydag iechyd, a rhoi ymyraethau cynnar ar waith sy'n canolbwyntio ar atal ac ail-alluogi. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gennym strategaeth glir a rhaglen waith wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â chynaliadwyedd y sector Gofal Preswyl i Blant. Mae'n cynnwys Bwthyn y Ddol, ail-fodelu Glan yr Afon a lleoliadau preswyl pellach sydd ar y gweill.<br><br>Mae ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau anabledd yn symud ymlaen gyda'r datblygiadau ym Mron y Nant a Sylva Gardens. Mae gwaith partneriaeth yn broses parhaus er mwyn sefydlu ystod o lwybrau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at gyflogaeth daledig.<br><br>Mae nifer o weithdai wedi eu cynnal ar lefel lleol a rhanbarthol i ddatblygu strategaeth ar y cyd i bobl hŷn gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol.<br><br>Rydym yn parhau i ddefnyddio cyllid craidd ar y cyd â chyllid grant i gomisiynu cefnogaeth i ofalwyr ledled y sir yn cynnwys y gwasanaethau seibiant sydd mawr eu hangen. Mae gwaith wedi mynd rhagddo i adolygu'r holl wasanaethau i ofalwyr er mwyn gallu creu strategaeth glir wrth symud ymlaen. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithio i wneud ein timoedd hamdden a diwylliannol yn gynaliadwy yn ariannol a mynd i'r afael â rhwystrau i ymarfer corff a lles fel y gallwn gadw darpariaeth gymunedol fforddiadwy ar gyfer pawb a darparu cymunedau gydag ystod eang o ddewisiadau lles ac ymarfer corff. | Gwyrdd<br><br>Ar y trywydd iawn | Mae buddsoddiadau a gwelliannau i'r gwasanaeth hamdden yn parhau i wneud cynnydd o ran presenoldeb, gwerthiant o ran aelodaeth ac ymrwymiad ac adborth da. Mae incwm sy'n cael ei greu o aelodaeth Ffit Conwy wedi cyflawni dros £2 miliwn ar gyfer y tro cyntaf a'r nifer wedi mynychu wedi cyrraedd dros 1 miliwn ar gyfer y tro cyntaf ers 2012.<br><br>Mae'r ap hamdden wedi cael ei lawrlwytho dros 35,000 o weithiau. Mae dros 55% o archebion yn cael eu gwneud ar-lein. Mae ymrwymiad Cyfryngau Cymdeithasol wedi gwella'n sylweddol ers penodi swyddog marchnata i ddatblygu'r ardal hwn o gyfathrebu gyda'r cyhoedd.<br><br>Mae model cynhwysol newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn helpu i adnabod gweithgareddau cynhwysol llawn a rhannol i breswylwyr sydd ei angen. Mae'r model hwn yn cael ei weld fel model o arfer dda yn barod gan bartneriaid fel Actif Gogledd Cymru a Chwaraeon Cymru.<br><br>Rydym yn gweithio'n agos gyda Actif Gogledd Cymru i ddarparu mwy o gyfleoedd hamdden mewn cymunedau. |

## 6.3. Crynodeb o newyddion ac eitemau pwyllgor

Mae'r newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol wedi eu cynnal yn y cyfnod diwethaf hwn i gefnogi'r flaenoriaeth.

### 6.3.1. Adnabod Gweithwyr Cymdeithasol

Yn ystod wythnos yn dechrau 18 Mawrth 2024 mae cyfres o ddigwyddiadau ar-lein wedi cael eu trefnu gan Gobaith Gofalwn Cymru i ddod â phobl ynghyd i ddathlu gwaith cymdeithasol a chanolbwyntio ar gydweithio, lles a meysydd sydd angen gwella arferion. Yng Nghonwy trefnwyd dwy sesiwn arall i weithwyr cymdeithasol gael dathlu Diwrnod Gwaith Cymdeithasol Rhyngwladol. Mae Gwaith Cymdeithasol yn faes gwaith heriol a boddhaol iawn felly mae'n bwysig ein bod yn cymryd yr amser i gydnabod y cyfan y mae ein staff yn ei wneud i wella bywydau yn ein cymunedau, ac i fynegi ein diolch iddyn nhw am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

### 6.3.2. Chwaraeon a Hamdden

Dathlodd Canolfan Tennis Bae Colwyn ei ben-blwydd yn 20 oed ym mis Hydref 2023. Mae'r ganolfan ar agor i'r cyhoedd gyda sesiynau 'Talu a Chwarae' o dennis neu fadminton a gellir archebu sesiynau trwy gydol yr wythnos.

Cynhaliwyd trydydd ar ddeg Gwobrau Chwaraeon Conwy yn Venue Cymru ym mis Tachwedd 2023 i gydnabod ac anrhydeddu pobl dalentog yn y maes chwaraeon, clybiau chwaraeon, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr ledled y sir. Noddwyd y digwyddiad gan Chwaraeon Conwy gyda dros 320 o bobl yn mynychu o gefndiroedd chwaraeon amrywiol. Enillodd Ysgol y Gogarth y wobr Ysgol y Flwyddyn am ei amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon, iechyd a lles cynhwysol yn yr ysgol ac yn allgyrsiol.

Rydym yn falch o'r ffaith mai ni sy'n gyfrifol am bedwar allan o ddim ond pump o'r pyllau padlo am ddim sydd ar ôl yng Ngogledd Cymru ac rydym yn cydnabod eu pwysigrwydd. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg yn Ebrill 2023 i roi gwybod i'r cyhoedd na fyddai'r pyllau padlo yng Nghraig y Don, Llanfairfechan, Penmaenmawr a Llandrillo-yn-Rhos yn agor ym mis Mai er mwyn cyflawni gwaith gwrth-lithro hanfodol. Rhyddhawyd diweddariadau pellach trwy gydol yr amserlen cynnal a chadw i gynghori ar ein cynnydd gydag ymgysylltu contractwyr a chyflawni gwaith sy'n ddibynnol ar sawl diwrnod o dywydd sych. Yn dilyn buddsoddiad sylweddol a chwblhau'r gwaith hanfodol mae'r pyllau padlo wedi ail-agor yn nhymor haf 2024.

Ym mis Ionawr 2024 fe gymeradwyodd Cabinet estyniad o 21 mlynedd ar les Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Bae Cinmel a Thowyn a fydd yn eu galluogi nhw i sicrhau cyllid grant ar gyfer gwelliannau i Ganolfan Hamdden Y Morfa. Mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg gan ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr yn y gymuned ac yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth hamdden i'r gymuned leol.

Hefyd ym mis Mawrth 2024 cynhaliwyd sesiwn rhannu gwybodaeth yn Ysgol y Creuddyn am y datblygiad arfaethedig o gyfleuster chwaraeon artiffisial 3G newydd ar yr ardal laswelltog bresennol i wneud chwaraeon yn yr ysgol. Mae'r Tîm Dylunio, y cyngor a Chymdeithas Bêl-droed Cymru wrth law i ateb unrhyw gwestiynau.

### 6.3.3. Cronfa Ragoriaeth Conwy

Cymeradwyodd Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023 drefniadau ar gyfer Cronfa Ragoriaeth Conwy sy'n helpu unigolion talentog ar eu siwrnai i gyflawni rhagoriaeth yn ei

maes chwaraeon neu artistig o ddewis.  Mae'r gronfa yn cefnogi mynediad at hyfforddiant, addysg ac adnoddau gan arwain at gyfleoedd i gynrychioli sir, rhanbarth, gwlad neu'r DU. Cytunwyd bod y gronfa yn cael ei ddosrannu'n dair rhan gyfartal gyda chap uchafswm o £800 ar y cyfanswm sy'n cael ei ddyfarnu.  Y terfyn oedran ar gyfer ceisiadau yw 30.

### 6.3.4. Canolfannau Teuluoedd

Yn dilyn ystyriaeth ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Medi 2023 ar ddyfodol Canolfan i Deuluoedd Llanrwst mae Cabinet wedi penderfynu y dylem gaffael ac adnewyddu Church House ar Heol Watling a chyflwyno cais i Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwyso Llywodraeth Cymru (IRCF) Yn yr un cyfarfod Cabinet cytunwyd fod Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Cyffordd Llandudno yn cael ei dymchwel a'i ddisodli gan gyfleuster pwrpasol gyda chais pellach i'r IRCF tuag at gostau dymchwel ac adeiladu.

### 6.3.5. Cyfleusterau gofal

Ar ôl i Gabinet ddyfarnu'r tendr ym Mai 2023 rydym yn falch o gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2023 bod y gwaith wedi dechrau ar ganolfan asesu plant, Bwthyn y Ddol. Dyma brosiect partneriaeth rhwng Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd gyda'r nod o gynyddu cefnogaeth yng Ngogledd Cymru i blant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd.  Mae'r prosiect yn cael ei ariannu trwy Gronfa Gofal Tai a Chronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru.

Mae'r ganolfan seibiant anabledd newydd sbon ym Mron y Nant wedi agor ei ddrysau ym mis Medi 2023. Mae datblygiad pwrpasol Llandrillo-yn-Rhos yn gartref i wasanaethau seibiant ar gyfer pobl anabl yn darparu egwyl wedi'i gynllunio ar gyfer seibiant ac yn ganolfan gefnogi gynhwysol yn cynnig cyfleoedd o safon uchel yn ystod y dydd. Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd ein bod wedi dyfarnu'r cytundeb i adeiladu Cartref Plant newydd yng Nglan yr Afon ym Mochdre.

Ym mis Medi 2023, gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Blant, Teuluoedd a Diogelu am gymeradwyaeth i ddatblygu Sylva Gardens. Yn dilyn Craffu fe gymeradwyodd Cabinet i ddarparu gwasanaethau preswyl a reoleiddir yn Sylva Gardens gyda darpariaeth cefnogi'n fewnol fel y dewis a ffefrir.  Ym mis Mawrth 2024 cymeradwyodd Cabinet y strwythur staffio a chytunwyd i barhau gyda chyflogi Gweithwyr Gofal Plant Preswyl cyn gynted â phosib.

### 6.3.6 Rhianta Corfforaethol

Ym Mehefin 2023 cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Tîm Rhianta Corfforaethol 2020 i 2022 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cyflawniadau ledled wyth thema benodol. Er bod aelodau yn mynegi anfodlonrwydd gyda gohirio cyflwyno'r adroddiad i ddemocratiaeth (oherwydd effaith Covid-19), dyma nhw'n diolch i'r Tîm Rhieni Corfforaethol ac yn canmol y nifer o brosiectau sy'n edrych ar drawsnewid gofal preswyl a maethu yn fewnol.

### 6.3.7. Maethu a Mabwysiadu

Mae Gofalwyr Maeth yn darparu rôl sylweddol a phwysig i bobl ifanc. Yn Awst 2023 fe gytunodd Cabinet i gynyddu'r ffioedd a delir i ofalwyr maeth yr awdurdod lleol ynghyd â chynyddu'r lefelau o gefnogaeth i gynyddu cymhwysedd. Er gwaethaf ymgyrchoedd recriwtio rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr ymholiadau i ddod yn ofalwr maeth. Mae dros 7,000 o blant yn y system gofal yng Nghymru, ond dim ond 3,800 o deuluoedd maeth. Yn Hydref 2023 cyhoeddwyd fod gofalwyr maeth yng Nghonwy wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth mewn Maethu clodfawr sy'n cydnabod eu cyfraniadau eithriadol. Fel rhan o'i gymhelliant i recriwtio gofalwyr maeth newydd amlygwyd ymgyrch newydd ym mis Chwefror o'r enw 'Gall pawb gynnig rhywbeth'. Mae'r straeon positif gan ofalwyr maeth presennol er mwyn annog pobl i gymryd rhan. Am fwy o wybodaeth ar ofal maeth ymwelwch â'r wefan ganlynol maethucymru.conwy.gov.uk neu anfonwch e-bost at maethu@conwy.gov.uk.

Yn ystod 2023 i 2024 fe dderbyniodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yr adroddiadau blynyddol gan y Panel Mabwysiadu yn cynnwys 2021 i 2022 a 2022 i 2023. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi gwybodaeth i Aelodau am weithgareddau Cyd-banel Mabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych, ac effaith ariannol atgyfeiriadau i Gofrestr Mabwysiadu Cymru a lleoliadau mabwysiadu dilynol a wnaed y tu allan i Wasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (NWAS). Mynegodd aelodau bryder mewn perthynas â Chofrestr Fabwysiadu Llywodraeth Cymru a'r pwysau ar Awdurdodau Lleol yn ariannol ac ar eu hadnoddau wrth leoli plant. Mae cydnabyddiaeth yn cael ei roi i waith caled parhaus gan staff a gofalwyr sy'n darparu safonau rhagorol o ofal a chefnogaeth i blant a phobl ifanc.

### 6.3.8. Cefnogi cyn-filwyr

Yn y cyfarfod yn Ionawr 2024 fe bleidleisiodd y Cyngor yn unfrydol i barhau gyda'r trefniadau hirsefydlog dewisol i ddarparu cefnogaeth i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd ar incwm isel trwy ei Gynllun Lleihau Treth y Cyngor presennol.

### 6.3.9. Cronfa Gyfalaf Tai gyda Gofal a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF)

Yn Cabinet ym Medi 2023 ceisiodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig gymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Cyfalaf Strategol Rhanbarthol (CCS) 10 mlynedd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu ffrydiau ariannu Cronfa Tai â Gofal (HCF) a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF). Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yr adroddiad ym Medi 2023 gan gefnogi'r argymhellion. Bod Bwrdd Rhaglen Gyfalaf Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn cymryd cyfrifoldeb am gyflwyno a goruchwylio'r ceisiadau unigol ar gyfer y Prosiectau Cyfalaf ac yn cyflwyno trosolwg i'r Pwyllgor Craffu o'i waith fel rhan o'i weithdrefnau adrodd arferol.

### 6.3.10. Adroddiadau Rheoleiddio Allanol

Yn ei gyfarfod ym mis Mai croesawodd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr Adroddiad Arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar Lys Gogarth. Cafodd arolwg ei gynnal yng Nghartref Plant Llys Gogarth ym Mehefin 2022 i edrych ar les, gofal a chefnogaeth, amgylchedd, arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae casgliadau'r arolwg yn gadarnhaol iawn a heb nodi unrhyw feysydd sydd angen eu gwella neu feysydd sydd ddim yn cydymffurfio. Mae'r casgliadau yn tynnu sylw at staff brwdfrydig a phrofiadol sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ac i wneud cynnydd.

Ym mis Mehefin 2023, derbyniwyd hefyd lythyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn ei adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc yn amodol ar Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cyn-achos. Ar y cyfan mae'r llythyr yn cyfeirio'n gadarnhaol iawn tuag at ein gweithdrefnau ac yn cydnabod ein bod yn cymryd ymagwedd ragweithiol at ymgorffori arferion da ac arloesi a gydag ymagwedd systematig i sicrhau fod y trothwy ar gyfer Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael ei gwrdd.  Mae teuluoedd bob tro yn cael eu cefnogi i aros gyda'i gilydd a'u cefnogi gan amrywiaeth sylweddol o gefnogaeth bwrpasol ac yn gyffredinol mae safon yr asesiadau'n foddhaol.  Rydym wedi adnabod yr angen i ddatblygu a gwella ein prosesau a systemau sicrhau ansawdd

ymhellach ac i wneud ychydig o welliannau i'n system cadw cofnodion. Mae systemau monitro sy'n goruchwylio agweddau cyfreithiol angen eu datblygu hefyd. Mae'r adborth gan rieni wedi bod yn amrywiol gyda rhai ddim yn fodlon ond eraill yn canmol, yn enwedig o ran cyfathrebu gyda'r gweithiwr cymdeithasol. Cydnabod cynllunio gofal a chefnogaeth fel amserol ac mae tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth effeithiol yn y broses ddiogelu. Ar y cyfan roedd atal yn cael ei weld fel maes allweddol o gryfder. Cafodd y llythyr ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 a datblygwyd cynllun gweithredu.

### 6.3.11. System Wybodaeth Gofal Cymunedol

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gorfod ymateb i benderfyniad Llywodraeth Cymru i brofi'r farchnad am ateb arall ar gyfer system rheoli gwybodaeth i gofnodi'r holl wybodaeth ac ymyrraeth sy'n berthnasol i unigolion wrth dderbyn gofal a chefnogaeth. Ar ôl i Graffu ystyried yr opsiynau yn Ionawr 2024, fe gymeradwyodd Cabinet i weithio gyda'r tîm cenedlaethol i gaffael system newydd, derbyn pryderon am gostau, a disgwylir rhagor o fanylion i ddilyn.

### 6.3.12. Cynllun Datblygu Lleol

Yn parhau ei waith sylweddol ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd cyflwynwyd papur i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 a oedd yn asesu'r defnydd o dir o ran cwrdd ag anghenion gofal cymdeithasol. Darparodd ddiweddariad ar ymagwedd y polisi ar gyfer cartrefi gofal a gwnaethpwyd argymhellion ar gyfer meysydd polisi cysylltiedig fel ar gyfer datblygiadau newydd sy'n deall oedran ac anabledd. Nododd y Pwyllgor y prinder cartrefi gofal mewn rhai ardaloedd yn ogystal â chau rhai cartrefi yn nwyrain y sir. Derbyniodd Cabinet argymhellion y papur yn ei gyfarfod yn Awst 2023.

### 6.3.13. Grant Plant a Chymunedau

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn tynnu sylw at y gwaith da a'r gwasanaethau rhagorol a wnaed i gefnogi teuluoedd yn ystod 2022 i 2023 gan ddefnyddio Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru. Mae'r grant wedi cefnogi Gofal Plant a Chwarae; Cymunedau am Waith a Mwy; Teuluoedd yn Gyntaf; Dechrau'n Deg (a'i ehangiad); y Gronfa Datblygiad Plentyn; Cymorth Cynnar; Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol i Bobl Ifanc mewn Perygl o Droseddu; a'r Gronfa Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r

adroddiad hefyd yn rhoi amlinelliad o'r hyn sydd wedi'i gynllunio i'w ddarparu yn ystod 2023 i 2024 ond nodwyd fod grantiau ar gyfer Cymorth Cynnar a'r Gronfa Datblygiad Plentyn wedi dod i ben. Pan yn bosib rydym wedi ymgorffori elfennau o'r rhaglenni hyn yn y prif Grant Plant a Chymunedau tra bod eraill wedi cael eu cwtogi neu wedi dod i ben yn gyfan gwbl. Mae'r adroddiad hefyd wedi tynnu sylw at y perygl arwyddocaol o ran ymestyn darpariaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg fesul cam. Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £638,188 ar gyfer cyflawni cam 2A (Llandudno) a 2B (De Conwy) o'r ehangiad ac rydym wedi gwneud popeth yn ein gallu i recriwtio staff, darparwyr gofal plant ac i hysbysebu'r gwasanaeth i deuluoedd yn y cymunedau hyn. Yn benodol nid oes digon o ddarparwyr gofal plant yn y cymunedau hyn i fodloni'r angen. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r materion hyn wrth i'r ehangiad barhau.

### 6.3.14. Rhaglen Ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Darparwyd diweddariad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn Ionawr 2024 ynglŷn â'r cynnydd gyda gweithredu Rhaglen Ddatblygu'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Mae'r rhaglen yn edrych ar ddarparu amryw o brosiectau a thasgau newid gwasanaeth sy'n cynnwys cefnogaeth fusnes i feysydd gwasanaeth rheng flaen ac yn seiliedig ar gymysgedd o syniadau staff gan ymateb i bwysau ar wasanaeth, heriau i'r gyllideb, newidiadau deddfwriaethol ac agendau cenedlaethol. Mae datblygiadau yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol; integreiddio gwasanaeth; comisiynu gofal cartref; cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal; a rheoliadau Unigolyn Cyfrifol.

# 7. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 7.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae'r nifer o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg sy'n cael eu cyflawni wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2023 i 2024 hyd at 1,167 (i fyny o 612). Cyflawnwyd cyfoeth o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydol y flwyddyn ar gyfer staff trwy gyfleoedd am sgyrsiau anffurfiol yn y Gymraeg ac ar gyfer amser stori ddwyieithog yn wythnosol, digwyddiadau unigol i hyrwyddo gwasanaethau i'r gymuned (er enghraifft gyda Merched y Wawr), cymdeithasau hanesyddol ac ymweliadau ysgol a gweithgareddau mewn cydweithrediad â rhaglen Creu Conwy.

Er mai nod Conwy yw llenwi'r holl swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol' gyda phobl sy'n gallu siarad lefelau amrywiol o'r Gymraeg (ac wedi llwyddo i wneud hynny am nifer o flynyddoedd) cyflawnwyd 93% o'r nod ar gyfer 2023 i 2024. Allan o'r 139 o swyddi Cymraeg yn Hanfodol a benodwyd ar eu cyfer cafodd 129 o siaradwyr Cymraeg (lefel 4 neu uwch) eu penodi. Mae camau ychwanegol yn eu lle i gefnogi staff ar ôl dynodi a recriwtio ac mae cefnogaeth i ddysgu yn cael ei gynnig. Rydym bob tro yn hysbysebu ddwywaith cyn penodi siaradwr di-Gymraeg a dydi'r mesur perfformiad hwn ddim yn cynnwys siaradwyr Cymraeg wedi'u penodi i swyddi Cymraeg yn ddymunol.

Mae gallu iaith Gymraeg yn hunan asesiad unigol ac yn aml rydym yn gweld pobl yn rhoi llai o sgôr na'u gallu gwirioneddol oherwydd eu hyder. Mae'r ganran o staff wnaeth adrodd eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl wedi aros yr un fath yn 26% lle mae'r nifer sy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg wedi cynyddu o un pwynt canran i 51%. Mae'r nifer o staff sy'n cymryd rhan yn y cynnig Cymraeg yn y Gweithle wedi cynyddu o 75% i 78%. Rydym yn annog pawb i ddefnyddio beth bynnag Gymraeg sydd ganddyn nhw ac i beidio â phoeni am wneud camgymeriadau.

Yn ddiweddar adroddwyd ar gynnydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg trwy Adroddiad Adolygu Blynyddol 2023 i 2024 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau a Chabinet. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ar y cynnydd a wneir yn erbyn y

targedau ar draws y saith canlyniad a nodir fod cynnydd wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn gweithredu ein swyddogaethau addysg i wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf. Nesaf byddwn yn edrych ar ddatblygu darpariaeth Grŵp Chwarae Cymraeg mewn nifer o leoliadau ac yn cefnogi ysgolion categori T2 ymhellach i wella eu darpariaeth Cymraeg. Byddwn hefyd yn edrych ar gefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gyda gwella eu hethos a diwylliant Cymraeg ac yn gwella mynediad at gefnogaeth i ddysgu Cymraeg ar gyfer staff ledled y sector.

### Mesurau dwywaith y flwyddyn

| **Teitl** | **Diwedd blwyddyn 2022 i 2023** | **Canol y flwyddyn 2023 i 2024** | **Diwedd blwyddyn 2022 i 2023** |
|---|---|---|---|
| Nifer y gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg - **cyfrif yn unig** | 612 | 601 | 1,167 |

### Mesurau Blynyddol

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Canran y swyddi a ddynodwyd fel 'Cymraeg yn Hanfodol' a gafodd eu llenwi gan siaradwr Cymraeg - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 100%** | 100%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 93%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y staff sy'n gallu siarad Cymraeg rhugl (ac eithrio staff ysgol) (lefelau 4 a 5) - **cyfrif yn unig** | 26% | 26% |
| Canran y staff sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg (1, 2, 3) – **cyfrif yn unig** | 50% | 51% |
| Nifer y staff sy'n derbyn y cynnig o hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle - **cyfrif yn unig** | 75% | 78% |

## 7.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae dau gam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r ddau ar y trywydd iawn.

**Camau Gweithredu**

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gwella cynllunio a datblygu darpariaeth addysg Gymraeg yn y sir trwy roi'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac yn ein llythyr cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru nododd y Gweinidog ymarferion a gwybodaeth yr oedd angen eu cwblhau o fewn ail flwyddyn Cynllun Gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Y prif feysydd o ffocws yw ymarferion mapio ac ymchwilio i'w hadolygu yn ystod yr ail flwyddyn; parhau i adnabod a mynd i'r afael â diffyg a meysydd dan bwysau ym mhob sector; parhau i ddadansoddi darganfyddiadau Cyfrifiad blynyddol gweithlu ysgol er mwyn adnabod yr anghenion hyfforddi ymhob sector.<br>Mae'r polisi Cymraeg mewn Addysg ar hyn o bryd gydag ysgolion i'w cefnogi a'u mabwysiadu'n llwyr a disgwylir i hynny fod mewn lle erbyn mis Medi 2024. |
| Parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg ac i hybu'r Gymraeg i gefnogi Cymraeg 2050 sef targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae nifer o gyrsiau dwys ar gael i staff yn ystod oriau gwaith ers Mehefin 2019, un ai ar gyfer dysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau iaith. Ar hyn o bryd mae 8 o ddosbarthiadau ar lefelau amrywiol yn cael eu cynnal bob wythnos.<br>Trwy'r Cynllun Sgwrsio (lle mae dysgwr ar lefel canolradd yn cael ei roi mewn pâr a siaradwr Cymraeg rhugl i gael sgwrsio'n anffurfiol) mae gennym dros 30 pâr o bobl sy'n cwrdd yn rheolaidd. |

## 7.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 7.3.1. Cynllun Cymraeg Gwaith

Rydym yn falch o fod yn awdurdod dwyieithog ac mae'r gwaith a wnawn yn cyfrannu at helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei darged o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg. Yn ddiweddar dyma'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau yn ystyried yr Adroddiad Gwerthuso Cynllun Cymraeg Gwaith ar gyfer 2023 i 2024. Mae Cymraeg

Gwaith yn rhaglen wedi'i dylunio i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac wedi cael ei ddatblygu gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg ac wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn dangos llwyddiant y cynllun ymysg ein gweithle yn ystod 2023 i 2024 gan gynnwys cyflwyno cwrs Hybu Hyder, mynediad at sawl cwrs Blasu, cyflwyno cwrs cyfun 50/50 ac ail-lansio'r Cynllun Sgwrsio. Roedd y pwyllgor yn cydnabod llwyddiant y cynllun ynghyd â chanlyniadau gwych y staff sydd wedi sefyll yr arholiadau.

### 7.3.2. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023 i 2024 i Gabinet yn ddiweddar. Mae llawer o strategaethau eraill y cyngor wedi cyfrannu at y safon gan gynnwys Mwy Na Geiriau, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn falch o adrodd ein bod yn cydymffurfio â'r holl 167 o Safonau'r Gymraeg ac wedi cyflwyno sawl menter i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu Fforwm Strategol Iaith Gymraeg a Newyddlen Gymraeg; rhannu ein "Gair yr Wythnos"; penodi Cefnogwr Siaradwyr Cymraeg Newydd; a datblygu tudalen lanio addysg newydd o'r enw 'Yr Iaith Gymraeg: Iaith Byw a Ffyniannus'.

### 7.3.3. Mwy Na Geiriau

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023 fe dderbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun Mwy Na Geiriau pum mlynedd ar gyfer 2022 i 2027 sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru i gryfhau darpariaeth iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Sefydlwyd y Grŵp Llywio Mwy Na Geiriau yn Rhagfyr 2022 ac mae'n cymryd rôl arweiniol i sicrhau fod yr holl wasanaethau Gofal Cymdeithasol (yn cynnwys gwasanaethau wedi'u comisiynu) yn rhan o'r gwaith o weithredu'r cynllun pum mlynedd gan weithio'n agos â'r Swyddog Iaith Gymraeg i gefnogi gweithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle.

# 8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 8.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Yn ystod 2023 i 2024 rydym wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd: Cynllun Gweithredu Conwy Cynhwysol (2024 i 2028). Mae camau sy'n berthnasol i Gymru Wrth-Hiliol a'r Cynllun LHDTC+ wedi'u cynnwys yn y cynllun ac yn cael eu hadrodd arnynt ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf o weithrediad (blwyddyn ariannol 2024 i 2025).

Rydym yn monitro argaeledd yr holl dudalennau gwe a gwybodaeth ar-lein yn barhaus gan ddefnyddio cyfuniad o systemau yn seiliedig ar unigolion a systemau adolygu technegol gan wneud gwelliannau pan fo hynny'n bosib.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth rydym yn gweithio ar gyfres o fideos i egluro rôl y cynghorydd.

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
| --- | --- | --- |
| Canran y camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |
| Canran y camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |
| Canran camau gweithredu Conwy Gynhwysol sy'n cael eu cyflawni ac y dylid eu cyflawni yn flynyddol – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |

## 8.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pedwar cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Y cyfan ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Parhau i wneud ein cyfathrebiadau yn hygyrch. Byddwn yn defnyddio Plain English a Chymraeg Clir ac yn darparu cymorth cyfieithu a dehongli er mwyn sicrhau fod pobl yn deall yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud a sut allent gyfrannu. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Hyfforddiant Hygyrchedd Digidol wedi cael ei ddatblygu a bellach ar gael fel rhan o Hyfforddiant Corfforaethol. Er hynny mae cymhwysedd o fewn y tîm ar gyfer darparu angen yn cael ei adolygu.<br>Mae prosiectau wedi cael eu cyflawni i ailstrwythuro ac ail-ysgrifennu cynnwys tudalen we newydd sy'n haws i'w ddeall, a'i ddefnyddio ar ddyfeisiadau symudol ac yn cydymffurfio â rheoliadau Hygyrchedd Digidol.<br>Rydym hefyd yn edrych ar feddalwedd Deallusrwydd Artiffisial (AI) sydd am ddim a fydd yn cefnogi Plain English, cyfieithu Cymraeg a Hawdd ei Ddarllen. Crëwyd y meddalwedd gan Gyngor Swindon sy'n ei gynnig i bawb fel adnodd agored. |
| Parhau i adeiladu ein perthynas a mentrau cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi gallu sicrhau cyllid ac mae ymgynghorwyr Cymorth Cynllunio Cymru (PAW) wedi llunio'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy a Llanrwst. Mae pob un o'r pedwar wedi sefydlu tîm y mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gweithio gyda nhw i gynhyrchu rhestr o flaenoriaethau a nodwyd gan y gymuned.<br>Mae Cyngor Tref Bae Colwyn wedi arwain ar y Cynllun Cynefin ar gyfer eu hardal ac wedi'u cefnogi nhw i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'r gwaith o orffen y cynllun.<br>Mae Rheolwr Datblygu ac Ymgysylltu'r Gymuned wedi cael ei benodi yn ystod 2023 i 2024. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gan ddatblygu cynlluniau i gefnogi ein hymrwymiad i Amrywiaeth mewn Democratiaeth, strategaeth annog y cyhoedd a hygyrchedd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd drafft wedi cael ei baratoi hefyd.<br>Mae’r holl raglenni ac adroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar amser. Mae cyfarfodydd ffurfiol ‘agored’ yn cael eu gwe-ddarlledu a’u recordio i’r cyhoedd eu gwylio. Mae Hysbysiadau am Benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi o fewn 7 diwrnod gwaith. Roedd cofnodion yn cael eu cyhoeddi o fewn 15 diwrnod gwaith. Mae’r protocol gwe-ddarlledu wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor hefyd. |
| Sicrhau ein bod yn croesawu a chefnogi amrywiaeth drwy weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill megis cynlluniau gweithredu Cymru Wrth-Hiliol ac LHDTC+ Llywodraeth Cymru. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae’r Cynllun Conwy Gynhwysol newydd wedi cael ei ysgrifennu a’i gyhoeddi erbyn y dyddiad deddfwriaethol gorfodol o 1 Ebrill, 2024 ynghyd â chynllun gweithredu yn cynnwys Cymru Wrth-Hiliol a LHDTC+. |

## 8.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r flaenoriaeth hon.

### 8.3.1. Siarter Gwrth-Hiliol

Yn dilyn Rhybudd o Gynnig a’i gyfarfod ym mis Hydref 2023 penderfynodd y Cyngor i fabwysiadu Siarter Gwrth-Hiliol UNSAIN gan integreiddio ei addewidion i’w Gynllun Conwy Gynhwysol. Rydym yn cael ein llongyfarch gan drefnydd rhanbarthol UNSAIN ar fod yr awdurdod cyntaf yng Ngogledd Cymru i gofrestru ar gyfer y siarter gan gadarnhau ei ymrwymiad i amrywiaeth a chyfiawnder cymdeithasol.

### 8.3.2. Debate Not Hate

Cyflwynwyd rhybudd o gynnig pellach yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023 lle’r oedd y Cyngor wedi cofrestru ar gyfer ymgyrch Debate Not Hate Cymdeithas y Llywodraeth Leol.

Amlygwyd y pwysigrwydd o fod yn barchus tuag at eraill bob amser a pheidio â goddef unrhyw gamdriniaeth.

### 8.3.3. Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2022 i 2023 a Monitro Cyflogaeth

Lluniwyd ein hadroddiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol blynyddol i'w ystyried gan Graffu a Chabinet ym mis Mawrth ynghyd â'r Adroddiad Monitro Cyflogaeth flynyddol. Roedd yr adroddiad blynyddol yn amlygu fod 15 allan o'r 24 o gamau gweithredu a nodwyd wedi cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod a bod saith arall wedi cael eu dechrau. Roedd dau gam gweithredu arall heb eu dechrau oherwydd pwysau o ran cymhwysedd. Mae adroddiadau cydraddoldeb strategol blynyddol i'w cael ar ein gwefan yma.

### 8.3.4. Conwy Cynhwysol

Ar ôl cymeradwyaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a Cabinet ym mis Rhagfyr 2023 lansiwyd ymgynghoriad ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Ar ôl i Graffu ystyried y cynllun drafft ym mis Mawrth fe gymeradwyodd Cabinet y cynllun gyda'r teitl newydd Cynllun Conwy Gynhwysol ar gyfer 2024 i 2028. Trwy'r cynllun hwn ein nod yw gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb unigol ymhlith staff waeth beth yw eu cefndir neu brofiadau. Mae gennym oll gyfrifoldeb ar y cyd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a chynllun gweithredu LHDTC+ .

### 8.3.5. Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023 fe gytunodd y Cyngor i adolygu dosbarthiadau a lleoliadau etholiadol ac i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i wneud y newidiadau hanfodol i gynnwys ffiniau etholiadol newydd. Yn dilyn canlyniadau ar ambell i orsaf lle mae eu cwestiynau wedi bod gan aelodau lleol ynglŷn â pha mor addas ydyn nhw mae rhestr o ranbarthau a llefydd wedi cael eu cymeradwyo yn ystod cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023.

### 8.3.6. Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Gofynnwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023 i ystyried argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ddechrau ymgynghoriad ar y cynnig i newid system

bleidleisio'r Cyngor yn Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Dyma system etholiadol sy'n cynrychioli'n rhannol lle mae pleidlais unigolyn yn gallu cael ei drosglwyddo i ail ymgeisydd neu ymgeisydd cystadleuol pellach yn unol â dewis y pleidleisiwr. Mae gofyn i ni o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud penderfyniad ar hyn o leiaf 3 blynedd cyn etholiad lleol. Ni chafodd yr argymhelliad ei gefnogi gan y Cyngor ar ôl ystyried y costau ynghlwm â chyflawni ymgynghoriad a'r diwygiadau angenrheidiol i'r ffiniau etholedig a'r posibilrwydd i'r newid leihau'r nifer o Aelodau Etholedig Annibynnol.

### 8.3.7. Ymgysylltiad Democrataidd

Yn ei gyfarfod ym mis [Mai 2023] fe dderbyniodd a chymeradwyodd y Cyngor argymhellion gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Polisi Cyfarfod mewn Aml-Leoliad, Protocol Gwe-ddarlledu ac Arweiniad Arfer Orau. Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn diwygiadau i'w Gynllun Deisebau sy'n ofyniad o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:

Cafodd preswylwyr eu hatgoffa ym mis Mawrth o'r newid diweddar i ddeddfwriaeth sydd bellach yn gofyn i bobl ddangos ID dilys gyda llun mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn iddyn nhw allu pleidleisio. Rhyddhawyd y [datganiad i'r wasg hwn] yn cefnogi etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai 2024.

### 8.3.8. Gwirfoddoli

Wedi'i ariannu gan Spirit of 2011 dyma ni'n cydweithio gyda Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy a Disability Arts Cymru i recriwtio gwirfoddolwyr a'u cyflwyno nhw i gyfleoedd yn y sir. Roedd 50 o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio'n llwyddiannus yn ystod 2023 gyda'r prosiect yn paratoi ei hun am gyfnod recriwtio newydd yng ngwanwyn 2024. Os ydi eich sefydliad diwylliannol neu gymunedol yn chwilio am bobl i helpu yna beth am ddod yn Wirfoddolwr gydag Amdani! Conwy. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.diwylliantconwy.com

### 8.3.9. Arolwg Llyfrgelloedd ac Oriau Agor

Lansiwyd arolwg yn ystod mis Tachwedd 2023 yn gofyn i gwsmeriaid am eu barn ar wasanaethau llyfrgelloedd. Cafodd ei hyrwyddo ym mhob un o lyfrgelloedd a gwasanaethau symudol Conwy (cyfanswm o 10 ohonynt). Cwblhaodd 1,734 o oedolion yr arolwg gan adrodd lefelau uchel o foddhad gyda'r llyfrgell fel lle y gellir ei fwynhau sy'n ddiogel a chynhwysol (95%) a boddhad yn safon y gofal cwsmer (96%). Mae 88% o

gwsmeriaid yn dweud fod y dewis o lyfrau yn ‘dda iawn’ neu’n ‘dda’. Mae 267 o blant wedi llenwi’r arolwg a 90% yn teimlo bod y llyfrgell wedi’u helpu nhw i ddysgu a darganfod pethau. Roedd y gyfradd gyffredinol gan blant fymryn yn uwch na’r arolwg blaenorol ar 9.1 allan o 10. Meysydd i fynd i’r afael â nhw oherwydd gostyngiad mewn bodlonrwydd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd yn y llyfrgell; pa mor ddefnyddiol yw’r wybodaeth iechyd sy’n cael ei ddarparu; a chyfleusterau TGCh.

Ym mis Chwefror 2024 lansiwyd ymgynghoriad i gasglu safbwyntiau ar leihau’r oriau agor er mwyn osgoi gorfod cau unrhyw un o’r llyfrgelloedd ac i helpu’r gwasanaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau a Chabinet wedi ystyried yr opsiynau sydd ar gael yn Ionawr a Chwefror yn y drefn honno sef: 1. Cau am un diwrnod yr wythnos; 2. Lleihau cyfanswm yr oriau agor gan agor yn hwyrach a chau yn gynt. Bydd diweddariad yn cael ei roi i’r pwyllgor nes ymlaen yn 2024.

### 8.3.10. Cynllun Datblygu Lleol: Ymgynghoriad Cyhoeddus

Rhwng Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024 lansiwyd ymarferion ymgynghori cynhwysol ledled y sir er mwyn ymgysylltu cymunedau lleol mewn cynigion ar gyfer cynhwysiad ar safleoedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Cynhaliwyd cymysgedd o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein dan arweiniad Cymorth Cynllunio Cymru. Byddwn yn lansio digwyddiadau ymgynghori ffurfiol i’r cyhoedd ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ystod 2024 a bydd y dyddiadau yn cael eu hyrwyddo ar ein gwefan.

### 8.3.11. Llais Lleol – Graeanu

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 fe ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle Alwad gan Gynghorydd i Weithredu (CCFA) a oedd yn gofyn i ni ailystyried y ddarpariaeth bresennol ar raeanu Ffordd Tŷ Gwyn ar y Gogarth. Mae Ffordd Tŷ Gwyn yn llwybr graeanu o ail flaenoriaeth ac mae’r ffordd yn anaddas ar gyfer fflyd graeanu’r gaeaf a gallai fod yn beryglus i’r gyrrwr a’r preswylwyr. Pe bai tywydd gaeafol eithafol yn parhau am gyfnod byddai adnoddau eraill wedi’u contractio yn cael eu defnyddio fel tractor. Cefnogodd y pwyllgor yr argymhelliad i Gabinet fod ystyriaeth bellach yn cael ei roi i flaenoriaethu Ffordd Tŷ Gwyn, Llandudno a chynnal adolygiad ehangach i ailasesu llwybrau graeanu a mynediad i fynd i’r afael ag ynysu cymunedau mewn rhannau gwledig o’r Sir.

# 9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Mesurau: Dim statws

Camau gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 9.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod fel rhan o'n fframwaith Cynllun Corfforaethol er mwyn cefnogi'r canlyniad hwn. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r mesurau allweddol wrth i ni drafod blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ymhellach yn ystod 2024 i 2025 a chadernid y cyngor gan alinio'r flaenoriaeth hon yn agos â'r Cynllun Cadernid Conwy. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i rai mesurau ariannol allweddol ynghylch amrywiant gyda'r gyllideb, yr arbedion a gyflawnwyd a'n balansau wrth gefn.

## 9.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pedwar o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol. Pob un ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gan gydnabod mai ein gweithwyr yw ein hadnodd pwysicaf byddwn yn ysbrydoli perfformiad da yn ogystal â chefnogi eu hiechyd, lles a datblygiad personol a phroffesiynol drwy fframwaith rheoli perfformiad gweithwyr newydd (Sgwrs Conwy). | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Cafodd y Prosiect Sgwrs y Sir ei roi ar waith i gryfhau ein diwylliant ac i wella perfformiad drwy greu mwy o drafodaethau staff 1 i 1 ac i ddarparu'r holl reolwyr â sgiliau hyfforddi. Rydym eisiau amgylchedd lle mae perthnasau gwaith yn fwy ystyriol a lle mae gweithwyr yn teimlo fod ganddyn nhw lais a'u bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi. Byddwn yn monitro'r broses o weithredu a'r effaith y mae Sgwrs y Sir yn ei gael dros y 12 mis nesaf. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu ein Fframwaith Doethwaith a'r model gweithio'n hybrid - gyda'r nod o ddatblygu'r ffyrdd buddiol o weithio a gyflawnwyd yn ystod y cyfnodau clo a manteisio i'r eithaf arnynt, a gwneud pethau'n wahanol er budd gostwng allyriadau carbon, er lles staff, y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac effeithlonrwydd ledled y sefydliad. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Prosiect Doethwaith wedi gallu cyflwyno model o weithio'n hybrid yn llwyddiannus i staff yn y swyddfa yn ogystal â phroses o ddychwelyd yn ôl i'r swyddfa yn ddiogel yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae Cytundebau Tîm yn sicrhau fod cydbwysedd da rhwng gweithio yn y swyddfa ac o bell sy'n cwrdd â gofynion busnes a'r newid yn fyd-eang at weithio'n hyblyg.<br>Mae'r gwaith ar wireddu'r buddion o weithredu'r prosiect yn parhau i sicrhau fod manteision y prosiect yn cael eu gwireddu ac ar y trywydd iawn. |
| Dal i ddatblygu ffyrdd i siarad gyda'n staff a gwrando arnynt. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Datblygwyd sgyrsiau dal i fyny Sgwrs Conwy sydd wedi'i digideiddio trwy system reoli AD Conwy.<br>Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd mewn grwpiau fel Cefnogwyr Amser i Newid, y Grŵp Llywio Cydraddoldeb newydd a thrwy ddigwyddiadau Fforwm Rheolwyr. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd hefyd yn fecanwaith pwysig i gadw mewn cysylltiad ac i wrando ar staff. |
| Gweithredu'r prosiect recriwtio corfforaethol er mwyn gwella ein dull tuag at recriwtio a chadw staff | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Cam 1 o'r prosiect bellach wedi'i gwblhau.<br>Bydd Cam 2 yn parhau yn 2024 i 2025 gyda'r ffocws ar amrywiaeth a hygyrchedd mewn recriwtio. |

## 10. Swyddogaethau Llywodraethu

Gyda chefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fod yn wydn mae'r penodau i ddilyn yn ystyried y camau i wella a'r datblygiadau (yn cynnwys eitemau newyddion a phwyllgorau) sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod 2023 i 2024 er mwyn cefnogi saith maes llywodraethu, yn bennaf Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Rheoli Perfformiad, Rheoli Risg, Cynllunio'r Gweithlu, Rheoli Asedau a Chaffael.

## 10.1. Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut mae'r Cyngor yn gosod amcanion strategol ac yn gwneud trefniadau i'w cyflawni.

### 10.1.1. Strwythur Uwch Reolwyr

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol croesawyd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu newydd sy'n cynnwys cyfrifoldebau'r Swyddog Monitro.  Daeth y swydd hon yn wag ar ôl penodi Prif Weithredwr newydd.

Ar ôl dileu'r swydd Cyfarwyddwr Strategol gwag fe hysbysodd y Prif Weithredwr y Cyngor ym mis Gorffennaf 2023 o'i fwriad i ailstrwythuro'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn mynd i'r afael â galw cynyddol.  Ystyriwyd papur yn amlinellu'r Pennaeth Tai Strategol ac yn alinio cyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaeth yn unol â hynny gan Graffu a Chabinet ym mis Medi 2023. Yn dilyn proses recriwtio fe ddechreuodd y Pennaeth Tai Strategol yn ei swydd yn Chwefror 2024.

### 10.1.2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2023.  Yn ogystal â'r ddogfen yr oedd y Cod Llywodraethu Lleol a'r Fframwaith Llywodraethu. Mae'r ddogfen yn hunanasesiad gyda'r nod o ddarparu sicrwydd o brosesau llywodraethu cadarn a chyflwyno'r achosion o flaenoriaeth fwyaf sy'n cael eu rheoli gennym ni fel cyngor.  Er bod yr adroddiad heb gyflwyno unrhyw achosion llywodraethu sylweddol cafodd pryderon eu codi ynghylch anawsterau gydag adnoddau a lles staff. Roedd y datganiad yn nodi'r camau gwella canlynol wedi'u hunanasesu:

1. Rhoi camau gweithredu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith gan gynnwys gwella aliniad prosesau cynllunio busnes ac ariannol er mwyn helpu i wireddu ein gweledigaeth.
2. Datblygu'r rhaglen sefydlu aelodau ymhellach a datblygu cynllun hyfforddi a datblygu aelodau parhaus.
3. Sicrhau bod mecanweithiau'n bodoli i fonitro'r ffordd y cyflwynir strategaethau allweddol.

4. Sicrhau bod pob agwedd ar hyfforddiant llywodraethu yn cael eu cynnwys yng nghynllun dysgu a datblygu'r Cyngor.
5. Adolygu a gwella ein hymagwedd i reoli risg.
6. Rhoi cynllun gweithredu hunanasesu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar waith.

### 10.1.3 Adroddiadau Archwilio Cymru

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad gan Archwilio Cymru ynglŷn â'r ffordd yr oedd y Cyngor wedi gosod ei Amcanion Lles yn 2022. Roedd yn adroddiad cadarnhaol a oedd yn nodi'r gwaith gwych a gwblhawyd i ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol. Dim ond un argymhelliad a gafodd ei wneud yn yr adroddiad sef ein hannog i ystyried sut yr ydym yn cefnogi a gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu amcanion. Cytunwyd i fapio sut y mae ein hamcanion yn cyd-fynd â'r rheiny gan sefydliadau partner.

Yn yr un cyfarfod roedd aelodau hefyd yn ystyried yr adroddiad Sicrwydd ac Asesiad Risg blynyddol a oedd yn cydnabod ein bod yn gweithredu trefniadau i sicrhau ein bod yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi fod gennym weledigaeth glir a chefnogaeth strategol ar gyfer ein hymagwedd i ddatgarboneiddio ac i gyflawni sero net erbyn 2030; fodd bynnag er mwyn cyrraedd y dyhead hwnnw rydym angen prisio ein cynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

### 10.1.4. Trefniadau Democrataidd

Dechreuodd y Cyngor etholedig ei flwyddyn ym mis Mai gan ethol ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd gyda'r Cynghorwyr Ifor Lloyd a Susan Shotter ill dau yn cael eu hail-ethol i'w swyddi. Cafodd penodiadau eu gwneud i bwyllgorau allweddol gan ddod i gytundeb ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion pwyllgor yn dilyn cyngor Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cytunodd y Cyngor ar amserlen gyfarfodydd pwyllgor ar gyfer y flwyddyn yn amodol ar ymgynghori pellach â'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion perthnasol a'r Arweinydd i osgoi unrhyw wrthdaro â'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2023. Cafodd apwyntiadau pellach eu gwneud ym mis Gorffennaf a mis Hydref i'r Pwyllgor Safonau a oedd yn cynnwys penodi aelod annibynnol. Ym mis Rhagfyr o'r diwedd fe adolygodd y Cyngor falans gwleidyddol ei bwyllgorau a chynyddu aelodaeth y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Cynllunio

a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i 17 a bod aelodaeth y Pwyllgorau Trwyddedu, yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth a'r Uwch Bwyllgor Ymchwilio i 11. Cytunwyd ar benodiadau newydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Yn Ionawr 2024 mabwysiadodd y Cyngor (yn dibynnu ar brawf ddarllen a gwirio o ran cysondeb) fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Cyfansoddiad Enghreifftiol Cenedlaethol a oedd yn cynnwys diweddariad i'r canllaw iaith arferol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Mawrth 2024 ar drefniadau craffu i Gyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru. Cydnabuwyd fod craffu effeithiol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y Cyd-bwyllgor Corfforedig gan y byddai ei benderfyniadau yn cael effaith uniongyrchol ar awdurdodau lleol. Cytunodd craffu mai cyd-bwyllgor wedi'i sefydlu o gynghorau etholaeth a fyddai'r model a ffefrir.

## 10.2. Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a'n gwariant.

### 10.2.1. Datganiad Cyfrifon 2022 i 2023

Mae dyletswydd statudol ar bob cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifeg a gymeradwyir. Mae'r Datganiad Cyfrifon blynyddol yn adrodd ar drafodion y flwyddyn a'n sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Adroddwyd y Datganiad Cyfrifon drafft i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023 gyda'r fersiwn derfynol yn cael ei chymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mai 2024 ar ôl ystyried Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatganiadau Ariannol a oedd yn adrodd ei fwriad i gyflwyno barn archwilio ddiamod. Mae'r oedi gyda chwblhau'r archwiliad allanol o ganlyniad i broblemau adnoddau yn Archwilio Cymru.

### 10.2.2. Pwysau ar y Gyllideb 2023 i 2024

Conwy oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i wahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hwyluso Adolygiad Cyfoedion yn dilyn cylch gosod y gyllideb ar gyfer 2023 i 2024. Mae'r adolygiad yn cael ei wneud ym mis Mai 2023 ac mae'r adroddiad yn cydnabod bod gosod cyllideb 2023 i 2024 wedi bod yn broses anodd a heriol yn gyffredinol, yn enwedig wrth ystyried yr argyfwng costau byw, chwyddiant, cynnydd mewn galw a'r gofyniad oherwydd hynny i gynyddu Treth y Cyngor o 9.9% ac i gyflawni gostyngiadau cyllideb o £11.6m.

Mae'r adroddiad yn cydnabod ein bod yn awyddus i ddysgu o'r ymagwedd a gymerwyd wrth osod y gyllideb ac yn benderfynol o wella cadernid a darparu newid i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Cymeradwywyd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu gan Gabinet ym mis Hydref 2023 ac erbyn hyn rydym wedi gweithredu'r cynllun gweithredu.

Ym mis Awst 2023, mis Tachwedd 2023 a mis Chwefror 2024 cyflwynwyd adroddiadau monitro ar weithgaredd refeniw'r flwyddyn ariannol hyd yma i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac i'r Cabinet. Roedd yr adroddiadau'n egluro fel gyda chynghorau eraill ledled y DU ein bod yn wynebu pwysau sylweddol parhaus ar y gyllideb o ganlyniad i chwyddiant parhaus a phwysau oherwydd galw. Mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi cael eu sefydlu; fodd bynnag mae cronfeydd wrth gefn yn gyfyngedig ac mae'r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn yn parhau i edrych yn heriol. Gofynnwyd i wasanaethau arafu neu ohirio unrhyw wariant.

Cyflwynwyd diweddariadau ariannol pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2023 a mis Chwefror 2024 i'w hysbysu nhw o'r heriau ariannol a'r gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn ymateb i'r rhain.

### 10.2.3. Canlyniad 2023 i 2024

Ar ddiwedd y flwyddyn mae ein gwariant wedi rhagori ar ein hincwm o £1.4m ac ariannwyd y diffyg trwy ddefnyddio ein cronfeydd wrth gefn. Er y byddai wedi bod yn ffafriol i beidio â defnyddio ein cronfeydd wrth gefn o ystyried y pwysau ariannol sylweddol arnom yn cynnwys costau na ragwelwyd o ganlyniad i Storm Babet, mae'n glod i'r Cyngor fod y gwasanaethau wedi cymryd y camau i gynnwys gwariant y gwasanaeth o fewn y gyllideb derfynol. Roedd y gwariant dros ben o ganlyniad i gostau untro.

### 10.2.4. Cyllideb ar gyfer 2024 i 2025

Ym mis Medi 2023 mae Cabinet wedi cymeradwyo adroddiad sy'n cynnwys cynllun yr amserlen a threfniadau llywodraethu mewn perthynas â'r Fframwaith Cynllunio Busnes ar gyfer 2024 i 2025 sy'n nodi'r ymagwedd gyffredinol ar gyfer gosod cyllideb flynyddol. Roedd yn golygu gallu cyflwyno achosion busnes i fynd i'r afael â phwysau ar y gyllideb yn ogystal ag adnabod y cynigion lleihau cyllideb yn seiliedig ar y rhagolygon ariannol. Ym mis Rhagfyr 2023 fe gyflwynodd Arweinydd y Cyngor ddatganiad i'r wasg yn pwysleisio'r siomedigaeth ar gyfer y Setliad Llywodraeth Leol dros dro i Gonwy ar gyfer 2024 i 2025. Roedd y datganiad i'r wasg yn egluro fod setliad Conwy unwaith eto'r isaf yng Nghymru a rhagwelwyd y byddem ond yn derbyn cynnydd o 2% lle'r oedd cynghorau eraill wedi

derbyn i fyny at 4.75% gyda'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yn 3.1%. Cafwyd sawl mis prysur o ymgysylltu gydag aelodau lleol, swyddogion, partneriaid a chymunedau i ystyried ystod o gynigion ar gyfer y gyllideb. Roedd adroddiad i Gabinet yn Ionawr 2024 yn egluro fod ein diffyg cyllid amcangyfrifedig ar gyfer 2024 i 2025 yn £25.3 miliwn.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar sefyllfa'r Gyllideb ar gyfer 2024 i 2025 rhwng 8 Ionawr a 2 Chwefror 2024. Gofynnodd yr ymgynghoriad i'n preswylwyr pa wasanaethau oedd fwyaf pwysig iddyn nhw a'u cymunedau a derbyniwyd 1,652 o ymatebion. Cafodd y canlyniadau mewn manylder eu cynnwys fel rhan o'r atodiadau a gafodd eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Chwefror 2024 lle'r oedd Cynghorwyr yn cytuno ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cafodd datganiad i'r wasg arall ei gyflwyno gan yr Arweinydd ym mis Chwefror yn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y setliad gan egluro'r effaith andwyol y byddai'n ei gael ar yr ystod a'r lefel o wasanaethau yr ydym yn ei ddarparu.

Roedd gosod y gyllideb ar gyfer 2024 i 2025 yn hynod o heriol o ystyried y pwysau sylweddol o ganlyniad i chwyddiant tâl a phrisiau, cynnydd mewn cyfraddau llog a galw cynyddol ar wasanaethau. Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gynnwys fel rhan o'r adroddiad ac yn cynnwys ein gofyniad disgwyliedig i'n cyllideb ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf a'r manylion ynglŷn â sut y byddwn yn rheoli gofynion o ran adnoddau yn y cyllid sydd ar gael. Yn dilyn cymeradwyo'r gyllideb, rhyddhawyd datganiad i'r wasg oedd yn egluro ein bod yn dal i wynebu bwlch ariannu sylweddol hyd yn oed efo'r cynnydd annymunol yn Nhreth y Cyngor o 9.67%. Roedd y Cyngor hefyd wedi cymeradwyo'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2024 i 2025 er mwyn helpu'r rheiny ar incwm isel. Ewch i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth ar hyn.

Mae'r anawsterau a wynebir wrth reoli a chyflenwi ein darpariaeth o wasanaethau wedi cael ei adnabod fel risg corfforaethol critigol ac yn cael ei fonitro trwy'r broses wleidyddol. Mae'n broblem gritigol y mae pob Llywodraeth Leol yn ei wynebu ar draws y DU.

### 10.2.5. Cronfeydd wrth gefn a Balansau

Cafodd ein Polisi Cronfeydd wrth Gefn a Balansau ei gymeradwyo gan Gabinet ym mis Awst 2023 ac fe gefnogodd aelodau etholedig y nod i gynnal cronfa wrth gefn cyffredinol ar 5% o'r gyllideb refeniw net. O 31 Mawrth, 2024 mae gennym £4.288m yn ein cronfa gyffredinol a £57.789 yn ein cronfeydd wrth gefn a'n balansau.

### 10.2.6. Darpariaeth Isafswm Refeniw

Pan fo Awdurdod Lleol yn ariannu gwariant cyfalaf drwy ddyled mae'n ofyniad bod adnoddau yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled honno drwy ffi i'r cyfrif refeniw (yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR)). Yn unol â gofynion rheoleiddio fe gymeradwyodd y Cyngor ei Bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer 2024 i 2025 yn ei gyfarfod yn Chwefror 2024.

### 10.2.7. Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024 i 2025

Cyflwynwyd diweddariadau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ariannol 2023 i 2024 ar weithgaredd Rheoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Gorffennaf, Medi a Tachwedd 2023, a Chwefror 2024). Cyflwynwyd adroddiadau monitro rheolaidd ar y Rhaglen Gyfalaf i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet (yn ystod Gorffennaf, Medi a Thachwedd 2023, a Chwefror 2024), gan nodi newidiadau i'r rhaglen gyfan. Cyflwynwyd adroddiad hefyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2023 yn argymell amrywiad i'r rhaglen gan ychwanegu cynllun rhoi wyneb newydd i ddau faes parcio, un yn Llanrwst a'r llall yn Llanfairfechan a oedd yn dod i gyfanswm o £1.2 miliwn ac wedi'i ariannu o grant allanol a benthyca.

Ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y sefyllfa cafodd y Strategaeth Gyfalaf a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024 i 2025 ei gymeradwyo gan y Cyngor yn Chwefror 2024. Yn yr un cyfarfod ac yn dilyn mewnbwn gan Graffu, Llywodraethu ac Archwilio a Cabinet fe gymeradwyodd y Cyngor hefyd y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024 i 2025. Roedd yr adroddiad yn argymell rhaglen gyfalaf o £15.7 miliwn. Bydd y rhaglen gyfalaf yn parhau i gael ei adrodd wrth aelodau gan adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglen trwy gydol y flwyddyn.

### 10.2.8. Technology One

Llwyddwyd i weithredu Cam 1 o system ariannol newydd Technology One a aeth yn fyw yn Hydref 2023 a chwblhawyd y prosesau diwedd blwyddyn yn llwyddiannus. Roedd cyfanswm sylweddol o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu Cam 2 a fydd yn cynnwys rheoli contract, prynu cardiau, cyllidebu a rhagweld y sefyllfa. Bydd yn cryfhau cadernid hirdymor o'n systemau ariannol craidd.

## 10.3. Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud gan fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o'r sefydliad a'n preswylwyr.

### 10.3.1. Monitro'r Cynllun Corfforaethol

Rydym wedi cyflwyno nifer o adroddiadau trwy gydol y flwyddyn ar gynnydd y Cynllun Corfforaethol. Cyflwynwyd cynigion ar gyfer mesurau perfformio a thargedau'r Cynllun Corfforaethol i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a Chabinet ym mis Mehefin ac i'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r Hunanasesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi ac i Graffu, Cabinet a'r Cyngor ym mis Hydref 2023. Yna roedd ein hadroddiadau monitro bob chwe mis yn cael eu cyflwyno i Graffu a Chabinet ym Mawrth 2024.

Cytunwyd yn Craffu y byddai'r fformat adroddiad bob chwe mis yn arbennig yn cael ei adolygu i gynnwys astudiaethau achos a gwerthusiad o'r canlyniadau. Mae'r adroddiad perfformiad presennol hwn y cyntaf o'r fformat wedi'i ddiwygio a fydd yn cefnogi ein hymagwedd i hunanasesiad 'parhaus' fel sy'n cael ei annog o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a hefyd yn cwrdd â'r canllawiau hygyrchedd yn well. Y bwriad yw diweddaru'r adroddiad bob chwe mis gan fynd o Ebrill i Fedi a Hydref i fis Mawrth a dyma fydd y cyfrwng ar gyfer cofnodi unrhyw weithgarwch a chynnydd o ran rheoleiddio yn ystod y flwyddyn gan graffu ar fesurau a'u trothwyon a chofnodi gweithgareddau gwella a godir trwy'r adroddiad neu ein Hadolygiadau Perfformiad Gwasanaeth. Bydd yr adroddiad hefyd yn casglu safbwyntiau o restr ragnodedig o dan y Ddeddf (yn cynnwys preswylwyr, staff, busnesau, Undebau Llafur, Cynghorau Tref a Chymuned, a Phartneriaid) a sut yr ydym yn perfformio yn erbyn ein swyddogaethau allweddol (ein blaenoriaethau a'n meysydd llywodraethu). Bydd y Tîm Perfformiad a Gwelliant yn edrych ar weithredu proses ar gyfer y misoedd nesaf gan gadw yn y cof y cymhwysedd sydd ar gael ar gyfer tîm mor fach. O'i ystyried yn ei gyfanrwydd mae corff y dystiolaeth yn ffurfio ein hunanasesiad ac yn cyd-fynd â chrynodeb gweithredol a fydd yn tynnu sylw at gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau allweddol. Byddwn hefyd yn edrych ar symud yr amserlen adrodd ymlaen fel eu bod nhw'n amserol gydag adroddiad diwedd blwyddyn yn mynd i bwyllgorau yn yr haf a'r adroddiad bob chwe mis yn cael ei ysgrifennu yn y gaeaf.

### 10.3.2. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022 i 2023

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022 i 2023 i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Gorffennaf 2023 ac i Gabinet yn Awst 2023. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y meysydd lle'r oedd datblygiadau newydd ac yn gwerthuso perfformiad ynghlwm â chyflawni dyletswyddau Gofal Cymdeithasol. Nodwyd fod yna ddatblygiadau sylweddol wedi bod dros y flwyddyn a oedd wedi cyfrannu at gyfeiriad strategol y cyngor a bod gennym gymeradwyaeth da gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr gyda'r nifer o gwynion yn gostwng gan dderbyn dros 100 o ganmoliaethau. Rydym yn parhau i wneud ymdrech i sicrhau bod ein gwasanaethau mor effeithiol â phosib; fodd bynnag, gall hyn effeithio ar ansawdd wrth i adnoddau gael eu cywasgu. Fodd bynnag, rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein cynlluniau a bydd y rhaglen waith fwyaf sylweddol o'n blaenau yn trawsnewid profiadau gofal plant yn enwedig y rheiny mewn lleoliadau â chostau uchel. Mae'n bosib darllen yr adroddiad terfynol ar ein gwefan.

### 10.3.3. Rheoli Prosiectau a Rhaglenni

Yn ôl cais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyflwynwyd adroddiad gan ein Rheolwr Moderneiddio Corfforaethol ar drefniadau rheoli prosiectau a rhaglenni ym mis Tachwedd 2023. Sicrhawyd fod ein prosesau'n gadarn a bod fframwaith wedi'i ddiffinio'n glir yn ei le ac wedi'i gefnogi gan dîm corfforaethol ymroddgar bychan a meddalwedd wedi'i deilwra. Mae'r fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol i gymryd i ystyriaeth yr arferion da a'r newidiadau i bolisïau, gweithdrefnau a strwythurau'r cyngor. Roedd yr adolygiad diweddaraf yn argymell fod amlder, maint a ffocws y Fforwm Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau yn cael ei newid gan hefyd sefydlu cylch mwy ffurfiol o 'Wiriadau Iechyd' ar gyfer prosiectau a rhaglenni sylweddol. Mae'r Tîm Moderneiddio Corfforaethol yn cwrdd yn rheolaidd gyda rheolwyr rhaglenni a phrosiectau i rannu arfer da ac i fentora. Mae argymhellion gan Archwilio Cymru wedi'u hymgorffori i'r fframwaith.

### 10.3.4. Diweddariadau ar Weithgareddau Rheoleiddio

Mae diweddariadau ar ein cynnydd yn erbyn argymhellion rheoleiddio allanol wedi'u cyflwyno i Lywodraethu ac Archwilio ym mis Mai a mis Tachwedd 2023 gan roi sicrwydd fod camau gweithredu a gytunwyd arnynt yn cael eu monitro, gweithredu ac adrodd arnynt yn ddigonol. Hefyd ym mis Mai fe adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddarparu yn ystod 2022 i 2023 a chynllun archwilio amlinellol ar gyfer 2023 i 2024.

### 10.3.5. Archwilio Mewnol

Ym mis Mai 2023 fe gyflwynodd Pennaeth Archwilio Mewnol yr Adroddiad Blynyddol, Cynllun Blynyddol a'r Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer y tîm i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cafwyd cyfanswm o 36 o safbwyntiau archwilio gan Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn gyda 22 o Sicrwydd Uchel, deuddeg yn Foddhaol a dau o Sicrwydd Cyfyngedig. Ni chafodd adroddiadau eu dychwelyd gyda chyfradd Dim Sicrwydd. Roedd nifer y staff archwilio (6.3 cyfwerth â llawn amser) yn unol â chyfartaledd Cymru gyfan ac yn ddigonol i ddarparu archwiliadau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd pellach i'r pwyllgor ym misoedd Tachwedd a Chwefror gan gynnwys yr olaf sef Hunanasesiad o berfformiad archwilio. Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd bod Gwasanaeth Archwilio Mewnol Conwy bellach yn cydymffurfio'n llawn yn erbyn 99.6% o'r 305 o ofynion unigol gan adnabod dim ond un maes o gydymffurfio'n rhannol (amhariad i annibyniaeth neu wrthrychedd).

### 10.3.6. Y Timau Troseddu Ieuenctid: Arolygu ar y Cyd

Cynhaliodd Ofsted, Estyn ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi arolygiad ar y cyd o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn timau troseddu ieuenctid yn Lloegr a Chymru. Cynhaliwyd yr Arolygiad yn ystod mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022. Arolygwyd ansawdd y gwaith a ddarperir gan dimau troseddu ieuenctid yng Nghonwy a Sir Ddinbych, Camden, Doncaster, Dinas Caerlŷr, Bryste a Salford. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2022 a'i gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2024. Nodwyd enghreifftiau o waith ymarferol effeithiol ar lefel sefydliadol ac achos ynghyd â meysydd i'w gwella. Mae argymhellion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ac mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain.

### 10.3.7. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor

Cyflwynwyd ein Hadroddiad Trosolwg a Chraffu Blynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref 2023 ac i Gabinet ym mis Rhagfyr 2023. Ystyriwyd 89 o adroddiadau ledled 37 o gyfarfodydd gan wneud 134 o argymhellion i Gabinet neu'r Cyngor ac un galwad ffurfiol i mewn yn ymwneud â phenderfyniad. Datblygwyd 15 o bolisïau ac ystyriwyd 36 o adroddiadau monitro. Ar y cyfan roedd yr adroddiad yn gadarnhaol er bod yna bryder ynglŷn â hyd gyfarfodydd a chytunwyd gyda'r Adolygiad

Cyfoedion diweddar ynglŷn ag effeithiolrwydd pwyllgorau.  Roedd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn archwilio dewisiadau i wneud craffu yn fwy effeithlon.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei ystyried gan aelodau pwyllgor ym mis Gorffennaf 2023 ac yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2023. Roedd 2022 i 2023 yn flwyddyn o drawsnewid i'r pwyllgor wrth i'w aelodaeth addasu i gynnwys wyth o aelodau etholedig a phedwar o aelodau lleyg gydag un o'r pedwar yn gadeirydd.  Mae newidiadau wedi cael eu gwneud i'r broses gyflwyno dogfennau allweddol er mwyn rhoi sicrwydd perthnasol i'r pwyllgor y gofynnwyd amdano ynghylch llywodraethu. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen i'r pwyllgor wella effeithiolrwydd perthnasau gwaith proffesiynol ymhellach ac i sefydlu partneriaeth ystyrlon gyda phwyllgorau Craffu. Mae angen hyfforddiant pellach ac eglurhad o'r gwahaniaethau rhwng rôl y pwyllgor a'r swyddogaeth craffu hefyd wedi'i amlygu wrth drafod yr adroddiad.

Ym mis Hydref 2023 fe dderbyniodd y Cyngor yr adroddiad cyntaf o'r Pwyllgor Safonau a oedd yn darparu ychydig o gefndir i'r pwyllgor.  Yn ystod 2022 i 2023 nodwyd fod y pwyllgor wedi gosod rhaglen o ymweliadau aelodau annibynnol â chyfarfodydd cynghorau tref a chymuned; wedi adolygu'r Gofrestr o Gysylltiadau Aelodau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch; wedi ystyried cwynion wedi'u cyflwyno i'r Ombwdsmon; wedi derbyn adborth gan y Fforwm Safonau Cenedlaethol; wedi goruchwylio rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant ar God Ymddygiad Aelodau; ac wedi sicrhau gwaith Arweinwyr y Grŵp i hyrwyddo ymddygiad moesegol.

### 10.3.8. Canmoliaethau a Chwynion

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu a Chraffu yr adroddiad blynyddol ar y cyd ar Gwynion Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dyma'r adroddiad cyntaf i gynnwys Canmoliaethau a Chwynion Corfforaethol ac adroddiadau Cynrychiolaethau, Cwynion a Chanmoliaethau Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r gobaith o gael gwell cysondeb gyda gweithdrefnau cwynion. Derbyniwyd 346 o gwynion corfforaethol yn ystod 2022 i 2023. Cafodd 98 eu cyflawni, 223 heb eu cyflawni, 15 wedi'u dod i ben, a saith lle nad oedd yr archwiliadau yn deilwng. Deliwyd gyda 68% o gwynion Cam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith, a 47% o gwynion Cam 2 o fewn 20 diwrnod gwaith. Derbyniwyd 321 o gwynion yn ystod y flwyddyn sy'n cyd-fynd â'r flwyddyn flaenorol.

O ran Gwasanaethau Cymdeithasol roedd 22 o gwynion ffurfiol gyda 100% yn cael eu datrys yng Ngham 1 a 80% yn cael eu cwblhau o fewn 15 diwrnod - gwelliant ar berfformiad blaenorol.  Fodd bynnag ni chafodd dau gŵyn cymhleth yng Ngham 2 a oedd yn golygu archwiliad annibynnol eu cwblhau o fewn y flwyddyn gan ragori ar y terfyn amser o 25 diwrnod gwaith. Cafodd 5 cwyn eu huwchgyfeirio i'r Ombwdsmon ond roedd y rhain un ai heb gael eu hymchwilio ymhellach neu'n cael eu gweld i fod yn gynamserol. Derbyniwyd 151 o gwynion o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gynnydd ar y 122 ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Mae'r gwersi mwyaf sylweddol o ganlyniad i gwynion yn ystod 2022 i 2023 yn cynnwys y pwysigrwydd o adnabod unrhyw anfodlonrwydd; bod yr holl gyfathrebiadau a gweithdrefnau yn glir a bod swyddogion yn eu deall; a'r angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar y cwynion yn cael eii gasglu, ac i ddilyn i fyny ar unrhyw gamau gweithredu y cytunir arnynt.  Cymeradwywyd yr adroddiad gan Gabinet yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023.

### 10.3.9. Asesu Perfformiad Panel

Un gofyniad sy'n weddill o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yw bod trefniadau yn eu lle ar gyfer 'Asesiad Panel' cyfoedion o'i swyddogaethau i'w gyflawni unwaith o fewn y tymor etholiadol. Byddwn yn trafod y trefniadau hyn yn fuan gyda rheolwyr ac aelodau etholedig (yn cynnwys y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio) fel eu bod nhw'n gallu penderfynu ar gwmpas yr asesiad.  Dros dro rhaid cytuno ar y ddogfen gwmpasu a phenodi panel erbyn Gorffennaf 2025 gyda chynnig i gynnal yr asesiad ddechrau'r hydref yn 2025.

Mae'n werth nodi fod nifer o reolwyr yng Nghonwy yn cefnogi'r gwaith asesu gan gyfoedion ac arolygwyr mewn awdurdodau lleol eraill trwy CLlLC, Estyn ac AGC. Bydd yn helpu i hysbysu gwaith paratoi a chwmpasu ein Hasesiad Perfformiad Panel ond mae hefyd yn bwysig i gefnogi'r ffordd y mae Conwy yn dysgu gan eraill.

## 10.4. Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r cyngor.  Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 10.4.1. Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol

Yn ystod 2023 a 2024 mae'r Cofrestrau Risg a'r Materion Corfforaethol wedi parhau i gael eu hadrodd arnynt i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (ym misoedd Mai a Thachwedd) a Chraffu a Chabinet (ym misoedd Ebrill a Thachwedd).  Cynhaliwyd yr adolygiad mwyaf diweddar rhwng Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024 a'i adrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ebrill 2024.  Mae risgiau a phroblemau yn cael eu monitro trwy ein proses adolygu perfformiad gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn, adolygiadau archwilio mewnol ac allanol a chyfarfodydd strategol mewnol eraill.  Er nad yw'n ofyniad rydym hefyd yn gwahodd ein rheoleiddwyr allanol i ddarparu cefnogaeth a her i'r cofrestrau yn flynyddol.

Fel rhan o'r adolygiad mwyaf diweddar fe gafodd y diwygiadau canlynol eu gwneud:-

- Cafodd achos ei uwchgyfeirio o risg corfforaethol presennol i dynnu sylw fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi derbyn y setliad isaf yng Nghymru ar gyfer 2024 i 2025 gan Lywodraeth Cymru  fel rhan o'r Fformiwla Cyllido.
- Adnabuwyd tri risg newydd sy'n berthnasol i'r anallu o newid cerbydau, rheolaeth effeithiol o gontractau a pharatoi ar gyfer diwedd y llinellau Rhwydwaith Ffôn Cyhoeddus (PTSN).
- Cafodd un risg ei dynnu o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol mewn perthynas â hyfforddiant aelod o ganlyniad i reolaethau rheoli effeithiol.
- Cytunwyd y dylai'r risg o drais cynyddol at aelodau etholedig a swyddogion gael ei gofnodi ar wahân fel rheolaeth wahanol a nodwyd y mesurau gweithredu.

O ganlyniad cymeradwywyd y Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol gan Gabinet ym mis Gorffennaf.

### 10.4.2. Cynllun Gweithredu'r Archwiliad o Ddiogelu Data

Yn ei gyfarfod ym Medi 2023 derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad gan Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio ar gamau heb eu gweithredu sy'n berthnasol i archwiliad blaenorol ar ddiogelu data.  Amlygwyd y pwysau parhaus yn yr adran a'r ymdrechion i recriwtio ar gyfer swydd wag fel pryder ond bod yr adran wedi recriwtio cefnogaeth gan asiantaeth. Mae oddeutu hanner y 21 o argymhellion o'r archwiliad wedi'u cwblhau a sicrhawyd y byddai'r holl argymhellion yn derbyn sylw cyn yr archwiliad dilynol ym mis Rhagfyr.  Nodwyd hefyd fod grwpiau Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth bellach ar waith.

### 10.4.3. Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae ein prosesau iechyd a diogelwch corfforaethol yn parhau i fod yn effeithiol mewn cadw pobl yn ddiogel.  Yn yr adroddiad blynyddol a gyflwynwyd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref 2023 pwysleisiwyd na fu'n rhaid i'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch wneud unrhyw ymyraethau yn ystod 2022 i 2023 a oedd yn dangos cydymffurfiad da o iechyd a diogelwch.  Roedd y Tîm Iechyd a Diogelwch hefyd wedi darparu 95 o gyrsiau hyfforddiant gorfodol gyda 760 o gyfranogwyr yn mynychu wyneb yn wyneb a 367 yn mynychu'r hyfforddiant ar-lein.

## 10.5. Cynllunio'r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Cynllunio'r gweithlu yw'r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a'r sgiliau - rŵan ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.

### 10.5.1. Prosiect Doethwaith

Yn ystod 2023 i 2024 adroddwyd ar ddarparu, ac yna cau pen y mwdwl ar ein Prosiect Doethwaith.  Rhannwyd adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ebrill 2023 gydag adroddiad ar gau'r prosiect ym mis Hydref 2023. Fe gychwynnodd Prosiect Doethwaith ym Mehefin 2020 gyda nifer o amcanion yn canolbwyntio ar drawsnewid y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio yn ystod ac ar ôl y pandemig. Mae'r prosiect wedi cyflawni'r amcanion hynny'n llwyddiannus ond roedd angen cyflawni ambell i gam dilynol ar ôl cau'r prosiect yn cynnwys monitro ac adolygu gweithio hybrid trwy ymgysylltiad staff a chynghorwyr; gwneud trefniadau ar gyfer gwella gwasanaeth i gwsmeriaid; ac i sefydlu'r Prosiect Gosod Swyddfa.  Bydd y cynnydd o ran y camau gweithredu yn cael eu hadrodd i Fwrdd Cyfleoedd Conwy.

### 10.5.2. Polisi Gweithio Hybrid

Diweddarwyd a thrafodwyd y Polisi Gweithio Hybrid yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Hydref 2023. Nod y polisi yw darparu strwythur a chanllawiau i weithwyr ar sut i weithio mewn modd hyblyg ac o bell, ac i wneud y mwyaf o'r buddion cysylltiedig ag i wella recriwtio gan sicrhau bod y gwasanaeth cwsmer a'r ethos 'Tîm Conwy' yn cael ei gynnal.  Mae gan y polisi ddiffiniad mwy diweddar o weithio hybrid i

osod mwy o bwyslais ar staff i weithio o'r swyddfa ond bod ganddynt hefyd yr hyblygrwydd i weithio o bell gan gynnwys eglurhad o'r disgwyliad bod Rheolwyr yn gosod y model ar gyfer presenoldeb disgwyliedig yn y swyddfa. Cymeradwywyd y polisi gan Gabinet ym mis Hydref 2023.

### 10.5.3. Polisi Ar Alw

Mae Ar Alw'n cyfeirio at daliad a wneir i staff am gytuno i fod ar rota Ar Alw; felly os oes argyfwng gellir galw arnynt i ymateb i'r argyfwng hwnnw. Mae yna 63 o drefniadau ar alw mewn lle a nod ein Polisi Ar Alw yw bod ag ymagwedd gyson at bob math o drefniadau. Cefnogwyd y polisi gan Graffu a'i gymeradwyo gan Gabinet ym mis Rhagfyr 2023.

### 10.5.4. Polisi Tâl

Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo datganiadau ar y Polisi Tâl yn flynyddol a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol erbyn 31 Mawrth. Mae'r Cyngor wedi ystyried a chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl Lleol ar gyfer 2024 i 2025 a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) cysylltiedig â'r Datganiad Pensiwn Dewisol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024.

### 10.5.5. Gwerthuso Swyddi

Ym mis Rhagfyr 2023 fe adolygodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau y polisi Gwerthuso Swyddi drafft ynghyd â'r Cynllun Gwerthuso Swyddi diweddaraf, gweithdrefnau gweithredu, cwestiynau cyffredin a chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r cynllun Gwerthuso Swyddi yn gynllun cydnabyddedig sy'n sicrhau bod sefydliadau cyhoeddus yn dilyn proses deg a gwrthrychol ar gyfer pennu dyfnder ac ehangder swydd a dyrannu sgôr briodol a diogelu'r awdurdod rhag y perygl o hawliadau cyflog cyfartal. Cefnogwyd y polisi gan Graffu a'i gymeradwyo gan Gabinet ym mis Rhagfyr 2023.

### 10.5.6. Polisi Dileu Swyddi ac Ailstrwythuro

Yn dilyn adolygiad o'r Polisi Diswyddo presennol, ystyriwyd polisi diwygiedig gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ionawr 2024. Cefnogodd aelodau'r pwyllgor yr argymhelliad ar yr amod fod eglurder mewn perthynas â thâl diswyddo os nad oedd y cyfnod prawf 4 wythnos yn llwyddiannus ac y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnig Cyfweliad Gadael i staff. Mabwysiadwyd yr argymhellion hyn a chymeradwywyd y polisi gan Gabinet yn Ionawr 2024.

### 10.5.7. Datblygu a Hyfforddi Aelodau

Ystyriwyd Datblygiad a Hyfforddiant Aelodau mewn sawl pwyllgor allweddol yn ystod 2023 i 2024. Ym mis Hydref 2023 fe gymeradwyodd y Cyngor y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau ar gyfer 2023 i 2024 (fel yr argymhellir gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) a bod y modiwlau hyfforddiant canlynol yn cael eu gwneud yn orfodol i aelodau:

- Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 (y Gymru a Garem).
- Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2019.
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Seiberddiogelwch (hefyd ar gyfer aelodau lleyg y rhoddwyd dyfais TG y Cyngor iddynt).

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael adroddiadau yn eu diweddaru ar nifer yr Aelodau sydd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant a datblygu yn flynyddol.

Yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2023 fe ystyriodd aelodau yr Hunanasesiad ar Anghenion Hyfforddi. Mae disgwyl i aelodau’r pwyllgor i arddangos eu hymrwymiad i welliant parhaus trwy sicrhau fod gan y pwyllgor gydbwysedd o wybodaeth a sgiliau i berfformio’r holl swyddogaethau gydag unrhyw fylchau o ran sgiliau neu wybodaeth yn cael eu llenwi trwy gyflawni rhaglen hyfforddi.  Gofynnwyd i aelodau hunanasesu pob maes o wybodaeth graidd fel yr amlinellir yn y rhestr wirio o anghenion hyfforddi Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Cafodd canlyniadau’r hunanasesiadau eu bwydo i Gynllun Gwaith y pwyllgor.

### 10.5.8. Fframwaith Gweithwyr Asiantaeth

Yn Ebrill 2023 cymeradwyodd Cabinet i benodi cyflenwr gwasanaeth rheoledig gweithwyr dros dro trwy Gytundeb Fframwaith Darparu Gweithwyr Dros Dro ac Athrawon Llanw’r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Byddai’r contract yn rhoi mwy o reolaeth, dull trylwyr o ran llywodraethu staff asiantaethau a chysondeb o ran y dull ar draws pob gwasanaeth. Daeth Aelodau i’r canlyniad o ddyfarnu'n uniongyrchol i’r cyflenwr a ffefrir am gytundeb o dair blynedd gyda’r dewis i ymestyn am flwyddyn arall.

### 10.5.9. Partneriaeth Gymdeithasol

O dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 mae Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd yn dod i rym o Ebrill 2024. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod Undebau Llafur neu gynrychiolwyr eraill ar gyfer staff cyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn llwyr ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn pennu ei Amcanion Lles neu wrth wneud penderfyniadau strategol ar y camau rhesymol y mae'r corff yn ei gymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ein darparu gyda chyfle i ffurfioli'r gwaith da a'r arferion sy'n bodoli'n barod yn yr ardal hon. Eisoes yng Nghonwy mae perthynas weithio gref rhwng swyddogion ac Undebau Llafur cydnabyddedig.

- Cyfarfodydd Cydbwyllgorau Ymgynghorol bob chwarter
- Cyfarfod AD bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfod Addysg bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfod Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Presenoldeb mewn cyfarfod Cyngor Cyswllt Cymru ddwywaith y flwyddyn
- Cydweithio ar Baneli Gwerthuso Swyddi
- Cysylltu a chyfryngu anffurfiol ynghylch materion ymddygiad
- Trafodaethau ffurfiol a chefnogaeth ar gyfer staff o ran materion ymddygiad ffurfiol

Mae lansiad ffurfiol y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cynnig cyfle i fyfyrio ar fodel gweithio mewn partneriaeth bresennol Conwy a chydweithio er mwyn hunanasesu os ydyw'n parhau i fod yn addas i'r diben.

### 10.5.10. Rheoli Presenoldeb

Yn dilyn cais gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau cafodd diweddariad ar reoli presenoldeb staff ei gyflwyno i'r pwyllgor yn [Chwefror 2024](). Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg cyffredinol o'r sefyllfa ganol blwyddyn 2023 i 2024 a golwg cyffredinol o fesurau amrywiol sydd ar waith i gynnal iechyd a lles staff. Yr amcangyfrif ar gyfer nifer o ddyddiau yn 2023 i 2024 a gollwyd fesul aelod staff cyfwerth â llawn amser oedd 10.5 diwrnod gyda straen a gorbryder y prif resymau dros achosi'r absenoldeb. Mae'r adroddiad yn nodi fod £2.5 miliwn wedi cael ei wario ar staff asiantaeth. Gofynnodd y pwyllgor i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno ym Mehefin 2024 i gynnwys gwybodaeth ar fesurau rheoli cost ac effaith cost.

### 10.5.11. Adroddiad Archwilio Cymru - Llamu Ymlaen

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 fe ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adroddiad Archwilio Cymru 'Llamu Ymlaen' a oedd yn edrych ar archwilio sut yr ydym wedi dysgu o'r pandemig a chryfhau ein gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y ddarpariaeth gwasanaeth gan edrych yn arbennig ar asedau a'r gweithlu. Roedd yr adroddiad yn cydnabod fod gennym Gynllun Rheoli Asedau ar waith a gweledigaeth ar gyfer gweithlu ein dyfodol. Gwnaeth yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

1. Ein bod yn datblygu ymagwedd hirdymor i'n hasedau a'n gweithlu sydd wedi integreiddio gyda chynlluniau allweddol eraill a'u cefnogi gan gynlluniau cyflawni wedi'u costio; a
2. Datblygu ymhellach y defnydd o feincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu.

Rhannwyd ymateb y tîm rheoli i'r rhain a'r cynllun gweithredu gyda'r pwyllgor. Mae'r gwaith i fynd i'r afael â'r ddau argymhelliad yn parhau i fynd rhagddo.

## 10.6. Rheoli Asedau

Gweler y diweddariad isod mewn perthynas â meysydd llywodraethu ar gyfer asedau. Mae'r term asedau yn cyfeirio at ein rheolaeth o bortffolio'r ystâd (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy'n eiddo i ni/neu'n cael eu rheoli gennym) ac asedau digidol.

### 10.6.1. Rhesymoli Swyddfeydd

Yn ystod 2023 i 2024 dyma ni'n symud ymlaen gyda'r cam nesaf o resymoli ein gofod swyddfa. Cynhaliwyd trafodaethau yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Mai a mis Medi 2023 ac yn y Cabinet ym mis Mehefin a mis Medi 2023 er mwyn symud yr achos busnes amlinellol ymlaen ar gyfer strategaeth un swyddfa ac i sefydlu Bwrdd Prosiect i oruchwylio'r gwaith symud. Dyrannwyd £255,000 o gronfa cyfalaf wrth gefn i dalu am ddatblygu'r achos busnes llawn. Bydd yr ateb un swyddfa yn ein helpu i leihau costau, i wneud y mwyaf o'n hasedau ac i leihau ein ôl-troed carbon.

Ym mis Mawrth 2024 gwahoddwyd datganiadau o ddiddordeb ynghylch deiliadaeth a defnydd o'n Swyddfeydd ym Modlondeb ar gyfer y dyfodol. Mae sicrwydd wedi'i roi bod y goedwig gyfagos, cofeb y rhyfel a'r cyfleusterau hamdden heb eu cynnwys yn yr achos

hwn. Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd y cynnydd gyda gwerthu'r adeilad yn dal i fynd rhagddo.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 cafwyd cymeradwyaeth gan Gabinet hefyd i wagio a gwerthu ein Swyddfeydd ym Mochdre gydag Unedau Cefnffyrdd ac Unedau Ymateb yn adleoli i'r Hen Waith Brics yng Nghyffordd Llandudno. Roedd yr adroddiad terfynu ar gyfer Rhaglen Adnewyddu'r Hen Waith Brics wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hefyd ym mis Gorffennaf 2023. Mynegodd aelodau eu siomedigaeth nad oedd cyfleoedd cyflogaeth wedi cael eu darparu oherwydd y rhaglen a'r diffyg gweledigaeth strategol ar gyfer y safle. Fodd bynnag cafwyd sicrwydd y byddai'r gwaith yn parhau ar adnabod cyfleoedd datblygu yn y dyfodol. Cafodd ei gydnabod hefyd bod darparu'r nifer o fuddion disgwyliedig yn gysylltiedig â chwblhau'r Prosiect Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff a fyddai'n parhau i symud nifer o gamau gweithredu yn y rhaglen.

### 10.6.2. Concrit Awyredig wedi'i Awtoclafio a'i Atgyfnerthu (RAAC)

Wrth i'r newyddion dorri yn 2023 am y pryderon ynglŷn â diogelwch strwythurau wedi'u gwneud o Goncrit Awyredig wedi'i Awtoclafio a'i Atgyfnerthu (RAAC) sicrhawyd y cyhoedd fod gennym raglen arolygu reolaidd mewn lle ar gyfer yr holl eiddo. Cyn cyhoeddi canllawiau diwygiedig yr Adran Addysg rydym wedi ategu ein trefn ar gyfer pob eiddo a allai fod wedi'u heffeithio drwy gomisiynu peirianwyr annibynnol i wneud rhagor o waith profi. Roedd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Strategol, Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet wedi monitro'r sefyllfa'n agos a chadarnhawyd yn y pen draw fod un o'n hysgolion sef Ysgol Maes Owen ym Mae Cinmel gyda RACC yn bresennol yn ei strwythur. Er bod y deunydd i'w weld mewn cyflwr da cafodd yr ysgol ei chau ar 13 Medi fel rhagofal er mwyn gallu gwneud archwiliadau pellach. Dechreuwyd ar y gwaith adferol ar unwaith ar ddwy ardal wedi'u heffeithio gyda rhai ystafelloedd dosbarth yn cael eu symud dros dro i neuadd yr ysgol. Ail agorwyd yr ysgol i'w holl ddisgyblion ar 9 Hydref 2023.

### 10.6.3. Strategaeth Toiledau Cyhoeddus

Ym mis Medi 2023 gwahoddwyd adborth gan y cyhoedd ar y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus. Er nad yw'n gyfraith arnom i ddarparu toiledau cyhoeddus rydym wedi ymrwymo i ddod o hyd i atebion er mwyn darparu gwasanaeth toiledau cyhoeddus cynaliadwy er budd y cyhoedd a'r economi leol. Adolygwyd y strategaeth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Tachwedd 2023 a'r broses o'i fabwysiadu yn

cael ei argymell i Gabinet gyda’r bwriad o’i adolygu mewn chwe mis yn cynnwys gwybodaeth ariannol a’r diffyg disgwyliedig.

### 10.6.4. Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Asedau

Ym mis Mai 2023 ailsefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Asedau. Diben y grŵp yw edrych ar ein holl asedau yn adeiladau ac yn dir i weld os oes posib cymryd ymagwedd fasnachol i wneud y mwyaf o’u buddion gan wneud argymhellion pan fo angen i wella effeithiolrwydd y gwaith o reoli’r portffolio.

### 10.6.5. Portffolio Eiddo

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2023 ac yn dilyn ystyriaeth gan Graffu fe gymeradwyodd Cabinet i werthu safle Neuadd y Farchnad ym Mae Colwyn ar delerau ac amodau wedi’u cymeradwyo gan Brisiwr y Sir a Rheolwr Asedau. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023 fe gymeradwyodd Cabinet i werthu’r tir gyferbyn ag Awelfryn ar Mount Road, Llanfairfechan.

Roedd hen Ganolfan Ieuenctid Abergele angen buddsoddiad sylweddol fel ei fod yn cyrraedd safonau modern ac nid oedd yn cwrdd â gofynion ein darpariaeth gwasanaeth ieuenctid presennol. Mae Clwb Ieuenctid Abergele wedi symud i Ganolfan Deuluoedd Dinorben sydd â chyfleusterau modern ac mewn lleoliad gwell i wneud gweithgareddau yng Nghanolfan Hamdden Abergele. Mae symud y clwb wedi cryfhau’r ddarpariaeth i bobl ifanc yn yr ardal ac yn sicrhau bod cyllideb ein Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei wario ar weithgareddau i bobl ifanc yn hytrach na chynnal a chadw ac atgyweirio hen adeilad. Cafodd yr adeilad ei gau ddiwedd mis Medi 2023 a bydd ein proses gwaredu asedau yn cael ei ddilyn i sicrhau dyfodol yr Adeilad Rhestredig Gradd II hwn.

Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2023 cymeradwyodd Cabinet y brydles o Blot 7 ym Mharc Menter Tre Morfa ar y telerau ac amodau a gytunwyd gan Brisiwr y Sir a Rheolwr Asedau.

### 10.6.6. Pont y Soldiwr

Mae Pont y Soldiwr ar gau ar hyn o bryd ar sail diogelwch ac mae angen gosod estyll pren, estyll cynnal, prif geblau crog a thyrau newydd. Yn y bôn byddai’n rhaid datgymalu ac ailadeiladu’r bont gyfan. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Tachwedd 2023 a dechreuwyd ar y gwaith ar y prosiect ar ôl sicrhau cyllid o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

### 10.7. Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  Caffael yw'r broses y mae cynghorau yn ei defnyddio i fodloni ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.

#### 10.7.1. Strategaeth Gaffael Gorfforaethol

Rydym yn gwario mwy na £200 miliwn y flwyddyn gyda chyflenwyr a thrydydd parti ar ystod eang o waith, nwyddau a gwasanaethau. Mae'n hanfodol ein bod yn rheoli'r gwariant hwn yn gyfrifol a bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni. Cafodd Strategaeth Caffael Gorfforaethol newydd ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'i gymeradwyo gan Gabinet ym mis Mehefin 2023. Mae'n nodi'r blaenoriaethau caffael allweddol canlynol rhwng 2023 a 2028:

- Parhau i gael gwerth am arian wrth gaffael holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
- Hyrwyddo mwy o werth cymdeithasol a buddion cymunedol trwy ein gweithgarwch caffael
- Cefnogi ein heconomïau lleol trwy wneud caffael yn fwy hygyrch i fusnesau lleol a sefydliadau'r trydydd sector
- Hyrwyddo safonau moesegol a diogelu ymysg ein cyflenwyr
- Cyfrannu at ostwng allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi fel rhan o Gynllun Datgarboneiddio Conwy
- Sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethu ar draws yr Awdurdod.

Mae cynllun cyflenwi wedi cael ei greu a fydd yn cael ei fonitro a'i adrodd arno'n flynyddol i Graffu.

#### 10.7.2. Deddfwriaeth Caffael

Mae'r dirwedd caffael yng Nghymru wedi newid yn dilyn cyflwyno tri maes o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio'r ffordd y mae caffael cyhoeddus yn cael ei gynnal yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- Deddf Caffael 2023

- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Caffael Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn disgwyl i'r rheiny sy'n ymwneud â chaffael yn y sector gyhoeddus i wneud pethau yn dra gwahanol. Mae llawer iawn o waith wedi mynd i baratoi ar gyfer gweithredu a'r newidiadau sydd ar y gweill a fydd yn gyrru trawsnewidiad o ran ymddygiad a diwylliant ledled ein holl wasanaethau i wella'r ffordd y mae contractau ar gyfer gwaith, nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael. Bydd y newid yn her gan fod y cymhwysedd yn annigonol ac mae wedi cael ei nodi fel risg corfforaethol. Fodd bynnag rydym yn gweithio ar ffyrdd i leihau'r risg.

### 10.7.3. Fframwaith Cynnal a Chadw Arferol

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023 fe gymeradwyodd Cabinet yr ymagwedd caffael gan wasanaeth Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i waith cynnal a chadw blynyddol gan ddyfarnu contractau i gyflenwyr llwyddiannus mewn fframwaith sengl sydd wedi cael ei rannu'n chwe rhan er mwyn sicrhau gwerth gorau a sicrwydd cost.

## 11. Camau Gwella

Trwy gydol y penodau uchod yn yr adroddiad hwn rydym wedi darparu naratif ar gamau gwella yr ydym yn gweithio arnyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio ar nifer o'r rhain dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth yr ydym yn eu hwynebu. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd yn yr ardaloedd hynny trwy rifynnau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol; yn ogystal â thrwy ein proses adrodd ar Risgiau a Phroblemau Corfforaethol sy'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf sylweddol o bwysau sydd arnom ac yn cofnodi'r camau yr ydym yn eu cymryd.

Mae chwe cham o welliant ychwanegol wedi cael eu nodi trwy lunio'r adroddiad blynyddol hwn:

1. Cwblhau'r adolygiad blynyddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022 i 2027.
2. Ail edrych ar y Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol i edrych yn well ar gyfleoedd i'w meincnodi.
3. Wrth gefnogi'r Hunanasesiad Blynyddol ein bod yn cryfhau ein prosesau i ennill ac ystyried safbwyntiau defnyddwyr (h.y. gan ymgyngoreion statudol o dan Ddeddf

Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ynglŷn â'n perfformiad yn erbyn swyddogaethau.
4. Adolygu ein proses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth ar gyfer 2025 i 2026 (camau strategol yn codi o'r rhain yn cael eu hadrodd trwy'r adroddiad Hunanasesiad yn y dyfodol).
5. Adolygu a diweddaru ein Fframwaith Rheoli Perfformiad cyffredinol.
6. Adolygu a diweddaru ein Fframwaith Rheoli Risg.

Bydd diweddariadau yn cael eu darparu ar y camau hyn mewn adroddiadau perfformiad yn y dyfodol.  Byddwn hefyd yn cynnwys unrhyw gamau wedi'u hadnabod yn ystod y flwyddyn o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth a gwaith rheoleiddio allanol.

## 12. Cloi

Ein gobaith yw bod yr adroddiad hwn wedi dangos ein bod ar y cyfan yn perfformio'n dda a hynny o dan amgylchiadau anodd.  Rydym yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol sylweddol oherwydd diffyg cyllid gan y llywodraeth, er gwaethaf twf yn y galw am wasanaethau yn arbennig gan ein preswylwyr mwyaf diamddiffyn, cyfrifoldebau ychwanegol a phwysau chwyddiant parhaus.  Ni ellir tanbrisio maint y broblem ac mae ceisio llunio llwybr i gadernid ariannol wrth geisio amddiffyn y gwasanaethau y mae ein preswylwyr yn ei werthfawrogi yn parhau i fod yn ffocws allweddol i ni.  Wrth gloi'r adroddiad hwn mae'n rhaid i ni gydnabod a diolch o galon i'n staff am eu hymrwymiad parhaus a'u gwaith caled wrth iddyn nhw geisio ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o safon ragorol i'n cymunedau.